

## **Ansawdd gwaith a wneir gyda menywod**

**Arolygiad ar y cyd gan Arolygiaeth Prawf EF ac  
Arolygiaeth Carchardai EF**

Mai 2024

## **Diolchiadau**

Arweiniwyd yr arolygiad hwn gan Arolygydd Prawf EF Noreen Wallace, â chefnogaeth tîm o arolygwyr a staff gweithrediadau, ymchwil, cyfathrebu a chorfforaethol. Helen Davies yw'r rheolwr sy'n gyfrifol am y rhaglen arolygu hon. Hoffem ddiolch i bawb a gymerodd ran mewn unrhyw ffordd yn yr arolygiad hwn. Heb eu cymorth a'u cydweithrediad, ni fyddai'r arolygiad wedi bod yn bosibl. Cofiwch fod yr enwau yn yr enghreifftiau a roddir gydol yr adroddiad hwn wedi cael eu newid rhag datgelu pwy yw'r unigolion dan sylw.

## **© Hawlfraint y Goron 2024**

Cewch aildddefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys y logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i <https://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence> neu anfonwch neges ebost at [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk).

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.

ISBN: 978-1-915468-48-2

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lwytho i lawr yn:

[www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation](http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation)

## **Cyhoeddwyd gan:**

Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi  
1st Floor Civil Justice Centre  
1 Bridge Street West  
Manceinion  
M3 3FX

Dilynwch ni ar Twitter [@hmiprobation](https://twitter.com/hmiprobation)

<b>Cynnwys</b> .....	<b>3</b>
<b>Rhagair</b> .....	<b>5</b>
<b>Gwybodaeth am y cyd-destun</b> .....	<b>7</b>
<b>Crynodeb gweithredol</b> .....	<b>9</b>
<b>Argymhellion</b> .....	<b>14</b>
<b>1. Cyflwyniad</b> .....	<b>16</b>
1.1. Pam yr arolygiad thematig hwn?.....	16
1.2. Cefndir.....	16
1.3. Nodau ac amcanion.....	17
1.4. Amlinelliad o'r adroddiad.....	17
<b>2. Polisi, strategaeth, ac arweinyddiaeth</b> .....	<b>19</b>
2.1. Polisi a strategaeth.....	19
2.2. Arweinyddiaeth genedlaethol.....	20
2.3. Staffio a hyfforddiant.....	21
2.4. Ymyriadau.....	23
2.5. Gwasanaethau.....	24
2.6. Casgliadau a goblygiadau.....	26
<b>3. Y ddalfa</b> .....	<b>27</b>
3.1. Arweinyddiaeth.....	27
3.2. Effaith dedfrydau byr.....	28
3.3. Asesu a chynllunio.....	28
3.4. Ymyriadau a chymorth.....	30
3.5. Dyddiad rhyddhau.....	33
3.6. Casgliadau a goblygiadau.....	34
<b>4. Adeiladau cymeradwy</b> .....	<b>35</b>
4.1. Trosolwg o adeiladau cymeradwy ar gyfer menywod.....	35
4.2. Arweinyddiaeth, staffio ac adnoddau.....	35
4.3. Proses atgyfeirio.....	37
4.4. Preswyllo mewn adeilad cymeradwy.....	38
4.5. Symud ymlaen.....	40
4.6. Casgliadau a goblygiadau.....	41
<b>5. Rheoli dedfrydau cymunedol</b> .....	<b>42</b>
5.1. Arweinyddiaeth ranbarthol ac Unedau Cyflawni Prawf.....	42
5.2. Gwaith llys.....	42
5.3. Asesu a chynllunio.....	46

5.4. Cyflawni dedfrydau.....	49
5.5. Cyflawni ymyriadau .....	51
5.6. Gwasanaethau .....	54
5.7. Casgliadau a goblygiadau.....	55
<b>Cyfeiriadau .....</b>	<b>56</b>
<b>Atodiad 1: Geirfa .....</b>	<b>58</b>
<b>Atodiad 2: Methodoleg .....</b>	<b>60</b>
<b>Atodiad 3: Tablau data .....</b>	<b>64</b>

## Rhagair

---

Mae 17 flynedd wedi mynd heibio ers i Adroddiad Corston<sup>1</sup> alw am newid radical i'r ffordd rydym yn trin menywod yn y system cyfiawnder troseddol. Dangosodd yr adroddiad fod angen dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar fenywod, dull a fyddai'n cydnabod ac yn ymateb i'r holl anghenion cymhleth sy'n achosi i fenywod droseddu. Roedd y Strategaeth Troseddwy'r Benywaidd<sup>2</sup> a'r Cynllun Cyflawni<sup>3</sup> a gyhoeddwyd yn ddiweddarach yn nodi sut y mae'r llywodraeth yn bwriadu mynd i'r afael â throseddau menywod. Roedd yn nodi blaenoriaethau er mwyn lleihau nifer y menywod sy'n dod i'r system cyfiawnder troseddol, lleihau nifer y menywod sy'n treulio dedfrydau byr o garchar drwy wneud gwell defnydd o ddedfrydau cymunedol, a gwella canlyniadau i fenywod sy'n treulio cyfnod yn y carchar. Er bod yr uchelgeisiau hyn yn adlewyrchu disgwyliadau'r gwasanaeth carchardai a'r gwasanaeth prawf, mae ein canfyddiadau yn yr arolygiad hwn yn dangos bod y cynnydd yn rhy araf ac yn achosi rhwystredigaeth. Yn rhy aml o'r hanner, mae gwasanaethau ar gyfer menywod yn wahanol iawn i'r dulliau gweithredu sy'n ystyried rhywedd a ragwelwyd, sy'n golygu nad oes manau diogel lle gellir cynnig cefnogaeth a chyfle i adsefydlu ar gael i bob menyw sydd eu hangen.

Mewn carchardai, gwelsom fod gormod o rwystrau sy'n atal cymorth ailsefydlu da, ac roedd yn llawer rhy anodd i benderfynu beth oedd y canlyniadau. Mae'r broses o ddarparu gwasanaethau mewn carchardai yn ddryslud ac yn rhy gymhleth, sy'n golygu bod menywod yn aml yn syrthio drwy'r bylchau. Mae'n ymddangos bod cymorth i fynd i'r afael ag anghenion ymarferol, er enghraifft mynediad at gyfrifon banc neu rifau yswiriant gwladol, wedi dirywio yn hytrach na gwella. Yn aml iawn nid yw llety addas yn cael ei ganfod tan ychydig ddyddiau cyn dyddiad rhyddhau menywod. Mae hyn yn achosi ansicrwydd ac yn golygu na ellir gwneud trefniadau dibynadwy ar gyfer gwasanaethau eraill y mae arnynt eu hangen, er enghraifft triniaeth neu feddyginiaeth iechyd meddwl. Nid oes digon o staff mewn timau carchardai, ac mae hynny'n arwain at oedi cyn mynd i'r afael ag anghenion menywod. Mae hyn yn lleihau'r siawns o ddarparu cymorth ystyriol yn ystod eu dedfryd.

Mae adeiladau cymeradwy ar gyfer menywod yn cynnig amgylchedd diogel sy'n meithrin datblygiad. Er hyn, nid oes digon o ddefnydd yn cael ei wneud ohonynt, ac yn aml iawn collir cyfleoedd i'w defnyddio ar gyfer gorchmynion cymunedol. Fel yn achos rhyddhau o'r carchar, yn aml iawn roedd ansicrwydd ynglŷn â beth fyddai'n digwydd nesaf, gan gynnwys ble y byddai'r fenyw'n byw. Mewn rhai achosion, roedd hyn yn dad-wneud y cynnydd cadarnhaol roedd menywod wedi'i wneud yno.

Yn y gymuned, roedd rhai modelau cyflawni'n cynnig gobaith y gellir gwneud newidiadau cadarnhaol pan fydd y Gwasanaeth Prawf yn gweithio mewn cysylltiad agos ag awdurdodau lleol a sefydliadau partner i ddatblygu dull gweithredu system gyfan o oresgyn yr anfantais sy'n aml yn achosi i fenywod droseddu. Yn anffodus, mae'r modelau hyn yn brin. Mae ansawdd yr oruchwyliaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael yn amrywio'n fawr yng Nghymru a Lloegr. Nid oes llawer o dystiolaeth bod cynnydd yn cael ei wneud wrth fynd i'r afael â'r rhesymau pam y mae menywod yn troseddu, y cydnabyddir yn gyffredinol eu bod yn gysylltiedig â'u natur agored i niwed. Er bod ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth sydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael ag anghenion menywod ar gael, nid oes digon o fenywod yn cael cyfle i elwa ohonynt. Yn ychwanegol at hyn, mae gwasanaethau sydd wedi'u comisiynu'n benodol er mwyn diwallu anghenion menywod yn cael eu rhwystro gan broses atgyfeirio gymhleth, ac nid oes gwerthusiad digonol wedi'i wneud gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS) er mwyn deall a yw'r canlyniadau'n rhai cadarnhaol, er bod gan rai darparwyd eu dulliau gwerthuso eu hunain.

---

<sup>1</sup> Y Swyddfa Gartref. (2007). The Corston Report: A report by Baroness Jean Corston of a review of women with particular vulnerabilities in the criminal justice system.


<sup>2</sup> Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2018). Strategaeth Troseddwy'r Benywaidd. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/female-offender-strategy>

<sup>3</sup> Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2023). Cynllun Cyflawni Strategaeth Troseddwy'r Benywaidd: 2022-25. Ar gael yn: [Cynllun Cyflawni Strategaeth Troseddwy'r Benywaidd 2022-25 \(publishing.service.gov.uk\)](https://publishing.service.gov.uk)

Mae angen galw rhanbarthau gwasanaethau carchardai a phrawf i gyfrif er mwyn sicrhau eu bod yn darparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion menywod. Bron i ddau ddegawd ar ôl cyhoeddi adroddiad Corston mae'r arolygiad hwn yn dangos bod llawer o waith i'w wneud eto, ac mae'r adroddiad hwn yn alwad o'r newydd i weithredu. Rydym wedi gwneud cyfres o argymhellion, ac os cânt eu dilyn dylent wneud gwahaniaeth go iawn i ansawdd gwasanaethau a ddarperir i fenywod.



**Martin Jones CBE**  
Prif Arolygydd Prawf EF



**Charlie Taylor**  
Prif Arolygydd Carchardai EF

# Gwybodaeth am y cyd-destun

## Ystadegau allweddol

<b>20.2 y cant</b>	Y gyfradd aildroeddu gyfartalog flynyddol a brofwyd ar gyfer menywod sy'n oedolion <sup>4</sup>
<b>26.4 y cant</b>	Y gyfradd aildroeddu gyfartalog flynyddol ar gyfer dynion sy'n oedolion <sup>4</sup>

## Ystadegau carchardai

<b>3,549</b>	Nifer y menywod mewn carchardai ar 31 Rhagfyr 2023 <sup>5</sup>
<b>83,940</b>	Nifer y dynion mewn carchardai ar 31 Rhagfyr 2023 <sup>5</sup>
<b>12.9 mis</b>	Hyd cyfartalog dedfryd o garchar ar gyfer menywod yn 2023 <sup>6</sup>
<b>21.9 mis</b>	Hyd cyfartalog dedfryd o garchar ar gyfer dynion yn 2023 <sup>6</sup>

## Ystadegau prawf

<b>21,402</b>	Nifer y menywod yn cael eu goruchwyllo gan y gwasanaeth prawf ar 30 Mehefin 2023 <sup>7</sup>
<b>216,862</b>	Nifer y dynion yn cael eu goruchwyllo gan y gwasanaeth prawf ar 30 Mehefin 2023 <sup>7</sup>
<b>52%</b>	Canran y menywod wedi'u remandio i'r ddalfa gan y llys ynadon yn 2021 nad ydynt yn mynd ymlaen i gael dedfryd o garchar <sup>8</sup>
<b>43%</b>	Canran y menywod wedi'u remandio i'r ddalfa gan Lys y Goron yn 2021 nad ydynt yn mynd ymlaen i gael dedfryd o garchar <sup>8</sup>

## Ystadegau adeiladau cymeradwy

<b>165</b>	Cyfanswm y gwelyau a oedd ar gael i fenywod bob diwrnod ym mis Gorffennaf 2023 <sup>9</sup>
<b>4,683</b>	Cyfanswm y diwrnodau gwelyau a oedd ar gael i fenywod ym mis Gorffennaf 2023 <sup>8</sup>
<b>2,550</b>	Cyfanswm y diwrnodau gwelyau a oedd ar gael i fenywod a oedd yn llawn ym mis Gorffennaf 2023 <sup>8</sup>

<sup>4</sup> Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2024). Proven reoffending statistics: January to March 2022. Ar gael yn:

<https://www.gov.uk/government/statistics/proven-reoffending-statistics-january-to-march-2022> (Cyrchwyd 27 Mawrth 2024).

<sup>5</sup> Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2024) Offender Management Statistics Bulletin, England and Wales: Quarterly: July to September 2023. Prison Population: 31 December 2023. Ar gael yn:

<https://www.gov.uk/government/collections/offender-management-statistics-quarterly> (Cyrchwyd 01 Chwefror 2024).

<sup>6</sup> Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2024). Criminal Justice Statistics Quarterly: June 2023. Outcomes by Offence Data Tool June 2023. <https://www.gov.uk/government/statistics/criminal-justice-system-statistics-quarterly-june-2023> (Cyrchwyd 18 Mawrth 2024)

<sup>7</sup> GOV.UK Justice Data (dim dyddiad) Ar gael yn: <https://data.justice.gov.uk/probation> (Cyrchwyd 01 Chwefror 2024).

<sup>8</sup> Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai (2022) *Why focus on reducing women's imprisonment? England and Wales*. Ar gael yn: <https://prisonreformtrust.org.uk/wp-content/uploads/2022/08/Why-women-2022-briefing.pdf>

<sup>9</sup> Data heb eu cyhoeddi gan HMPPS; o ganlyniad, nid oes gan y data hyn yr un sicrwydd â data sydd wedi'u cyhoeddi.

## Prif ganfyddiadau'r arolygiad hwn

Canfuom y canlynol o'r achosion a arolygwyd:

<b>47%</b>	Canran yr asesiadau a oedd yn darparu darlun sy'n ystyried rhywedd o risgiau ac anghenion y fenyw
<b>35%</b>	Canran y gwaith cynllunio a oedd yn mynd i'r afael yn ddigonol â risgiau ac anghenion y fenyw
<b>42%</b>	Canran yr achosion lle'r oedd cyflawni dedfrydau yn ystyried rhywedd ac yn rhoi cefnogaeth effeithiol i anghenion y fenyw ac yn mynd i'r afael â'i hymddygiad troseddol
<b>42%</b>	Canran yr achosion lle'r oedd arferion adolygu yn dangos dull gweithredu sy'n ystyried rhywedd wrth ystyried anghenion y fenyw ac yn mynd i'r afael â'i hymddygiad troseddol



# Crynodeb gweithredol

---

## Cyd-destun

Mae'r arolygiad hwn yn adeiladu ar ddau arolwg blaenorol o wasanaethau a ddarperir i fenywod. Yn 2011, cwblhaodd Arolygiaeth Prawf EM, ynghyd ag Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron EM ac Arolygiaeth Carchardai EM, arolygiad thematig ar y cyd *Equal but different? An inspection of the use of alternatives to custody for women offenders* (Arolygiaeth Prawf EM, 2011). Roedd yr arolygiad hwn yn mesur cynnydd ymddiriedolaethau prawf wrth weithredu argymhellion Corston. Canfu'r arolygiad fod llawer wedi'i gyflawni, ond bod y ddarpariaeth ar gyfer menywod yn 'amrywio'n fawr' ac yn 'anghyson'. Roedd ein harolygiad diwethaf o wasanaethau prawf i fenywod, a gyhoeddwyd yn 2016, yn ystyried gwaith y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Ers hynny, mae'r gwasanaethau prawf wedi uno, sy'n golygu mai'r Gwasanaeth Prawf sy'n gyfrifol yn awr am reoli pobl sydd ar brawf, ar bob lefel risg, ac am weithredu rhaglenni achrededig ac ymyriadau. Yn ogystal, ers ein harolygiad diwethaf, mae nifer o gyhoeddiadau arwyddocaol (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2018a; Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2018b; Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2020; Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2021; Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2023a) wedi nodi disgwyliadau yn ymwneud â sut y dylai gwasanaethau carchardai a phrawf ddarparu gwasanaethau i fenywod.

## Methodoleg

Cafodd y gwaith maes cychwynnol ar gyfer yr arolygiad thematig ar y cyd hwn ei wneud mewn dwy ran. Ym misoedd Tachwedd a Rhagfyr 2023, ymwelodd Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi â phedwar carchar caeedig i fenywod: dau garchar mwy sy'n gwasanaethu'r llysoedd, a dau garchar hyfforddi. Cyfwelwyd 42 o fenywod ynglŷn â'u profiadau o'r ddarpariaeth ailsefydlu; roedd y rhan fwyaf ohonynt wedi'u dedfrydu i lai na 12 mis yn y ddalfa. Adolygwyd hefyd y cymorth a roddwyd iddynt, drwy ddarllen eu ffeiliau a siarad â'r gwahanol staff a oedd yn ymwneud â hwy. Yn ogystal, cyfwelwyd ystod eang o reolwyr ar bob safle.

Ar gyfer yr elfen brawf, ystyriodd Arolygiaeth Prawf EF waith chwe Uned Cyflawni Prawf a chwe adeilad cymeradwy. Arolygwyd dau sampl yn ystod y gwaith maes. Roedd y cyntaf yn sampl o 60 o fenywod ar orchymyn cymunedol, dedfryd ohiriedig neu drwydded rhwng 01 Gorffennaf 2023 a 31 Gorffennaf 2023. Cynhaliwyd ein gwaith maes yn ystod misoedd Hydref a Thachwedd 2023. Ar gyfer yr achosion hyn, arolygwyd ansawdd y gwaith rheoli achosion a chyfwelwyd yr ymarferydd prawf, os oedd hynny'n bosibl. Yn ein hail sampl, edrychasom ar 30 o achosion o chwe adeilad cymeradwy lle'r oedd y menywod yn breswylwyr ym mis Gorffennaf 2023. Ar gyfer yr achosion hyn, edrychasom ar brofiad y menywod yn yr adeiladau cymeradwy ond ni chafodd y gwaith rheoli achosion ei archwilio. Yn ystod pob wythnos gwaith maes, cynaliasom gyfarfodydd ag ystod o staff, rheolwyr, uwch arweinwyr, a phartneriaid gweithredol a strategol. Siaradasom hefyd â nifer fach o ddedfrydwyr a grwpiau ad hoc o fenywod a oedd yn derbyn gwasanaethau pan wnaethom eu cyfarfod yn ystod ymweliadau ag adeiladau cymeradwy neu ganolfannau menywod.

Ymunodd y ddwy arolygiaeth ar gyfer yr wythnos gwaith maes olaf, pan gawsom gyfle i gyfarfod y rhai sy'n gyfrifol am bolisi a strategaeth menywod ar lefel genedlaethol.

Comisiynwyd User Voice i gynnal cyfweliadau lled-strwythuredig o bell â phobl ar brawf. Casglodd ymgynghorwyr â phrofiad personol o'r system cyfiawnder troseddol farn 77 o fenywod a oedd wedi cael eu rheoli gan y Gwasanaeth Prawf neu a oedd wedi byw mewn adeilad cymeradwy. Yn yr adroddiad hwn rydym wedi cynnwys enghreifftiau o'r barnau a gasglwyd, ac mae copi o adroddiad llawn User Voice i'w weld [ar ein gwefan](#).

Mae dadansoddiad manwl o'n methodoleg yn Atodiad 2.

## **Polisi, strategaeth, ac arweinyddiaeth**

Yn wahanol i'n harolwg diwethaf, gwelsom lawer o bolisiau a chanllawiau i lywio gwaith gwasanaethau carchardai a phrawf â menywod. Mae'r rhain yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael ynglŷn â beth sy'n gweithio orau wrth ymwneud â menywod yn y system cyfiawnder troseddol. Mae strategaeth gyffredinol y llywodraeth, y Strategaeth Troseddwyr Benywaidd (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2018), yn cydnabod mai natur agored i niwed menywod, yn aml iawn, yw'r hyn sy'n achosi iddynt droseddu; o ganlyniad, y ffordd orau o gynorthwyo menywod i symud oddi wrth droseddu yw drwy gydnabod ac ymateb i hyn wrth ddarparu gwasanaethau. Mae'r Fframwaith Polisi Menywod (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2021) yn trosi'r strategaeth yn gyfres o ddisgwyliadau, gan ymdrin â chanlyniadau a gofynion ar gyfer carchardai a phrawf. Mae'r disgwyliadau'n glir ac yn cefnogi ymarfer sy'n ystyried rhywedd ac yn cydnabod yr anghenion sy'n aml yn achosi i fenywod droseddu. Mae'r Model Gweithredu Targed (TOM) (HMPPS, 2021) ar gyfer y Gwasanaeth Prawf unedig hefyd yn cydnabod bod angen ymdrin â throseddau menywod mewn ffordd wahanol i droseddau dynion, ond yn siomedig iawn, mae'n glastwreiddio rhai o'r prif disgwyliadau. Er enghraifft, mae'r fframwaith polisi'n dweud bod yn 'rhaid' i'r gwasanaeth prawf fodloni tri gofyniad mewn cysylltiad â menywod, ac un o'r rhain yw y 'dylid' cynnig cyfle i fenywod gael eu gweld mewn amgylchedd menywod yn unig. Ond mae'r TOM yn sôn am 'obeithio' y bydd menywod yn cael cyfle i adrodd naill ai i fenywod yn unig neu ar adeg i fenywod yn unig. Yn ymarferol, gwelsom nad yw llawer o'r disgwyliadau ar gyfer gwasanaethau menywod yn cael eu bodloni.

Mae Grŵp Menywod HMPPS (y Gyfarwyddiaeth Menywod cyn hyn) yn goruchwylio pob carchar menywod sector cyhoeddus yn uniongyrchol. Mae'n darparu canllawiau polisi a chefnogaeth ehangach i'r ddau garchar menywod preifat (Carchar Bronzefield a Charchar Peterborough), a ddaeth yn rhan o gyfrifoldeb y Gyfarwyddiaeth Contractau Carchardai. Mae'r tîm hefyd yn darparu cymorth a chanllawiau amrywiol i dimau prawf rhanbarthol â'r nod o hybu arferion da. Mae hyn yn cynnwys fforymau defnyddiol ar lefelau gweithredol a strategol, i archwilio arferion effeithiol a rhwystrau sy'n atal cynnydd â'i gynllun busnes, sy'n deillio o'r Strategaeth Troseddwyr Benywaidd. Fodd bynnag, oherwydd blaenoriaethau gwrthgyferbyniol mewn rhanbarthau prawf a heriau staffio nid yw menywod yn cael cynnig cymorth priodol yn gyson mewn amgylchedd addas.

Yn ddamcaniaethol, mae ystod resymol o ymyriadau ar gael ar gyfer menywod, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer gwaith grŵp neu becynnau un-i-un, fel sy'n addas i anghenion yr unigolyn. Yn ymarferol, fodd bynnag, yn anaml y gwelsom yr ymyriadau hyn yn cael eu rhoi ar waith, ac ni welsom ddadansoddiad cynhwysfawr er mwyn deall faint y gellid disgwyl iddynt gael eu cyflawni. Nid yw gwasanaethau carchardai a phrawf wedi gwerthuso'r ymyriadau yn llawn eto er mwyn deall a ydynt yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau menywod neu pa ganlyniadau y maent yn eu sicrhau.

O dan y model Gwasanaeth Prawf unedig, comisiynir gwasanaethau adsefydlu gan y sectorau preifat a gwirfoddol. Mae un darparwr ym mhob ardal Comisiynydd Heddlu a Throseddau yn dal y contract er mwyn darparu cymorth i fenywod ar nifer o wahanol lwybrau sy'n gysylltiedig ag anghenion. Mae hyn yn golygu bod menywod yn cael mynediad at gymorth mewn ffordd gyfannol gan ddarparwyr sydd ag arbenigedd mewn gweithio gyda menywod. Yn ddamcaniaethol, mae'r model yn un da. Fodd bynnag, mae'r broses atgyfeirio yn rhy gymhleth ac nid yw'r ymarferwyr sy'n atgyfeirio yn ei deall yn dda, Maent yn gorfod nodi anghenion menywod a lefelau cymhlethdod cyn cyfeirio at y darparwr, sydd yn ei dro'n cwblhau ei asesiad a chynllun gweithredu. Ar ôl dyfarnu contractau i sefydliadau o ganlyniad i'w gwybodaeth a'u profiad o weithio gyda menywod, mae angen i wasanaethau prawf ddefnyddio dull mwy cydweithredol er mwyn sicrhau'r gwerth mwyaf iddynt.

## **Y ddalffa**

Yn gyffredinol, er ein bod wedi gweld staff ymroddedig sy'n gweithio'n galed mewn carchardai, roedd y trefniadau ar gyfer ailsefydlu yn ddryslyd ac yn rhy gymhleth. Mae natur wasgaredig yr ystad carchardai menywod yn golygu y bydd y menywod sydd mewn carchar yn cael eu rhyddhau i lawer o wahanol ardaloedd cartref. Mae hyn yn creu sefyllfa gymhleth ar gyfer gwasanaethau adsefydlu wedi'u comisiynu (CRS), ac mae'n bosibl y bydd gan rai carchardai gynifer â 15 o

ddarparwyr perthnasol, llawer ohonynt heb fod ar y safle. Yn ogystal, ac eithrio ym Manceinion Fwyaf, nid oedd uwch arweinwyr mewn carchardai yn ddigon ymwybodol o ganlyniadau yn deillio o wasanaethau adsefydlu wedi'u comisiynu i ddeall ansawdd y gwasanaethau. Yn ychwanegol at hyn, roedd gwahanol dimau yn gyfrifol am rannau o'r broses ailsefydlu, ac yn rhy aml, nid oeddent yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd. Roedd hyn yn achosi oedi annerbyniol wrth asesu menywod a'u cynorthwyo i baratoi ar gyfer cael eu rhyddhau. Roedd pob un o'r timau cyn rhyddhau y gwnaethom ni ymweld â hwy yn brin o staff ac yn cael anhawster i ddal i fyny â'r holl asesiadau yr oedd angen eu gwneud. Lle'r oedd cynlluniau cyn rhyddhau yn cael eu cwblhau, roeddent o safon resymol fel arfer. Fodd bynnag, roedd gormod ohonynt yn seiliedig ar asesiadau annigonol. Roedd rhain yn aml yn cael eu gwneud dros y ffôn, ac nid oedd hynny'n creu amgylchedd diogel lle gallai menywod fod yn onest am faterion sensitif.

Nid yw'n syndod bod menywod ar ddedfrydau byr yn wynebu heriau mwy fyth, ac roedd y rhan fwyaf yn methu â chael cymorth ystyriol i sicrhau newid tymor hwy. Mewn rhai carchardai, nid oedd menywod a oedd yn cael eu galw yn ôl i'r carchar yn gallu cael cymorth gan wasanaethau adsefydlu wedi'u comisiynu (CRS) yn ddigon buan oherwydd bod eu hatgyfeiriadau cymunedol wedi cael eu cau, a bod hynny'n golygu bod yn rhaid aildechrau'r broses. Gwelsom gyfathrebu da rhwng rheolwyr troseddwyr cymunedol a rheolwyr troseddwyr yn y carchar yn y rhan fwyaf o'r achosion, ac roedd llawer o reolwyr troseddwyr yn y carchar yn gweithio'n rhagweithiol i geisio sefydlu cymorth i fenywod a goresgyn diffygion yn y system. Mewn lleiafrif o achosion, roedd gweithwyr CRS yn darparu cymorth ystyriol o safon uchel i fenywod. Roedd gan yr ychydig ddarparwyr a oedd yn dod i garchardai ac yn darparu cymorth wyneb-yn-wyneb well siawns o gael y menywod i ymddiried ynddynt.

Roedd dibyniaeth ar reolwyr troseddwyr cymunedol i gyfeirio menywod at ddarparwr CRS ar gyfer llety yn achosi oedi yn hanner yr achosion a arolygwyd gennym. Mewn ychydig o achosion, roedd gennym bryderon nad oedd y risg o niwed a oedd yn cael ei hachosi gan fenywod yn cael ei hystyried yn ddigonol bob amser. Er enghraifft, cymeradwywyd cyfeiriadau rhyddhau amhriodol. Gwelsom enghreifftiau o rannu gwybodaeth effeithiol rhwng timau mewn carchardai. Fodd bynnag, roedd darparwyr a staff yn cael eu hatal gan na allent gael mynediad at holl systemau rheoli ac asesu achosion carchardai a phrawf.

Fel y gwelsom mewn arolygiadau eraill, yn aml iawn nid oedd menywod yn cael sesiynau gwaith allweddol<sup>10</sup> rheolaidd o safon uchel i'w helpu i ailsefydlu. Ni ellid mynd i'r afael yn rhwydd â rhwystrau ymarferol a oedd yn atal ailsefydlu; er enghraifft, roedd yn anodd i fenywod gael mynediad at gyfrifon banc a rhifau yswiriant gwladol. Yn gadarnhaol, gwelsom gysylltiadau trawiadol â chyflogwyr amrywiol, er mai ychydig o fenywod oedd yn mynd i gyflogaeth ar ôl cael eu rhyddhau. Roedd llety yn angen blaenoriaethol i'r rhan fwyaf o'r menywod, ond, yn rhy aml o'r hanner, nid oedd cyfeiriad yn cael ei ganfod nes bod dyddiad rhyddhau'r menywod bron â chyrraedd. Roedd hyn yn achosi lefelau uchel o orbryder i fenywod nad oeddent yn gwybod ble roeddent yn mynd i fyw. Roedd hefyd yn amharu ar gymorth arall, er enghraifft trefnu triniaeth feddygol angenrheidiol. Yn ogystal, nid oedd carchardai yn casglu data am ganlyniadau llety ar ôl y noson gyntaf allan o'r carchar, ac o ganlyniad, nid oeddent yn gallu mesur effaith gwaith a oedd yn cael ei gwblhau yn y carchar.

Roedd tri chwarter y menywod yn ein sampl wedi profi cam-drin domestig, ac roedd llawer yn ymwneud â gwaith rhyw. Ond ar adeg ein harolygiad, nid oedd tystiolaeth yn y pedwar carchar y gwnaethom ni ymweld â hwy bod cymorth ymarferol penodol yn cael ei ddarparu i helpu menywod i osgoi neu i reoli'r risg o ddychwelyd i berthynas gamdriniol neu waith rhyw ar ôl cael eu rhyddhau. Roedd gan bob un o'r carchardai yr ymwelwyd â hwy gynlluniau datblygedig i dreialu gweithwyr ailsefydlu teuluoedd a fyddai'n cynorthwyo'r fenyw i ddychwelyd i gyfrifoldebau gofalgarg ar ôl cael ei rhyddhau.

---

<sup>10</sup> Mae gweithwyr allweddol yn swyddogion carchar band 3 sy'n cael eu dyrannu er mwyn hybu perthnasoedd adeiladol sy'n seiliedig ar adsefydlu rhwng staff a charcharorion â'r nod o feithrin ymddygiad cadarnhaol.

Ar y diwrnod roeddent yn cael eu rhyddhau o'r carchar, roedd gan fenywod yn aml lawer o apwyntiadau i fynd iddynt ond nid oedd ganddynt ddigon o gefnogaeth ymarferol i wneud hyn. Roedd gan rai carchardai ganolfannau y tu allan i'r gât (y cyfeirid atynt weithiau fel 'lofeydd ymadael') a oedd ar gael i fenywod yn syth ar ôl iddynt gael eu rhyddhau er mwyn iddynt allu cynllunio eu siwrneiau neu wneud galwadau ffôn. Roeddem yn teimlo y dylai hyn fod ar gael ym mhob carchar, a hefyd y dylid darparu ffôn symudol syml i fenywod nad oes ganddynt un yn barod.

## **Adeiladau cymeradwy**

Roedd y Strategaeth Troseddwyr Benywaidd (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2018) yn cynnwys cynlluniau i greu canolfannau preswyl i fenywod, a fyddai'n cael eu defnyddio fel dewis arall yn lle carcharu menywod. Mae cynnydd â'r canolfannau hyn wedi bod yn araf, ac ar hyn o bryd nid oes canolfannau'n bodoli. Fel rhan o'r arolygiad hwn, roedd arnom eisiau deall pa ran y mae adeiladau cymeradwy yn ei chwarae ym mywydau menywod, a pha mor effeithiol y maent yn cefnogi adsefydlu ac ailsefydlu. Erbyn hyn mae naw adeilad cymeradwy ar gyfer menywod yn Lloegr, yn cynnig 165 o welyau, ond dim un yng Nghymru. Fel yn achos carchardai menywod, mae hyn yn golygu bod preswylwyr yn debygol o fod yn bell o ardal eu cartref heb gysylltiadau â ffrindiau, teulu, neu wasanaethau yn yr ardal lle mae'r adeiladau cymeradwy wedi'u lleoli. Mae adeiladau cymeradwy ar gyfer menywod yn derbyn adnoddau ac yn cael eu llywodraethu yn yr un modd ag adeiladau o'r fath ar gyfer dynion. Gwelsom nad yw hyn yn rhoi ystyriaeth a sylw priodol i broffil ac anghenion gwahanol menywod. Mae troseddau menywod yn aml yn gysylltiedig â phrofiadau trawmatig, ac mae'n cymryd llawer iddynt ddatblygu digon o ymddiriedaeth yn y rhai sy'n ceisio eu cefnogi a datgelu eu profiadau. Yn gyffredinol, mae menywod mewn adeiladau cymeradwy yn treulio mwy o amser yn yr adeilad ac mae arnynt eisiau mwy o amser i ymgysylltu â staff, ond mae'r model staffio yr un fath ag yng nghyfleusterau'r dynion. Gall yr adeiladau cymeradwy sy'n cael eu rhedeg yn annibynnol ddiffinio eu modelau staffio eu hunain, ac mae'r rhan fwyaf yn cyflogi rolau ychwanegol, er enghraifft dirprwy reolwr. Roedd bron bob un o'r adeiladau cymeradwy ar gyfer menywod yn cynnwys llai o breswylwyr na'r disgwyl yn ystod y cyfnod a archwiliwyd gennym. Wrth archwilio'r rhesymau dros hyn, gwelsom nad oedd pob un o'r ymarferwyr prawf yn ymwybodol bod y meini prawf cymhwysedd ar gyfer adeiladau cymeradwy i fenywod yn wahanol i'r rhai ar gyfer dynion, a oedd yn golygu y gallai menywod a oedd yn cael eu hasesu fel rhai yn achosi risg ganolig o niwed difrifol gael eu cyfeirio. Ni welsom ychwaith lawer o dystiolaeth o ofynion mewn adeiladau cymeradwy yn cael eu defnyddio ar orchmynion dedfrydau cymunedol neu ohriedig i ffurfio argymhellion dedfrydu cadarn a sicrhau nad yw menywod yn cael eu hanfon i'r carchar.

Mewn nifer o'r adeiladau cymeradwy a oedd yn cael eu rhedeg gan y Gwasanaeth Prawf yr ymwelwyd â hwy, roedd gwasanaethau rheoli cyfleusterau yn wael, ac mewn rhai achosion roeddent yn rhoi preswylwyr a staff mewn perygl.

Gwelsom fod staff mewn adeiladau cymeradwy yn dangos ymrwymiad amlwg i ymarfer sy'n ystyried ac yn ymateb i drawma yn eu gwaith bob dydd. Roedd y rhan fwyaf o'r adeiladau cymeradwy yn cyflawni'r her o gydbwyso'r risgiau yr oedd preswylwyr yn eu hachosi i bobl eraill â'r anghenion a'r ffactorau risg a oedd ganddynt, a hynny'n aml heb ddigon o adnoddau.

## **Rheoli dedfrydau cymunedol**

Defnyddir gwahanol ddulliau o reoli menywod yn y gwasanaeth prawf yng Nghymru a Lloegr. Mae gan rai Unedau Cyflawni Prawf dimau menywod arbenigol, weithiau yn rhannu'r un safle â sefydliadau eraill fel rhan o ddull system gyfan o reoli menywod. Mae'r canolfannau menywod amlasiantaethol yn darparu mannau diogel a phriodol i fenywod gael cymorth gan sefydliadau amrywiol. Mewn Unedau Cyflawni Prawf eraill, mae'r trefniadau ar gyfer menywod yr un fath â'r rhai ar gyfer dynion, ac mae hynny'n annerbyniol. Mae llawer o ymarferwyr prawf yn angerddol ynglŷn â gweithio gyda menywod, ac yn gweithio'n galed i fynd i'r afael â'u hanghenion niferus a chymhleth yn aml; fodd bynnag, dywedodd mwy na'u hanner wrthym fod arnynt angen mwy o hyfforddiant i weithio'n effeithiol gyda menywod. Prif ffynhonnell dysgu am y pwnc hwn yw eDdysgu, ac roedd llawer o'r ymarferwyr naill ai heb ei gwblhau neu wedi ei gwblhau ond ddim yn teimlo ei fod wedi eu paratoi'n ddigonol i gyflawni eu rolau.

Ers ein harolygiad diwethaf, mae'r Gwasanaeth Prawf wedi gwella ei bwyslais ar anghenion menywod i ryw raddau. Erbyn hyn mae gan bob rhanbarth arweinydd menywod dynodedig ar raddfa rheolwr canol, sy'n adrodd i uwch arweinydd rhanbarthol â chyfrifoldeb am fenywod. Nod y rôl arweinydd menywod yw hybu arferion a gwasanaethau o safon uchel; mae eu heffaith i'w deimlo mewn rhai ardaloedd yn fwy na'i gilydd, gan ddibynnu ar y flaenoriaeth a roddir i fenywod gan uwch arweinwyr rhanbarthol.

Roedd safon adroddiadau llys ar gyfer menywod yn weddol dda, â dadansoddiad digonol sy'n ystyried rhywedd i ddarparu argymhelliad addas i'r llys. Fodd bynnag, nid oedd staff llys bob amser yn ymwybodol o'r ystod ddiweddaraf o ymyriadau a gwasanaethau a oedd ar gael i fenywod, ac mewn rhai achosion roedd hyn yn arwain at golli cyfleoedd i fynd i'r afael ag anghenion perthnasol.

Yn y rhan fwyaf o'r rhanbarthau, ar ôl dedfrydu, mae menywod yn cael eu dyrannu i ymarferwyr benywaidd yn awtomatig, er nad oes rhywun yn gofyn iddynt bob amser ai dyma eu dymuniad. Yn rhy aml o'r hanner, nid oedd menywod yn cael cynnig cyfle i gyfrannu at eu hasesiad nac i fod yn rhan o'r broses o greu cynlluniau dedfryd. Roedd llawer o'r menywod yn ein sampl wedi profi digwyddiadau bywyd trawmatig, arwyddocaol. Roedd y rhain fel arfer yn cael eu cofnodi mewn asesiadau ond yn aml heb y dadansoddiad angenrheidiol i ddeall yr effaith ar y fenyw neu ar ei throsedd.

Mewn llawer gormod o achosion yn ein sampl nid oedd ystyriaeth ddigonol i ddiogelwch a lles menywod. Nid oedd sylw'n cael ei roi bob amser i risgiau hysbys y mae menywod yn eu hwynebu yn eu bywydau, er enghraifft cam-drin domestig. Yn yr achosion gwaethaf, nid oedd ymchwiliad digonol pan oedd menywod agored i niwed yn rhoi'r gorau i gysylltu â phrawf.

Roedd ansawdd gwaith llys ac asesiadau yn amlwg yn waelach i fenywod o gefndiroedd Du ac ethnig lleiafrifol,<sup>11</sup> ac er bod cyflawni dedfrydau yn aml yn dangos gwell dealltwriaeth o risgiau ac anghenion y menywod, nid oedd ymarferwyr bob amser yn ymwybodol o'r gwasanaethau cymorth arbenigol sydd ar gael i grwpiau lleiafrifol.

Drwy ymyriadau yn cael eu darparu gan brawf neu wasanaethau adsefydlu wedi'u comisiynu, mae ffyrdd amrywiol o ddarparu cymorth i fenywod neu fynd i'r afael ag anghenion sy'n gysylltiedig â throsedd; fodd bynnag, nid oes digon o ddefnydd yn cael ei wneud o'r opsiynau hyn. Yn y rhan fwyaf o achosion ni welsom lawer o gynnydd ag anghenion blaenoriaethol menywod.

---

<sup>11</sup> Nid oedd menywod Asiaidd yn ein sampl.

## Argymhellion

---

### **Ar gyfer carchardai a phrawf, dylai Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi:**

1. sicrhau bod yr holl staff sy'n ymwneud ag ailsefydlu a chyflawni dedfrydau menywod yn cael mynediad at yr holl systemau rheoli ac asesu achosion perthnasol, gan gynnwys nDelius, NOMIS ac OASys
2. sicrhau bod pob ymarferydd mewn carchardai ac yn y gymuned yn deall yn iawn sut y gall digwyddiadau trawmatig effeithio ar ymddygiad menywod a'u bod yn hyderus eu bod yn gwybod beth yw'r ffordd orau o ymateb i risgiau ac anghenion menywod
3. gwerthuso pob ymyriad sy'n cael ei ddefnyddio â menywod er mwyn deall eu heffaith yn iawn
4. cynnwys cam-drin domestig a gwaith rhyw yn y llwybrau sydd ar gael yn narpariaeth gwasanaethau adsefydlu wedi'u comisiynu (CRS) menywod.

### **Ar gyfer carchardai, dylai Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi:**

5. symleiddio'r ddarpariaeth CRS mewn carchardai er mwyn sicrhau bod yr holl staff a'r uwch arweinwyr yn glir ynglŷn â'u rolau a'u cyfrifoldebau, gan alluogi pob menyw sydd yn y carchar (gan gynnwys menywod sy'n cael eu galw'n ôl i'r carchar a'r rhai sy'n cael eu rhyddhau ar ddiwedd eu dedfryd) i gael mynediad at y cymorth wyneb yn wyneb o ansawdd da y mae arnynt ei angen ar gyfer ailsefydlu llwyddiannus
6. darparu data i arweinwyr carchardai ynglŷn â'r canlyniadau sy'n cael eu sicrhau gan ddarparwyr CRS. Dylai arweinwyr carchardai ymwneud yn weithredol â'r broses o alw darparwyr CRS i gyfrif pan nad ydynt yn cyflawni ymrwymadau eu contract
7. rhoi mynediad i fenywod mewn carchardai at waith allweddol rheolaidd o ansawdd da sy'n cefnogi ailsefydlu
8. sicrhau bod data ar gael i dracio statws llety pob menyw sy'n cael ei rhyddhau o garchar penodol 12 wythnos ar ôl ei rhyddhau, fel bod modd monitro canlyniadau ar gyfer pob sefydliad a gwneud gwelliannau lle bo angen
9. sicrhau, ar y diwrnod rhyddhau o'r carchar, bod nifer yr apwyntiadau y disgwylir i fenywod fynd iddynt yn realistig a bod ganddynt fynediad at gymorth ymarferol digonol, gan gynnwys:
  - ffôn symudol syml os nad oes ganddynt un
  - ar gyfer menywod sy'n annhebygol o ymdopi ar y diwrnod rhyddhau, rhywun i'w casglu wrth y gât a'u helpu i fynd i apwyntiadau
  - man diogel, cefnogol ar safle'r carchar, yn cael ei redeg gan staff ymroddedig, lle gall menywod sydd wedi cael eu rhyddhau gael cymorth, ffonio tacsis, trefnu i gael eu casglu gan aelodau o'r teulu neu wirio amseroedd trenau.
10. sicrhau bod anghenion ailsefydlu menywod mewn carchardai yn cael eu hasesu'n briodol yn fuan, a bod unrhyw rwystrau, er enghraifft cael cyfrifon banc neu rifau yswiriant gwladol, wedi'u goresgyn cyn iddynt gael eu rhyddhau.

### **Ar gyfer prawf, dylai Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi:**

11. sicrhau bod cyfarwyddwyr prawf rhanbarthol yn darparu gwasanaethau i fenywod yn unol â phob agwedd ar y Fframwaith Polisi Menywod, gan gynnwys:

- sicrhau bod lleoliadau gwaith di-dâl priodol ar gael i fenywod ym mhob uned cyflawni prawf
  - rhoi cyfle i bob menyw adrodd i leoliadau priodol lle mae'n teimlo'n ddiogel, ar gyfer pob agwedd ar gyflawni dedfrydau
12. sicrhau bod asesiadau'n nodi ymyriadau priodol ar gyfer menywod yn gywir, a bod y gwaith o gyflawni'r holl ymyriadau'n cael ei fonitro a'i ddadansoddi'n ddigonol, gan gynnwys cyfraddau gadael cyn gorffen a diffygion yn erbyn angen a nodwyd
  13. adolygu'r model llywodraethu a darparu adnoddau ar gyfer adeiladau cymeradwy menywod er mwyn sicrhau bod cymhlethdod gweithio gyda menywod a'u gwahanol lefelau angen yn cael ei gydnabod yn llawn
  14. sicrhau bod awduron adroddiadau llys prawf yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf ac yn ymwybodol o'r holl wasanaethau a'r ymyriadau ar gyfer menywod, ac o ganlyniad wedi'u paratoi i ddarparu argymhellion dedfrydu cynhwysfawr sy'n ystyried rhywedd.

# 1. Cyflwyniad

## 1.1. Pam yr arolygiad thematig hwn?

Mae troseddwr benywaidd yn lleiafrif yn y system cyfiawnder troseddol, ac yn cynrychioli pedwar y cant o'r rhai sy'n cael eu cadw yn y ddalfa a 12.1 y cant o'r rhai sy'n cael eu goruchwyllo yn y gymuned (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2023b). Fodd bynnag, fel y nodir yn rhagair y gweinidog yng Nghynllun Cyflawni Strategaeth Troseddwr Benywaidd:

*'Pan fydd menywod sydd wedi profi trais, problemau iechyd meddwl a chaethiwed i sylweddau yn cael eu gadael heb help, cymdeithas sy'n talu'r pris. Gall teuluoedd gael eu chwalu. Gall cymunedau wynebu mwy o droseddu. A threthdalwyr fydd yn gorfod talu cost y gwasanaethau a ddefnyddir ganddynt – gan gynnwys yr heddlu, y llysoedd ac yn y diwedd, carchardai a phrawf. Pan ddigwydd yr holl bethau hyn, bydd y cylch niweidiol o droseddu benywaidd yn parhau.'*

Mae nifer o adroddiadau (Y Swyddfa Gartref, 2007; Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, 2016) wedi tynnu sylw at yr angen am dulliau gweithredu cyffwrdd, sy'n canolbwyntio ar fenywod, a chefnogwyd hyn gan gyhoeddiad arall gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn 2018 (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2018b), sy'n darparu crynodeb o'r dystiolaeth ddiweddaraf sy'n cefnogi'r egwyddor mai 'dull system gyfan' yw'r ffordd fwyaf effeithiol o fynd i'r afael â throseddau menywod. Mae dulliau o'r fath yn caniatáu i asiantaethau statudol a mudiadau'r trydydd sector ddod at ei gilydd ac ymateb i anghenion cymhleth a chydgyssylltiedig menywod.

Cyhoeddwyd yr arolygiad prawf diwethaf a oedd yn canolbwyntio ar fenywod, *Arolygiad thematig o ddarpariaeth ac ansawdd gwasanaethau yn y gymuned ar gyfer menywod sy'n troseddu*, yn 2016 (Arolygiaeth Prawf EM, 2016), yn fuan ar ôl i strategaeth *Gweddnewid Adsefydlu* wahanu gwasanaethau prawf i ffurfio'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Chwmnïau Adsefydlu Cymunedol. Ers hynny, mae'r gwasanaethau wedi'u hailuno, gan newid y dull o ddarparu gwasanaethau i fenywod eto. Yn ogystal, yn 2018, cyhoeddodd y llywodraeth y Strategaeth Troseddwr Benywaidd, a gafodd ei dilyn yn 2023 gan Gynllun Cyflawni Strategaeth Troseddwr Benywaidd.

Ein nodau yn yr arolygiad hwn oedd ystyried cynnydd ers ein harolygiad diwethaf ac effaith y Strategaeth Troseddwr Benywaidd gyffredinol ar brofiadau menywod sy'n cael eu goruchwyllo gan y gwasanaeth prawf ac sy'n gadael carchar. Gan fod yr arolygiad yn cael ei wneud ar y cyd roedd cyfle i ni graffu ar gynnydd carchardai a phrawf a'r strategaeth gyffredinol ar gyfer gwasanaethau i fenywod. Roeddem yn gallu ystyried profiadau menywod, o'u cyfnod yn y ddalfa nes eu bod yn ailsefydlu yn y gymuned.

## 1.2. Cefndir

Roedd cyhoeddi Adroddiad Corston yn 2007 (Y Swyddfa Gartref, 2007) yn hybu pwyslais newydd ar fenywod sy'n dod i'r system cyfiawnder troseddol. Roedd yr adroddiad, a ysgogwyd ar ôl i chwe menyw ddiweddu eu hunain yng Ngharchar Styal, yn cefnogi agwedd fwy cynhwysfawr a chydgyssylltiedig tuag at fenywod yn y system cyfiawnder troseddol a'r rhai sydd mewn perygl o ddod i'r system. Roedd yr argymhellion yn cynnwys sefydlu datrysiadau cymunedol fel y norm, datblygu rhwydwaith mwy cynhwysfawr o ddarpariaethau cymunedol 'siop un stop' ar gyfer menywod, a gwella llywodraethu lefel uchel a gwaith traws-adrannol ar gyfer menywod sy'n troseddu. Yn 2011, cwblhaodd Arolygiaeth Prawf EM, ynghyd ag Arolygiaeth Gwasanaeth Erllyn y Goron EM ac Arolygiaeth Carchardai EM, arolygiad thematig ar y cyd, *Equal but different? An inspection of the use of alternatives to custody for women offenders*. Roedd yr arolygiad hwn yn mesur y cynnydd a wnaethpwyd gan ymddiriedolaethau prawf wrth weithredu argymhellion Corston. Yn ôl yr arolygiad:

*'...er bod llawer wedi'i gyflawni, roedd y ddarpariaeth ar gyfer menywod yn amrywio'n fawr ac roedd yn anghyson'. [Cyfieithiad o'r testun Saesneg, nid dyfyniad swyddogol]*



Yn yr arolygiad hwnnw, rydym yn dadlau o blaid dull gweithredu amlasiantaethol, yn cael ei gydgyssylltu'n lleol, er mwyn cefnogi anghenion menywod yn y ffordd orau. Roedd argymhellion yr adroddiad yn cynnwys canolbwyntio ar fenywod drwy ddatblygu mesurau canlyniadau effeithiol, yn cael eu cefnogi gan fonitro a gwerthuso. Yn 2013, sefydlwyd y Bwrdd Cynghori ar gyfer Troseddwy'r Benywaidd (Grŵp Arbenigol Menywod yn y System Cyfiawnder Troseddol erbyn hyn) er mwyn dod â rhanddeiliaid allweddol at ei gilydd i roi cyngor arbenigol ar ddatblygu a gweithredu polisi a gwasanaethau i fenywod sy'n troseddu.

Canfu ein harolygiad nesaf o wasanaethau ar gyfer menywod (Arolygiaeth Prawf EM, 2016) ddiffyg pwyslais strategol ar anghenion menywod a darpariaeth anghyson o wasanaethau, ynghyd â diffyg pwyslais ar ddeall canlyniadau. Roedd yr adroddiad hefyd yn codi pryder ynglŷn â chynaliadwyedd cyllid ar gyfer canolfannau menywod, a oedd yn darparu cefnogaeth yr oedd ei hangen yn fawr. Roedd trosolwg o ganolfannau menywod a gyhoeddwyd yn 2019 gan Sefydliad Tavistock (Tavistock Institute, 2019) yn darparu pecyn o dystiolaeth a oedd yn dangos pwysigrwydd canolfannau menywod a'r effaith gadarnhaol y gallant ei chael ar fywydau menywod.

### 1.3. Nodau ac amcanion

Yn ogystal ag edrych ar y cynnydd a wnaethpwyd ag argymhellion o arolygiadau blaenorol, a Chynllun Cyflawni Strategaeth Troseddwy'r Benywaidd, roedd yr arolygiad hwn yn ceisio ateb y cwestiynau a ganlyn:

- A yw'r weledigaeth a'r strategaeth yn helpu i ddarparu gwasanaeth ymatebol, o safon uchel, wedi'i bersonoli i fenywod?
- A yw staff yn cael eu grymuso i ddarparu gwasanaeth ymatebol, o safon uchel, wedi'i bersonoli i fenywod?
- A oes ystod gynhwysfawr o wasanaethau ac ymyriadau ar gael i fenywod?
- Pa mor dda mae ymarferwyr yn cefnogi ymatal?
- Pa mor dda mae ymarferwyr yn rheoli risg o niwed?
- Pa mor dda mae ymarferwyr yn cefnogi diogelwch a lles menywod?
- A yw trefniadau â phartneriaid statudol, darparwyr ac asiantaethau eraill wedi cael eu sefydlu, yn cael eu cynnal ac yn cael eu defnyddio'n effeithiol i ddarparu gwasanaethau ymatebol, o safon uchel, wedi'u personoli?

Ar gyfer rhan garchardai yr arolygiad hwn, penderfynasom ganolbwyntio ar ansawdd y cymorth ailsefydlu sydd ar gael i fenywod, yn enwedig menywod ar remand, y rhai sy'n treulio dedfrydau byr, a'r rhai sydd ar fin cael eu rhyddhau, gan fod y rhain i gyd yn elfennau allweddol o'r Strategaeth Troseddwy'r Benywaidd.

### 1.4. Amlinelliad o'r adroddiad

Pennod	Cynnwys
2. Polisi, strategaeth, ac arweinyddiaeth	Mae'r bennod hon yn ystyried y trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu cenedlaethol sy'n goruchwyllo gwasanaethau i fenywod. Rydym yn adrodd am yr ymyriadau a'r gwasanaethau sydd ar gael a sut y mae staff yn cael eu paratoi i weithio gyda menywod.
3. Y ddalfa	Mae'r bennod hon yn cynnwys manylion am ganfyddiadau ein gwaith maes mewn carchardai. Roedd rhan garchardai yr arolygiad thematig ar y cyd hwn yn ystyried pa mor dda yr oedd anghenion ailsefydlu menywod yn cael eu nodi a'u diwallu cyn iddynt gael eu rhyddhau, yn enwedig ar gyfer menywod sy'n treulio dedfrydau byr.

<p>4. Adeiladau cymeradwy</p>	<p>Yn y bennod hon, rydym yn adrodd am ein canfyddiadau ynglŷn â phrofiadau menywod o adeiladau cymeradwy, gan gynnwys arweinyddiaeth, rheoli a darparu adnoddau. Rydym yn disgrifio sut mae'r profiad o fyw mewn adeilad cymeradwy yn effeithio arnynt, ac yn trafod heriau symud ymlaen yn llwyddiannus.</p>
<p>5. Rheoli dedfrydau cymunedol</p>	<p>Yn olaf, rydym yn rhannu canfyddiadau ein harolygiad o achosion ynglŷn ag elfen brawf yr arolygiad. Rydym yn ystyried pa mor effeithiol y cyflawnir dedfrydau i fenywod ar brawf, gan gynnwys ansawdd gwaith llys, asesu, cynllunio, a chyflawni dedfrydau. Yn olaf, rydym yn archwilio'r gwasanaethau a ddefnyddir gan y gwasanaeth prawf i gefnogi menywod a mynd i'r afael â'u hanghenion.</p>

## 2. Polisi, strategaeth, ac arweinyddiaeth

Yn y bennod hon, rydym yn adolygu'r trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu cenedlaethol sy'n goruchwyllo gwaith gyda menywod, gan gynnwys yr ymyriadau a'r gwasanaethau sydd ar gael, a sut y mae staff yn cael eu paratoi a'u galluogi i weithio gyda menywod.

### 2.1. Polisi a strategaeth

Yn 2016, y tro diwethaf i ni arolygu gwasanaethau ar gyfer menywod (Arolygiaeth Prawf EM, 2016), nodwyd:

*'Daeth ein harolygiad i'r casgliad, yn absenoldeb unrhyw ymagwedd genedlaethol benodol, bod arweiniad strategol ar reoli menywod yn y gymuned yn amrywio'n fawr.'*

Ers hynny, bu pwyslais strategol sylweddol ar fenywod ar lefel genedlaethol. Cyhoeddwyd y Strategaeth Troseddwy'r Benywaidd yn 2018 (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2018a). Ategwyd hyn yn ddiweddarach gan Gynllun Cyflawni Strategaeth Troseddwy'r Benywaidd (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2023a), a oedd yn nodi dull o reoli menywod yn y system cyfiawnder troseddol ar gyfer y llywodraeth gyfan a fframwaith ar gyfer gweithredu'r dull hwnnw. Roedd y strategaeth yn cydnabod effaith negyddol troseddoli pobl sy'n agored i niwed. Roedd yn ceisio lleihau nifer y menywod a oedd yn dod i'r system cyfiawnder troseddol, cyflawni dedfrydau cymunedol effeithiol, a gwella dedfrydau o garchar i'r rhai hynny sy'n cael eu carcharu er mwyn gwella adsefydlu ac ailsefydlu. Darparodd cyhoeddiadau eraill dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o werth dulliau gweithredu system gyfan o fynd i'r afael â throseddau menywod (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2018b), a sut y byddai asiantaethau'r llywodraeth yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn mynd i'r afael ag anghenion menywod (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2020), ynghyd â metrigau y byddid yn eu defnyddio i fesur cynnydd y strategaeth gyffredinol.

Cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder Fframwaith Polisi Menywod yn 2018 a chafodd ei ddiweddarau yn 2021 (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2021) i adlewyrchu'r newidiadau yn sgil creu gwasanaeth prawf unedig. Mae'r fframwaith yn nodi'r disgwyliadau penodol ar gyfer darparu gwasanaethau i fenywod yn y ddalfa ac yn y gymuned. Mae'n seiliedig ar dystiolaeth o strategaeth gyffredinol y llywodraeth a'r ddogfen *Better Outcomes for Women Offenders* (Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy'r, 2015). Mae'r fframwaith polisi yn glir ynghyd â disgwyliadau ar gyfer gweithio gyda menywod, ac yn nodi:

*'Rhaid i'r Gwasanaeth Prawf fodloni tri gofyniad penodol yn ymwneud â rheoli unigolion benywaidd sydd dan oruchwyliaeth. Dylai unigolion benywaidd sydd dan oruchwyliaeth gael cynnig yr opsiwn o Swyddog Cyfrifol/Rheolwr Troseddwy'r benywaidd; wrth fynd i gyfarfodydd gyda'u Swyddog Cyfrifol/Rheolwr Troseddwy'r dylent gael cynnig yr opsiwn o gael cyfweiliad mewn amgylchedd ar gyfer menywod yn unig; a dylent gael cynnig yr opsiwn o beidio â chael eu lleoli mewn amgylchedd gwaith dynion yn unig fel rhan o ofyniad Gwaith Di-dâl neu Ganolfan Ymbresenoli.'* [Cyfieithiad o'r testun Saesneg, nid dyfyniad swyddogol]

Amlinellwyd y model ar gyfer y gwasanaeth prawf wedi'i ailuno yn y Model Gweithredu Targed (HMPPS, 2021). Mae'n rhagweld y bydd staff sy'n gweithio gyda menywod yn cael hyfforddiant priodol ac y bydd menywod yn cael yr opsiwn o gael ymarferydd prawf benywaidd. Mae'r model yn caniatáu i ranbarthau ddewis a ydynt am ddefnyddio rhai ymarferwyr fel cymhellwyr menywod lled-arbenigol neu unigolion sy'n canolbwyntio ar reoli menywod. Disgwylir i ymarferwyr ddefnyddio ymarfer sy'n ymateb i drawma ynghyd â setiau sgiliau eraill wrth weithio gyda menywod. Mae rhai o'r disgwyliadau clir a nodir yn y fframwaith polisi yn cael eu glastwreiddio i raddau gan y TOM; er enghraifft, mae'n dweud ei fod yn 'gobeithio' gweld menywod yn cael cynnig cyfle i adrodd naill ai i leoliad menywod yn unig neu ar adeg pan fydd menywod yn unig yn bresennol. Gwelsom nad yw

llawer o ranbarthau prawf yn gweithredu'n gwbl unol â'r disgwyliadau hyn, ac mae'r gwasanaethau a ddarperir i fenywod yn amrywio o hyd yng Nghymru a Lloegr.

Bu Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a phlismaona yng Nghymru yn gweithio gyda phartneriaid cyfiawnder er mwyn mynd i'r afael â throseddwyr benywaidd, ac yn 2019 cyhoeddasant y Glasbrint ar gyfer Troseddwyr Benywaidd yng Nghymru. Mae'r glasbrint yn amlinellu'r angen am ddull gweithredu cydgysylltiedig sy'n cydnabod anghenion rhywedd-benodol menywod, yn hybu eu llesiant ac yn cefnogi canlyniadau hirdymor llwyddiannus er mwyn lleihau aildroseddu. Ei nod yw lleihau nifer y menywod yn y system cyfiawnder troseddol a datblygu dull gweithredu system gyfan lle mae gwasanaethau integredig yn cynnig cymorth wedi'i dargedu i fenywod.

Ar gyfer yr ystad carchardai, mae'r Fframwaith Polisi Menywod yn nodi y disgwylir y bydd menywod yn cael eu cadw mewn amodau diogel a phriodol sy'n eu cynorthwyo i gadw cysylltiadau teuluol. Mae hefyd yn disgwyl y bydd menywod yn cael eu helpu i ddod o hyd i lety diogel ac addas pan fyddant yn cael eu rhyddhau, ac y byddant yn cael cyfle i gael mynediad at ddarpariaeth briodol ar gyfer addysg, dysgu a datblygu sgiliau i'w helpu i ailsefydlu.

## 2.2. Arweinyddiaeth genedlaethol

Mae Grŵp Menywod (Cyfarwyddiaeth Menywod gynt) Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi yn darparu cyfeiriad strategol cyffredinol a chanllawiau polisi ar gyfer rheoli menywod yn y ddalfa ac yn y gymuned. Mae ganddo gyfrifoldeb uniongyrchol am reoli carchardai menywod y sector cyhoeddus a darparu cymorth i garchardai menywod preifat. Mae'r model hwn yn darparu arweinyddiaeth i'r sefydliadau hyn sy'n gydnaws â phroffil ac anghenion penodol menywod yn hytrach na dynion. Arweiniodd ein canfyddiadau yn yr arolygiad hwn ni i gwestiynu pam nad yw adeiladau cymeradwy ar gyfer menywod yn dod dan y strwythur hwn, fel bod yr un lefel o sylw a dealltwriaeth yn bodoli yn eu trefniadau llywodraethu ac arweinyddiaeth.

Er bod y Grŵp Menywod yn gyfrifol am bennu a goruchwylio'r strategaeth ar gyfer rheoli menywod ac am gyflawni yn erbyn y Strategaeth Troseddwyr Benywaidd, mae cyfarwyddwyr prawf rhanbarthol yn dal yn atebol am gyflawniad gweithredol gwasanaethau. O ganlyniad, rôl y Grŵp Menywod yw rhoi cyngor ar bolisi, a hybu a dylanwadu ar gynnydd cadarnhaol lle bo modd, ond mae llwyddiant yn dibynnu ar y proffil a roddir i fenywod gan gyfarwyddwyr prawf rhanbarthol, ac mae hynny'n parhau'n amrywiol. Yn dilyn cymeradwyaeth gan y Prif Swyddog Prawf ar y pryd, penododd pob rhanbarth prawf arweinydd menywod ar radd uwch swyddog prawf (SPO) i helpu i weithredu'r Strategaeth Troseddwyr Benywaidd a hyrwyddo anghenion menywod. Mae'r arweinwyr menywod ar radd SPO yn adrodd i arweinydd menywod rhanbarthol. Mae'r person hwn fel arfer yn bennaeth Uned Cyflawni Prawf neu'n uwch arweinydd arall sydd â chyfrifoldeb am fenywod yn ychwanegol at ei rôl greiddiol. Yn ogystal, mae gan un cyfarwyddwr prawf rhanbarthol arweinydd cenedlaethol ar gyfer menywod yn y gymuned fel rhan o'i bortffolio ehangach.

Mae'r Grŵp Menywod yn darparu cyfleoedd i arweinwyr menywod ar radd SPO ddod at ei gilydd bob pythefnos i rannu'r arferion gorau a meddwl sut i gyflawni blaenoriaethau strategol. Mae arweinwyr menywod ar radd SPO hefyd yn dod at ei gilydd bob chwarter i drafod a dysgu am ddatblygiadau strategol a pholisi. Mae'r Grŵp Menywod wedi gwneud cynnydd da wrth adeiladu proffil yr agenda menywod a datblygu dulliau o olrhain cynnydd yn erbyn y Strategaeth Troseddwyr Benywaidd. Er enghraifft, mae wedi datblygu deunyddiau i ranbarthau eu defnyddio gyda'r farnwriaeth er mwyn tynnu sylw at effaith dedfrydau byr ar fenywod a'u gwneud yn ymwybodol o opsiynau amgen. Hyd yn hyn, nid yw'r grŵp wedi gallu manteisio ar wasanaethau dadansoddydd i'w helpu i werthuso effaith ei waith yn effeithiol. Mae'r grŵp wedi comisiynu dangosfwrdd y gellir ei ddefnyddio er mwyn monitro mesuryddion perfformiad sy'n effeithio ar fenywod yn rheolaidd a chymharu perfformiad mewn gwahanol ranbarthau. Bydd mynediad rhwydd at y data hyn yn helpu i greu darlun o dueddiadau ac yn darparu tystiolaeth er mwyn galw rhanbarthau i gyfrif a hybu gwelliant.

Mae'r Grŵp Menywod hefyd yn goruchwylio Fframwaith Polisi Panel Cyngor a Chymorth ag Achosion yr Ystad Menywod (WECASP). Mae'r broses hon yn darparu goruchwyliaeth i garfan fach o fenywod yn y ddalfa sydd wedi'u hasesu fel rhai ag anghenion arbennig o gymhleth. Mae'r panel hefyd yn

goruchwylio pob oedolyn ifanc sy'n trosglwyddo o'r ystad ieuencid i'r ystad oedolion benywaidd. Mae WECAASP yn darparu cymorth a chynghor aml-ddisgyblaethol ag achosion i gydweithwyr sy'n rheoli'r unigolion hyn. Yn ychwanegol at hyn, mae'r Grŵp Menywod hefyd yn gweithio gyda'r ystad adeiladau cymeradwy ar gyfer menywod er mwyn datblygu Panel Adeiladau Cymeradwy Achosion Cymhleth Menywod. Mae hyn yn ystyried achosion cymhleth yn y pwynt cyfeirio.

Ar gyfer yr ystad carchardai, mae'r Grŵp Menywod yn cadeirio Gweithgor Gweithredol Ailsefydlu Menywod er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn gyson ac yn gydnaws â'r Strategaeth Troseddwy Benywaidd. Yn ogystal, mae'r Fforwm Ailsefydlu Menywod yn dod ag uwch arweinwyr at ei gilydd i gytuno a sefydlu'r sefyllfa strategol gyffredinol ac egwyddorion gweithgaredd cyn rhyddhau. Mae hyn yn cynnwys Rheoli Troseddwy yn y Ddalfa, timau cyn rhyddhau, swyddogaeth dedfrydau byr, y ddarpariaeth gwasanaethau adsefydlu wedi'u comisiynu (CRS) a gwasanaethau llety yn y gymuned.

Mae'r Grŵp Menywod yn darparu cymorth ac arweiniad clir i'r rhai sy'n darparu gwasanaethau i fenywod. Mae wedi defnyddio ymchwil a thystiolaeth i ddatblygu polisiau a chanllawiau sy'n cefnogi pennaf les menywod. Mae'r Grŵp Menywod yn llywodraethu'n uniongyrchol dros garchardai menywod sy'n eiddo cyhoeddus, gan ddarparu rhywfaint o gysondeb. Yr anhawster â phrawf, fodd bynnag, yw bod y grŵp yn gallu hybu'r arferion gorau wrth weithio gyda menywod, a chynnig cymorth ac arweiniad arbenigol, ond bod atebolrwydd am gyflawni y tu hwnt i'w ddylanwad ac mae'n dibynnu ar y craffu a'r proffil y mae cyfarwyddwyr prawf rhanbarthol yn ei roi i wasanaethau menywod.

### **2.3. Staffio a hyfforddiant**

#### **Staffio prawf**

Mae prinder staff mewn rhai rhanbarthau prawf wedi arwain at addasiadau parhaus i drefniadau rheoli dedfrydau arferol o dan y fframwaith blaenoriaethu coch-oren-gwyrdd. Mae'r dull gweithredu hwn yn addasu disgwyliadau ymarfer er mwyn rheoli'r galw. Mae'n cynnwys lleihau lefelau cyswllt ac apwyntiadau wyneb yn wyneb a lleihau ymyriadau pan nad oes digon o staff i'w darparu yn unol â'r canllawiau arferol. Roedd dwy o'r chwe Uned Cyflawni Prawf yr ymwelwyd â hwy yn dal i weithredu dan drefniadau oren oherwydd prinder staff. Er bod mwy o staff wedi cael eu recriwtio, mae llawer o swyddi swyddogion prawf a swyddogion gwasanaethau prawf heb eu llenwi o hyd mewn rhai rhanbarthau, yn enwedig Llundain a De-ddwyrain Lloegr. Yn yr Unedau Cyflawni Prawf a oedd â'r lefelau staffio mwyaf heriol, roedd yr arweinwyr yn dweud na allent ffurfio timau menywod arbenigol, gan nad oedd ganddynt ddigon o adnoddau i'w neilltuo iddynt. Yn yr Unedau Cyflawni Prawf lle'r oedd lefelau staffio'n uwch, dim ond yn ddiweddar yr oedd hyn wedi gwella; felly, roedd cynlluniau ar gyfer trefniadau penodol i fenywod yn eu dyddiau cynnar. Er bod ymgyrchoedd recriwtio wedi bod yn llwyddiannus a bod niferoedd y staff prawf yn cynyddu, roedd llawer o'r staff yn gymharol newydd a heb gael y wybodaeth a'r profiad angenrheidiol eto i'w paratoi'n llawn ar gyfer eu rôl.

O'r 45 o ymarferwyr prawf a gyfwelwyd gennym, dywedodd 25 wrthym fod eu llwyth gwaith yn 'weddol hawdd' i'w drin neu'n 'hawdd iawn' i'w drin. Nid oedd asesiadau ymarferwyr o'u llwyth gwaith bob amser yn gydnaws â niferoedd y llwythi achosion, neu â'r offeryn rheoli llwyth gwaith. Er enghraifft, mewn un Uned Cyflawni Prawf roedd gan bron bob aelod o'r staff lwyth achosion a oedd yn unol â disgwyliadau'r gwasanaeth prawf, ond roedd y staff yn mynegi'r lefelau uchaf o anfonlonrwydd â'u llwyth achosion. Mewn Unedau Cyflawni Prawf lle'r oedd gan ymarferwyr a oedd yn rheoli menywod y perthnasoedd gwaith cryfaf â phartneriaid a gwasanaethau eraill, roedd y staff yn tueddu i deimlo bod eu llwythi gwaith yn haws i'w trin.

Yn y chwe Uned Cyflawni Prawf yr ymwelwyd â hwy, gwelsom drefniadau amrywiol ar gyfer dyrannu achosion menywod. Roedd gan bedair o'r chwe Uned Cyflawni Prawf dimau menywod. Roedd gan y ddwy arall unigolion a oedd yn canolbwyntio ar reoli menywod. Roeddent yn rhoi arweiniad ynglŷn â rheoli menywod, ond nid oeddent yn gyfrifol am bob achos menywod, ac roedd rhai hefyd yn rheoli dynion. Nid oedd yr unigolion a oedd yn canolbwyntio ar reoli menywod yn glir bob amser ynglŷn â'r hyn a ddisgwylid ganddynt; er hyn, roedd gan rai lawer o wybodaeth a phrofiad o weithio gyda menywod, ac roeddent yn darparu cymorth ac arweiniad rhagorol i'w

cydweithwyr. Teimlai rhai ymarferwyr fod llwyth achosion a oedd yn cynnwys menywod yn unig yn ormod o draul ar eu hemosiynau, a bod yn well ganddynt gael llwyth achosion cymysg; teimlai eraill fod timau dynodedig yn darparu gwybodaeth a chymorth arbenigol yn y tîm.

## Hyfforddiant

Roedd barn yr ymarferwyr prawf am hyfforddiant yn gymysg. Teimlai tua hanner yr ymarferwyr eu bod wedi cael digon o hyfforddiant i weithio'n effeithiol gyda menywod. Roedd y farn hon ychydig yn fwy cyffredin ymhlith ymarferwyr a oedd yn ystyried eu hunain yn arbenigwyr mewn gweithio gyda menywod o'i gymharu â'r rhai nad oeddent. Mae hyfforddiant gorfodol HMPPS yn cynnwys cwrs eDdysgu 'Grymuso Newid: Gweithio'n Dda gyda Menywod', sy'n ofynnol ar gyfer pob ymarferydd sy'n gweithio gyda menywod. Mae'r hyfforddiant hwn wedi cymryd lle hyfforddiant ystafell ddosbarth dau ddiwrnod 'POWER: Canlyniadau Cadarnhaol i Fenywod: Grymuso ac Adsefydlu'. Lansiwyd Grymuso Newid ym mis Rhagfyr 2022, ac erbyn mis Gorffennaf 2023, roedd 384 o bobl wedi ei gwblhau, er bod niferoedd llawer uwch wedi gweld rhannau o'r hyfforddiant. Roedd y cyfraddau cwblhau yn amrywio o'r naill ranbarth i'r llall: yr uchaf oedd 78 a'r isaf oedd 11. Dywedodd llawer o staff prawf wrthym nad oedd eDdysgu yn gweddu i'w harddull dysgu a'u bod yn cael anhawster i ddefnyddio'r deunyddiau yn y ffordd yr oeddent yn cael eu cyflwyno. Fe wnaeth un ymarferydd grynhoi'r farn a glywsom gan lawer drwy ddweud:

*“Mae lle i ddysgu ar-lein ond nid dyma'r ateb i bopeth – rydym wedi mynd yn rhy bell ar hyd y ffordd honno. Rwy'n dysgu cymaint gan gydweithwyr ar hyfforddiant wyneb-yn-wyneb ag yr ydw i'n ei ddysgu o'r cynnwys.”*

Roedd y rhan fwyaf o'r ymarferwyr wedi derbyn rhywfaint o fewnbwn am ymarfer ystyriol o drawma, fel arfer drwy sesiwn briffio. Fodd bynnag, dangosodd ein gwaith arolygu achosion nad oedd hyn bob amser wedi rhoi dealltwriaeth ddigon dwfn iddynt o sut i weithio gyda phobl sydd wedi profi trawma. Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r ymarferwyr wedi cymryd bod ymarfer ystyriol o drawma yn golygu hyblygrwydd, ond nad oeddent yn ddigon cyfarwydd â'r prif egwyddorion, yn enwedig o ran datblygu ymddiriedaeth ac ymdeimlad o ddiogelwch seicolegol drwy osod ffiniau priodol. Yn Uned Cyflawni Prawf Caerdydd a'r Fro, dywedodd staff wrthym eu bod wedi mynychu hyfforddiant rhywedd ac ystyriol o drawma y Glasbrint Cyfiawnder Menywod a ddarparwyd gan Gymorth i Fenywod a'u bod yn teimlo ei fod yn ddefnyddiol. Mae'r hyfforddiant hwn wedi cael ei werthuso a'i achredu'n annibynnol i ddangos datblygiad proffesiynol parhaus. Mewn ardaloedd eraill, roedd rhai aelodau o'r staff wedi mynychu hyfforddiant Fframwaith Gwybodaeth a Dealltwriaeth (KUF) ar weithio gyda phobl ag anghenion emosiynol cymhleth yn gysylltiedig â diagnosis o anhwylder personoliaeth. Mae'r hyfforddiant hwn yn cael ei gydhwyluso gan hyfforddwyr â phrofiad personol a'r rhai sydd ag arbenigedd clinigol neu fel ymarferwyr. Mae hyfforddiant KUF yn defnyddio dull amlasiantaethol, ystyriol o drawma, wedi'i gydgynhyrchu o weithio gyda'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â'r anawsterau hyn. Roedd y rhai a oedd wedi dilyn yr hyfforddiant yn teimlo ei fod yn ddefnyddiol iawn ar gyfer gweithio gyda menywod. Ym Manceinion Fwyaf, roedd yr ymarferwyr yn canmol yr hyfforddiant a gomisiynwyd gan y rhanbarth i fynd i'r afael â bwch a nodwyd mewn gwybodaeth am weithio gyda menywod sy'n cyflawni troseddau treisgar.

Soniodd llawer o ymarferwyr wrthym am straen emosiynol gweithio gyda nifer fawr o fenywod. Dywedodd un ei bod:

*“Ddwywaith mor anodd i reoli menywod gan eich bod yn delio gyda dioddefwr yn ogystal â throeddwr.”*

Dywedodd ymarferwyr wrthym eu bod yn cael cefnogaeth yn bennaf gan eu tîm a'u rheolwr llinell, er eu bod yn gwybod am gefnogaeth allanol a oedd ar gael pe bai arnynt ei angen. Mewn rhai rhanbarthau, roedd mynediad at oruchwyliaeth glinigol ychwanegol, a oedd yn cael ei annog, ond nad oedd yn orfodol.

## Staffio a hyfforddiant carchardai

Mae lefelau staffio mewn rhai carchardai wedi bod yn isel yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r prinder swyddogion carchar wedi lleihau mynediad rhai menywod at batrymau rheolaidd strwythuredig, cymorth o ddydd i ddydd, cyngor, a gwaith allweddol. Fodd bynnag, prinder staff prawf mewn sawl rhan o'r wlad sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar fynediad at gymorth ailsefydlu da mewn carchardai. Mae Unedau Cyflawni Prawf yn uniongyrchol gyfrifol am staffio'r timau cyn rhyddhau sy'n nodi angen yn y ddalfa; roedd pob un o'r timau cyn rhyddhau yr ymwelwyd â hwy yn brin o staff o hyd. Yn ychwanegol at hyn, mae mynediad cyflym at gymorth ailsefydlu i fenywod yn dibynnu ar gamau gweithredu a gymerir gan ymarferwyr prawf yn y gymuned, a oedd yn aml yn cael eu dyrannu yn rhy agos at y dyddiad rhyddhau oherwydd y pwysau sy'n effeithio ar Unedau Cyflawni Prawf, fel yr amlinellwyd uchod.

Mae'r rhan fwyaf o'r darparwyr CRS sydd â contract i ddarparu cymorth ailsefydlu yn y ddalfa wedi cael anhawster i recriwtio digon o staff; roedd gweithwyr achos ar gyflog isel yn aml yn symud ymlaen yn fuan, gan arwain at fylchau hir mewn cymorth tra oedd yr unigolyn nesaf i'w recriwtio yn mynd drwy drefniadau fetio hir. Mae staff CRS yn gyfrifol am ddarparu cymorth â thai, ond nid ydynt yn arbenigwyr llety ac nid oeddent wedi cael digon o hyfforddiant i ddod i ddeall darpariaeth gymhleth iawn.

## 2.4. Ymyriadau

Ar ôl uno'r gwasanaethau prawf, ad-drefnwyd yr ystod o ymyriadau a oedd yn cael eu darparu er mwyn creu darpariaeth fwy cyson yng Nghymru a Lloegr. Yn ôl dadansoddiad a gwblhawyd yn ddiweddar o ddata arolygiad (Arolygiaeth Brawf EM, 2023b), pan fydd gweithwyr proffesiynol prawf yn gwneud atgyfeiriadau priodol a buan at ymyriadau a gwasanaethau wedi'u cynllunio, a phan gânt eu darparu'n dda, mae pobl sydd ar brawf yn fwy tebygol o gwblhau eu cyfnod ar brawf,<sup>12</sup> yn dangos mwy o gynnydd mewn cysylltiad ag anghenion sy'n gysylltiedig â throesdu, ac yn llai tebygol o aildroseddu. Mae'r Gwasanaeth Prawf yn darparu tri math o ymyriad: rhaglenni achrededig, ymyriadau strwythuredig, a pheynnau cymorth i ymarferwyr. Mae rhaglenni achrededig wedi cael eu hadolygu gan y Panel Cyngori ac Achredu Gwasanaethau Cywirol. Maent yn rhaglenni gwaith grŵp â dwysedd uwch. Mae ymyriadau strwythuredig yn fyrrach na rhaglenni achrededig ac maent wedi eu hanelu at y rhai sydd â dosbarthiad risg is; maent hefyd yn cael eu darparu fel arfer gan sesiynau gwaith grŵp. Yn olaf, mae peynnau cymorth ymarferwyr wedi'u cynllunio i gael eu defnyddio gan ymarferwyr prawf ar sail un-i-un. Maent felly yn fwy hyblyg, a gellir eu haddasu i weddu i anghenion unigol yr unigolyn ar brawf.

### Rhaglenni achrededig

Yr unig raglen achrededig sydd ar gael i fenywod yn y gymuned yw'r Rhaglen Sgiliau Meddwl (TSP). Dangosodd ymchwil a gwblhawyd yn ddiweddar (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2023c) ar ddarparu TSP mewn carchardai fod y rhaglen yn cael rhywfaint o effaith gadarnhaol ar gyfraddau aildroseddu ar gyfer menywod a oedd wedi ei chwblhau. Mewn carchardai, roedd llai na 100 o fenywod wedi cwblhau TSP yn y chwe mis hyd at fis Mawrth 2023. Yn y gymuned, gwelsom yn ystod y 12 mis rhwng Mehefin 2022 a Gorffennaf 2023, fod 166 wedi gorfod cwblhau TSP; erbyn mis Medi 2023, dim ond dwy fenyw oedd wedi cwblhau'r rhaglen, ac roedd 42 wedi'u cofnodi fel rhai wedi dechrau. Roedd menywod yn aros am gyfnodau hir cyn gallu dechrau'r rhaglen. Fel y gwelsom yn ystod ein gwaith maes, roedd nifer y menywod a oedd yn aros am TSP mewn Unedau Cyflawni Prawf unigol mor fach fel bod rhedeg grwpiau menywod yn unig byth bron yn ddichonadwy. O ganlyniad, os nad oedd menywod yn ymuno â grwpiau cymysg, nid oeddent yn debygol o allu cael mynediad at y rhaglen o gwbl. Roedd hyn yn gwneud i ni amau a ddylid dal i'w chynnig fel gofyniad fel rhan o opsiwn dedfrydu, ynteu a ellid defnyddio ymyriadau eraill yr oedd yn haws cael gafael arnynt yn ei lle. Roedd rhai rhanbarthau yn rhedeg grwpiau TSP menywod yn unig, fel arfer dan fformat cyflawni

---

<sup>12</sup> 'Terfynu cadarnhaol' yw pan fo'r gorchymyn neu'r drwydded yn rhedeg ei chwrs llawn neu pan fydd yn cael ei therfynu'n gynnar gan weithiwr proffesiynol prawf i gydabod cynnydd da.

amgen cytunedig a oedd yn golygu y gallent gynnig sesiynau i niferoedd llai o fenywod nag a fyddai'n cael ei ystyried yn angenrheidiol fel arfer ar gyfer grŵp, neu eu bod yn darparu sesiynau un-i-un. Er bod hyn yn cynyddu nifer y menywod a all gwblhau'r rhaglen, nid yw effaith ei darparu fel hyn wedi cael ei werthuso er mwyn deall y goblygiadau. Collir y gwerth y mae gwaith grŵp yn ei gynnig drwy wrando ar brofiadau pobl eraill a heriau gan gymheiriaid pan gaiff y rhaglen ei darparu fel hyn.

Yn genedlaethol, nid oes dealltwriaeth ddigonol ymhlith y rhai sy'n gyfrifol am bolisiau ymyrryd ynglŷn â pham nad yw atgyfeiriadau ar gyfer TSP yn cael eu gwneud. Dywedodd y rhai sy'n gyfrifol am TSP wrthym eu bod wedi ceisio mynd i'r afael â mythau yn ymwneud â meini prawf cymhwysedd gyda thimau llysoedd, ond nid yw hyn wedi arwain at gynnydd mewn niferoedd. Mae cynlluniau ar y gweill i wneud newidiadau sylweddol i'r ystod o raglenni achrededig. Dywedwyd wrthym y bydd hyn yn defnyddio'r dystiolaeth ddiweddaraf ar gyfer gwaith ymarferol gyda menywod ac yn gwerthuso effaith pob rhaglen o'r adeg y dechreuir ei darparu.

### **Ymyriadau strwythuredig**

Rhwng Mehefin 2022 a Gorffennaf 2023, cyfeiriwyd 1,041 o fenywod at ymyriadau strwythuredig; o'r rhain, roedd 155 wedi eu cwblhau erbyn mis Medi 2023. Mae HMPPS wedi cymeradwyo ystod o ymyriadau strwythuredig, gan gynnwys Datblygu Pendantsrwydd i Fenywod mewn Perthynas (DAWN) a Meithrin Hunaniaeth, Gwytnwch a Chryfderau i Fenywod (FIRS4W), sydd wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer menywod. Mae rhanbarthau prawf yn dewis pa ymyriadau strwythuredig maent yn eu cynnig o'r rhestr a gymeradwywyd; nid yw pob un yn cynnig DAWN neu FIRS4W, ond caiff menywod gynnig yr ymyriadau eraill sydd ar gael, mewn rhai achosion mewn grwpiau menywod yn unig. Fel yn achos rhaglenni achrededig, mae nifer y menywod sy'n cael mynediad at ymyriadau strwythuredig ac yn eu cwblhau yn isel. Nid oedd y rhai sy'n gyfrifol am ymyriadau strwythuredig yn genedlaethol yn synnu bod niferoedd yr atgyfeiriadau a'r achosion o gwblhau ymyriadau a ganfuwyd gennym yn isel. Mae rhai rhanbarthau prawf wedi bod yn araf yn dechrau darparu ymyriadau oherwydd niferoedd isel o staff mewn timau ymyriadau. Fel arfer mae atgyfeiriadau at ymyriadau strwythuredig yn gofyn am sgôr dros 25 ar y Raddfa Ail-euogfarnu Grwpiau Troseddwyd (OGRS), sy'n rhagfynegi aildroseddu ar sail risgiau sefydlog: oedran, rhywedd a hanes troseddol. Gallai llawer o fenywod arddangos yr anghenion y mae'r ymyriadau'n ceisio mynd i'r afael â hwy, ond ni fydd pob un yn bodloni meini prawf yr OGRS.

### **Pecynnau cymorth**

Y prif becyn cymorth sydd wedi'i anelu at fenywod yw'r pecyn cymorth Camau Cyntaf at Newid. Gellir defnyddio'r pecyn hwn gyda menywod o unrhyw ddsbarthiad risg neu gategori trosedd, ar wahân i fenywod sydd wedi'u dyfarnu'n euog o droseddau â chymhelliant rhywiol, y mae pecyn cymorth arall, Llwybrau at Newid, wedi'i anelu ar eu cyfer. Argymhellir bod ymarferwyr yn cwblhau modiwlau sylfaen o'r pecyn cymorth Camau Cyntaf at Newid ond yna'n dewis pa un sydd fwyaf cymwys i'r fenyw y maen nhw'n gweithio gyda hi. Gwyddom o arolygiadau blaenorol fod arferion cofnodi ar gyfer pecynnau cymorth yn anghyson ac nad ydynt o bosibl yn adlewyrchiad cywir o'r defnydd. Rhwng Mehefin 2022 a Gorffennaf 2023, cyfeiriwyd 2,227 o fenywod at Camau Cyntaf at Newid; o'r rhain, marciwyd 511 fel rhai sydd wedi ei gwblhau, er bod llawer heb sesiynau wedi'u cofnodi yn eu cofnodion. Fel yn achos yr ymyriadau eraill, yn genedlaethol nid oes dealltwriaeth ddigonol a yw'r defnydd yn diwallu anghenion a nodwyd ar gyfer menywod.

## **2.5. Gwasanaethau**

### **Gwasanaethau adsefydlu wedi'u comisiynu**

Mae canllawiau<sup>13</sup> HMPPS yn nodi y dylid defnyddio gwasanaethau adsefydlu wedi'u comisiynu yn yr achosion a ganlyn:

---

<sup>13</sup> Canllawiau yn dwyn y teitl When should I refer to external specialists? Guidance for referring to commissioned rehabilitative services (CRS), wedi'u cyrchu drwy Equip.



- pan na ellir mynd i'r afael ag anghenion yr unigolyn ag ymyriad arall a nodwyd (rhaglenni achrededig, ymyriadau strwythuredig neu ofynion triniaeth dedfryd gymunedol)
- pan fydd mynd i'r afael ag anghenion yr unigolyn yn gallu cefnogi ei lwybr oddi wrth droseddu
- pan fydd ymyriadau CRS yn arwain at y canlyniadau y dymunir eu gweld.

Ar gyfer menywod, mae CRS wedi'i gynllunio i ddarparu un gwasanaeth cyfannol, sy'n golygu y gellir gwneud atgyfeiriad i fynd i'r afael ag anghenion amrywiol, ond darperir yr holl wasanaethau gan un darparwr sy'n dal y contract yn yr ardal leol. Mae canllawiau penodol yn ymwneud â menywod a defnyddio CRS<sup>14</sup> yn amlinellu'r 'llwybrau' neu'r anghenion y gellir eu dewis. Mae'r rhain i'w gweld isod, a nodir pa rai sydd ar gael yn y gymuned neu cyn rhyddhau:

- llety (yn y gymuned a chyn rhyddhau)
- addysg, hyfforddiant, a chyflogaeth
- lles personol
- ffordd o fyw a chydabod
- teulu ac unigolion arwyddocaol eraill
- lles emosiynol
- cyllid, budd-daliadau, a dyledion
- dibyniaeth ac adferiad
- cynhwysiant cymdeithasol (dim ond ar gael cyn ac ar ôl rhyddhau o garchar).

Ar gyfer pob llwybr, disgwylir i ymarferwyr ddewis o restr o ganlyniadau y mae arnynt eisiau eu cyflawni drwy'r atgyfeiriad. Bydd y darparwr CRS yn defnyddio'r wybodaeth hon i greu cynllun gweithredu, sy'n cael ei ddychwelyd i'r ymarferydd i gael ei gymeradwyo drwy'r platfform digidol *Refer and Monitor*. Mae'n ofynnol i ymarferwyr hefyd bennu lefel cymhlethdod ar gyfer pob llwybr. Nid yw darparwyr CRS yn cael mynediad at systemau rheoli achosion carchardai a phrawf, ac mae hyn yn amharu ar eu gallu i wirio'r wybodaeth a roddir iddynt. Yn ogystal, nid oes gan ymarferwyr lawer o ddealltwriaeth o lefelau cymhlethdod, a all arwain at bennu lefelau amhriodol. Byddai dull asesu mwy cydweithredol rhwng ymarferwyr prawf a'r darparwyr CRS yn atal anfon atgyfeiriadau a chynlluniau gweithredu yn ôl ac ymlaen ac yn atal oedi cyn i'r menywod allu cael mynediad at y cymorth y mae arnynt ei angen.

Yn rhyfedd iawn, nid yw'r llwybrau'n cyfeirio'n benodol at gam-drin domestig a gwaith rhyw. Mae'r rhain yn feysydd angen arwyddocaol, y derbynnir yn gyffredinol eu bod yn cysylltu â throseddau menywod, ac maent yn cael eu cynnwys yn nisgwyliadau'r Fframwaith Polisi Menywod fel a ganlyn:

*'Mae menywod sy'n wynebu risg, neu sy'n ddiodefwr, cam-drin domestig, cam-drin rhywiol, camfanteisio'n rhywiol, gwaith rhyw, masnachu mewn pobl a mathau eraill o gam-drin sy'n seiliedig ar rywedd, yn cael eu nodi ac yna'u cefnogi yn unol â'u hanghenion.'* [Cyfieithiad o'r testun Saesneg, nid dyfyniad swyddogol]

Gan nad yw cam-drin domestig a gwaith rhyw yn llwybrau penodol, mae'n anodd asesu gwir lefel yr angen. Mae meini prawf cyfyngedig y gwasanaeth cyn rhyddhau yn golygu nad yw llawer o fenywod yn gymwys i gael mynediad cynnar at gymorth ar gyfer problemau y byddant yn sicr o'u hwynebu pan fyddant yn cael eu rhyddhau. Mae'n anodd iawn monitro canlyniadau oherwydd y broses atgyfeirio gymhleth. Ar ôl i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2023) graffu ar wasanaethau adsefydlu wedi'u comisiynu mynegwyd pryder ynglŷn ag effeithiolrwydd contractau CRS yn gyffredinol (nid y rhai sy'n ymwneud yn benodol â menywod). Yn ein hadroddiad dilynol yn 2023 ar

<sup>14</sup> Canllawiau gan HMPPS yn dwyn y teitl Working with women and commissioned rehabilitative services, wedi'u cyrchu drwy Equip.

gydraddoldeb hiliol (Arolygiaeth Prawf EM, 2023a) cyfeiriasom at nifer isel y sefydliadau cymunedau ethnig leiafrifol lleol a oedd yn darparu gwasanaethau i bobl ar brawf dan y trefniadau CRS. Yn yr un modd, yn yr arolygiad hwn roeddem yn bryderus o weld mai ychydig o ddarparwyr oedd â threfniadau gyda darparwyr arbenigol i gefnogi menywod o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol. Un eithriad amlwg i hyn oedd Advance, sy'n dal y contract CRS ar gyfer rhannau o ranbarth Llundain. Roedd gan Advance gysylltiadau da â sefydliadau eraill ac roedd yn gallu cyfeirio menywod at ddarpariaeth fwy arbenigol, megis Hibiscus, lle'r oedd angen.

## **2.6. Casgliadau a goblygiadau**

Mae disgwyliadau ynglŷn â sut y dylai gwasanaethau ar gyfer menywod gael eu darparu wedi'u cofnodi mewn polisi a strategaeth erbyn hyn. Fodd bynnag, mae angen cryfhau sawl agwedd ar y ddarpariaeth er mwyn sicrhau eu bod yn unol â'r disgwyliadau hyn. Er enghraifft, ni ddylai darparu mannau diogel i fenywod fynd i adrodd gael ei ystyried yn ddewisol. Mae nifer o wahanol ymyriadau ar gael ar gyfer menywod i gynnig dull strwythuredig o fynd i'r afael â'u hanghenion. Mae'r rhain yn seiliedig ar y dystiolaeth o'r hyn y gwyddom ei fod yn cynnig y siawns orau o gael effaith gadarnhaol. Fodd bynnag, ychydig o fenywod sy'n cael cyfle i elwa o'r ymyriadau hyn, ac nid oes digon o ddealltwriaeth yn genedlaethol a yw'r ymyriadau yn diwallu eu hanghenion. Mae CRS yn cynnig cyfle i fenywod gael eu cefnogi gan sefydliadau sy'n cael eu cydnabod fel rhai sy'n arbenigo mewn gweithio gyda menywod; fodd bynnag, mae'r broses hon yn cael ei rhwystro gan broses atgyfeirio gymhleth sy'n methu ag annog cydweithredu ystyrion er mwyn diwallu anghenion menywod yn y ffordd orau. Mae HMPPS wedi cydnabod effaith y cymhlethdod hwn ac mae'n ailddylunio contractau i symleiddio trefniadau. Mae angen pwyslais cryfach ar fesur canlyniadau; nid yw hyn wedi cael ei wneud yn effeithiol hyd yn hyn. Yn ogystal, er bod contractau'n cynnwys disgwyliadau ar lefel gwasanaeth, dim ond rhai sy'n cynnwys mesurau ansawdd. Er bod darparwyr yn darparu gwybodaeth mewn ffyrdd amrywiol drwy gyfarfodydd adolygu rheoli contractau, mae angen i hyn fod yn fwy cyson.

## 3. Y ddalfa

---

Yn y bennod hon rydym yn archwilio ein canfyddiadau o waith maes mewn carchardai. Roedd rhan garchardai yr arolygiad thematig ar y cyd hwn yn ystyried pa mor dda yr oedd anghenion ailsefydlu menywod yn cael eu nodi a'u diwallu cyn iddynt gael eu rhyddhau, yn enwedig ar gyfer menywod sy'n treulio dedfrydau byr.

### 3.1. Arweinyddiaeth

Mae cymorth ailsefydlu mewn carchardai menywod wedi'i addasu o fodel y dynion, sydd wedi profi'n broblemus. Mae menywod yn ffurfio llai na phedwar y cant o boblogaeth carchardai, felly mae llawer llai o garchardai ar eu cyfer, a dim un yng Nghymru. O ganlyniad, mae'r boblogaeth mewn unrhyw garchar i fenywod yn dod o nifer o wahanol ardaloedd daearyddol. O dan y model presennol, mae menywod yn cael cymorth ailsefydlu gan y darparwr gwasanaethau adsefydlu wedi'u comisiynu (CRS) yn yr ardal lle maent yn cael eu rhyddhau. Mae hyn yn golygu bod y boblogaeth mewn carchar fel Drake Hall, yn Swydd Stafford, yn dibynnu ar gynifer â 15 o wahanol ddarparwyr CRS, y rhan fwyaf ohonynt yn bell i ffwrdd a heb fod yn debygol o ddod ar y safle i gyfarfod y carcharorion wyneb yn wyneb.

Gwelsom fod pwysau yn gysylltiedig â'r boblogaeth wedi cyfyngu ar allu menywod i gael cymorth ailsefydlu. Roedd hyn oherwydd bod menywod a oedd yn treulio dedfrydau byr yn cael eu symud i Downview neu Drake Hall er mwyn gwneud lle yn Styal a Bronzefield ar gyfer unigolion newydd yn cyrraedd o'r llys. Ar gyfer menywod a oedd yn trosglwyddo o Styal, roedd hyn yn golygu colli mynediad wyneb yn wyneb at y prif ddarparwyr CRS. Weithiau roedd menywod yn cyrraedd y carchardai hyfforddi hyn â dim ond ychydig wythnosau i'w treulio, a oedd hefyd yn amharu ar y gwaith o gynllunio ar gyfer rhyddhau.

Mae'r model ar gyfer cael cymorth gan ddarparwr CRS yn rhy gymhleth, yn ddryslyd ac yn brin o staff. Mae'r angen am weithiwr tîm cyn rhyddhau, rheolwr troseddwyd yn y gymuned a gweithiwr achos CRS i chwarae rhan a rhoi cyfres o gamau ar waith ar wahân yn achosi oedi. Mae'r oedi hwn yn effeithio'n fwyaf arbennig ar fenywod sy'n treulio dedfrydau byr a menywod sydd wedi cael eu galw'n ôl i'r carchar. Gwelsom rai tasgau'n cael eu dyblygu, yn rhannol oherwydd bod staff wedi cymryd camau difyfyd dros gyfnodau hir i geisio goresgyn bylchau parhaus yn y model, ac roedd gwahanol brosesau bob yn dipyn wedi cael eu gosod yn haenau y naill ar ben y llall. Roedd rhai rolau heb gael eu diffinio'n dda, ac yn gyffredinol, roedd gormod o wahanol brosesau i'w dilyn cyn y gallai menyw gael y cymorth yr oedd arni ei angen.

Roedd y menywod a gyfwelwyd gennym yn aml yn ddryslyd ac nid oeddent yn deall yn iawn pwy allai eu helpu. Roedd diffyg wyneb cyfarwydd y gallent ddatblygu ymddiriedaeth ag ef yn amlwg. Weithiau roedd gallu cyfyngedig darparwyr CRS oddi ar y safle i ddarparu diweddariadau neu gynnis sicrwydd yn gwneud y sefyllfa'n waeth.

Roedd y cyfrifoldeb am ddarparu cymorth yn cael ei rannu rhwng llawer o dimau, ac oherwydd hynny roedd hi'n anodd dal neb yn atebol am y canlyniad. Yn gyffredinol, gwelsom ddiffyg cydweithio, ynghyd â thueddiad i un tîm feio'r llall am ganlyniadau gwael neu ddiffyg mewnbnw. Nid oedd cyfarfodydd strategol yn cael eu cynnal yn ddigon rheolaidd i allu galw'r gwahanol dimau ac asiantaethau i gyfrif. Roedd cyfarfodydd amlddisgyblaethol rheolaidd wedi cael eu cyflwyno mewn carchardai er mwyn gwirio am fylchau wrth gynllunio ar gyfer rhyddhau menywod unigol. Roedd hyn yn fesur synhwyrol, ond nid oedd yn mynd i'r afael â'r diffygion strategol mwy.

Roedd perthnasoedd rhwng arweinwyr carchardai a darparwyr CRS yn bell ar adegau a dan straen weithiau. Roedd arweinwyr carchardai yn gorfod dibynnu ar y gwasanaeth prawf i gyflenwi staff ar gyfer y tîm cyn rhyddhau yn y carchar (a oedd yn asesu anghenion menywod) ac i reoli'r gwaith o gyflawni contractau CRS. Roedd llywodraethwyr a chyfarwyddwyr weithiau'n aneglur ynglŷn â lefel ac ansawdd y gwasanaeth y gallent ei ddisgwyl gan ddarparwyr CRS ac nid oeddent yn gallu cymryd camau uniongyrchol i wella canlyniadau.

Roedd yn llawer rhy anodd i arweinwyr carchar ddeall a oedd y gwaith ailsefydlu a oedd yn cael ei wneud gan y darparwyr CRS yn arwain at ganlyniadau da. Dim ond model Manceinion Fwyaf oedd yn mynnu bod darparwyr yn sicrhau canlyniad gweladwy, er enghraifft dod o hyd i lety ar gyfer menywod ar noson eu rhyddhau. Roedd contractau eraill yn mesur prosesau yn unig, er enghraifft asesu'r fenyw a llunio cynllun gweithredu. Fel arfer mesurid canlyniadau pan fyddai cymorth yn dod i ben yn y gymuned, felly roedd gwahanu ansawdd y cymorth a roddid mewn carchardai yn dasg anodd iawn. Roedd diffyg llwybrau atgyfeirio yn y carchar ar gyfer materion fel cam-drin domestig a gwaith rhyw yn golygu ei bod yn anodd iawn penderfynu a oedd y cymorth penodol hwn wedi ei ddarparu.

Roedd cyflwyno arbenigwyr tai strategol ac arweinwyr cyflogaeth yn y carchar yn gadarnhaol iawn. Roedd rhai o'r staff hyn yn benderfynol iawn ac ymhlith y staff mwyaf trawiadol y gwnaethom eu cyfarfod, ond yn rhy aml o'r hanner roeddent yn gorfod gwneud iawn am ddiffygion yn y model ailsefydlu. Er enghraifft, roeddent yn treulio amser yn diweddarau sgiliau gweithwyr CRS er mwyn deall cymhlethdod y ddarpariaeth dai, yn hytrach na gallu mabwysiadu dull strategol yn unig o wella canlyniadau. Roedd rhai o'r staff hyn wedi cyflwyno ffeiriau ailsefydlu defnyddiol iawn yn y neuadd ymweliadau, a oedd yn rhoi cyfle i fenywod a oedd yn agos at eu dyddiad rhyddhau gyfarfod gwahanol asiantaethau.

### 3.2. Effaith dedfrydau byr

Un o brif nodau'r Strategaeth Troseddwyr Benywaidd yw lleihau nifer y menywod sy'n cael eu hanfon i'r carchar, ac yn fwyaf arbennig, lleihau dedfrydau byr iawn, sy'n achosi difrod mawr ac yn amharu ar sawl agwedd ar fywydau menywod, gan gynnwys cartref, cyflogaeth a gofal plant. Aethom ati'n fwriadol i ddewis mwyafrif o fenywod â dedfrydau byr neu fenywod wedi cael eu galw'n ôl i'r carchar ar gyfer ein sampl o achosion, ac roedd yn amlwg faint o gymorth a mewnbwn roeddent wedi ei golli. Er enghraifft, yn aml iawn nid oeddent yn gymwys i agor cyfrif banc; nid oedd ganddynt ddigon o amser yn aml i gael cymhwyster neu hyd yn oed i wella eu sgiliau darllen ac ysgrifennu; yn aml iawn nid oedd amser i drafod eu risg i'r cyhoedd; ac fel arfer ni allent fynd i'r afael â'r hyn a oedd wrth wraidd eu troseddu neu gael mynediad at gymorth therapiwtig.

Mae dadansoddiad o'r holl ymatebion i arolygon carcharorion a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Carchardai EF yn y naw sefydliad menywod caeedig rydym wedi eu harolygu er mis Mai 2021 i'w weld [ar ein gwefan](#). Ar ôl edrych ar ymatebion gan fenywod yn treulio dedfrydau byr o lai na 12 mis gwelsom ganlyniadau llawer gwaelach ar eu cyfer mewn rhai meysydd allweddol. Roedd y menywod hyn yn fwy tebygol o fod â chyfrifoldebau gofalu am blant dan 18 oed, ac roeddent yn fwy tebygol o fod â phroblemau â thai, arian a chyffuriau ac alcohol. Tra oeddent yn y ddalfa, roeddent yn llai tebygol o fod wedi dod i gysylltiad â ffrindiau cymorth defnyddiol fel gweithwyr allweddol, ac roedd eu cysylltiad â ffrindiau a theuluoedd yn fwy cyfyngedig. Roeddent yn llai tebygol o fynd i lyfrgell, campfa, capel neu goleg, ac roeddent yn treulio mwy o amser yn eu celloedd. Roedd y rhai a oedd â phroblem iechyd meddwl neu anabledd yn llai abl i gael mynediad at gymorth.

### 3.3. Asesu a chynllunio

Gwelsom lefelau uchel iawn o angen ymhlith yr achosion a arolygwyd gennym. Yr angen ailsefydlu mwyaf cyffredin oedd yr angen am lety, yn cael ei ddilyn gan gymorth â chyllid, budd-daliadau a dyledion. Y prif feysydd angen eraill oedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, ailadeiladu perthnasoedd â phlant a theuluoedd, mynd i'r afael â chamddefnyddio cyffuriau, problemau iechyd corfforol, problemau iechyd meddwl ac effaith profiadau o drawma a cham-drin.

Roedd y tîm cyn rhyddhau yn y carchar yn gyfrifol am nodi anghenion ailsefydlu menywod. Mewn tua thri chwarter yr achosion, roeddent wedi datblygu cynllun ailsefydlu, ac roedd y rhan fwyaf o'r cynlluniau o ansawdd gweddol dda, ac yn nodi camau gweithredu a oedd yn targedu anghenion y fenyw. Fodd bynnag, roedd rhai asesiadau i ddarparu gwybodaeth ar gyfer y cynllun yn arwynebol ac roedd llawer gormod ohonynt wedi'u cwblhau dros y ffôn yn hytrach na wyneb yn wyneb. Roedd

hyn yn amhriodol, oherwydd gofynnid i fenywod ddatgelu gwybodaeth sensitif a phersonol megis profiadau o gam-drin domestig a hunan-niweidio.

Roedd pob un o'r timau cyn rhyddhau yr ymwelwyd â hwy yn brin o staff, felly roeddent yn cael anhawster i gwblhau'r nifer uchel iawn weithiau o asesiadau yn ddibynadwy ac yn fuan. Roedd hyn yn achosi oedi cyn i rai menywod gael cymorth. Roedd gwaith y timau hyn yn cael ei gyfyngu gan eu bod yn gorfod canolbwyntio ar wneud asesiadau a chynlluniau yn hytrach na darparu unrhyw gymorth i'r menywod. Weithiau roedd staff ailsefydlu eraill a rheolwyr o adrannau eraill wedi datblygu ffyrdd o weithio o gwmpas anallu'r tîm cyn rhyddhau i gyflawni gwaith yn ddibynadwy; dro arall, oherwydd bod staff yn y tîm cyn rhyddhau yn dod dan strwythur rheoli ar wahân i reolwyr troseddwr mewn carchardai, a diangen, nid oedd rheolwyr troseddwr mewn carchardai yn helpu gydag asesiadau hyd yn oed pan fyddent o bosibl wedi gallu gwneud.

Gwelsom fod rhai rheolwyr wedi defnyddio dulliau synhwyrol o wella'r cymorth y gallai'r tîm cyn rhyddhau ei gynnig i fenywod. Er enghraifft, yn Styal, lle'r oedd y trefniadau staffio'n caniatáu, roedd aelodau o'r tîm yn gweithio gyda menywod o ranbarth arbennig, ac roedd hynny'n eu galluogi i ddatblygu arbenigedd ac adeiladu gwell perthnasoedd gwaith â'r darparwr CRS o'r ardal honno. Roedd cydleo'i'r tîm cyn rhyddhau a'r prif ddarparwyr CRS yn y carchar yn cefnogi gweithio ar y cyd, cyfathrebu da ac ymateb buan pan oedd cynlluniau rhyddhau yn ansicr.

Ar ôl nodi anghenion menyw, roedd cymorth yn dod gan nifer o wahanol staff. Yn fwyaf arbennig, roedd cymorth â materion tai yn dod gan y darparwr CRS a oedd wedi'i leoli yn ardal gartref y fenyw. Nid oedd darparwyr CRS yn ymgysylltu â charcharorion nes eu bod wedi derbyn atgyfeiriad yn uniongyrchol gan reolwr troseddwr yn y gymuned. Roedd y gofyniad hwn yn effeithio ar ganlyniadau ailsetlo ar gyfer menywod o ardaloedd fel Llundain sydd â niferoedd uchel o swyddi gwag yn y gymuned. Mewn dim ond hanner yr achosion gwiriwyd a oedd y rheolwr troseddwr yn y gymuned wedi atgyfeirio'n fuan at y darparwr CRS ar ôl cael ei hysbysu ynglŷn ag angen y fenyw. Gallai rhai timau cyn rhyddhau wneud eu hatgyfeiriadau eu hunain at ddarparwyr CRS er mwyn cyflymu cymorth, ond nid oedd pob un yn cael gwneud hyn, ac nid oedd hynny o unrhyw fudd. Er bod pob un o'n hachosion wedi cael ei ddyrannu i reolwr troseddwr yn y gymuned a bod bron pob un wedi siarad â hwy, fel arfer drwy alwad fideo, roedd gan y staff hyn fel arfer lwyth achosion mawr ac yn aml iawn roeddent yn cael eu dyrannu i weithio gyda menywod yn rhy agos at ddyddiad rhyddhau'r fenyw i allu cyfrannu'n llawn at gam cyn rhyddhau y ddedfryd.

Nid oedd y darparwyr CRS y buom ni'n siarad â hwy yn ymwybodol bob amser o wir lefel y galw am eu gwasanaethau yn y carchardai pan nad oeddent ar y safle; roedd problemau eraill, megis prinder staff mewn timau cyn rhyddhau, yn golygu nad oedd pob menyw a oedd angen eu cymorth yn cael ei nodi'n ddibynadwy a'i chyfeirio atynt. O ganlyniad, roedd nifer y menywod a oedd yn cael eu cyfeirio at ddarparwyr CRS weithiau'n isel iawn o'i gymharu â nifer uchel y menywod a oedd yn cael eu rhyddhau, yn enwedig yn Bronzefield. Mae hyn yn awgrymu nad yw anghenion llawer o fenywod yn cael eu diwallu.

Roedd gan bob un o'r menywod yn ein sampl reolwr troseddwr yn y carchar a oedd wedi ei ddyrannu i'w hachos mewn rôl i gefnogi'r rheolwr cyfatebol yn y gymuned. Yn aml iawn, gwelsom fod cynnwys rheolwr troseddwr yn y carchar mewn ffordd ragweithiol yn helpu i ennyn diddordeb unigolion eraill a oedd yn gyfrifol am helpu'r fenyw. Roedd hyn yn gwneud iawn i ryw raddau am y diffygion yn y model ailsefydlu a ddisgrifiwyd yn gynharach.

Roedd ansawdd y gwaith diogelu'r cyhoedd yn yr achosion a adolygwyd gennym yn gymysg. Roedd rhwystrau a oedd yn atal cynllunio ar gyfer rheoli risg cwbl effeithiol yn y rhan fwyaf o'r achosion perthnasol; er enghraifft, nid oedd asesiadau risg OASys y menywod yn gyfredol. Gwelsom ambell enghraifft o arferion da iawn, ac roeddem yn falch o weld cyfathrebu da rhwng y rheolwyr troseddwr yn y carchar ac yn y gymuned yn y rhan fwyaf o'r achosion. Fod bynnag, dim ond dau o bob tri chynllun rhyddhau a arolygwyd gennym oedd yn rhoi ystyriaeth iawn i'r risg y byddai'r fenyw yn achosi niwed, boed iddi hi ei hun neu i'r cyhoedd. Roedd gan rai o'r cyfeiriadau rhyddhau a oedd wedi eu cymeradwyo oblygiadau clir o ran diogelu'r cyhoedd. Er enghraifft, mewn un achos caniatawyd i fenyw ddychwelyd i fyw yn agos iawn at y dioddefwr yr oedd wedi aflonyddu arno o'r blaen heb roi mesurau diogelu ar waith.

### 3.4. Ymyriadau a chymorth

Nid oedd menywod ar remand yn Styal a Bronzefield yn cael digon o gymorth i fynd i'r afael â'u hanghenion ailsefydlu uniongyrchol, naill ai oherwydd eu bod wedi'u cau allan o'r contract CRS, neu oherwydd nad oedd gan y darparwr CRS a'r timau cyn rhyddhau ddigon o staff i'w helpu. Nid oedd y boblogaeth ar remand a heb ei dedfrydu (yn ddyinion ac yn fenywod) wedi'u cynnwys mewn darpariaeth CRS mewn carchardai yn wreiddiol. Roedd peidio â chynnwys y boblogaeth hon yn fater arwyddocaol, a thynnwyd sylw ato mewn nifer o arolygiadau gan Arolygiaeth Prawf EF ers hynny. Mae contractau yn y broses o gael eu newid er mwyn estyn cymorth i'r grŵp hwn.

Roedd y diffyg cymorth i gadw tenantiaeth, hysbysu cyflogwyr a rheoli dyledion tra ar remand yn cael effaith ganlyniadol pan oedd y menywod hyn yn cael eu dedfrydu, gan fod nifer ohonynt heb lawer o amser ar ôl i'w dreulio ac roedd eu problemau yn anorfod wedi gwaethygu. Er mis Rhagfyr 2022, mae HMPPS wedi darparu contract CRS yn Bronzefield i gefnogi menywod ar remand, ond nid oedd y darparwr CRS y dyfarnwyd y contract iddo wedi gallu darparu digon o staff, felly roedd yn anodd gweld yr effaith.

Weithiau roedd darparwyr CRS yn gwrthod atgyfeiriadau ar gyfer menywod a oedd yn gadael y carchar ar y dyddiad yr oedd eu dedfryd yn dod i ben, gan na fyddent dan oruchwyliaeth ar ôl cael eu rhyddhau. Roedd hyn yn achosi bwlch yn y cymorth. Nid yw cymorth CRS ar gael i bobl sy'n cael eu goruchwyllo dan drefniadau goruchwyllo ar ôl dedfryd. Roedd hyn yn golygu bod rhai menywod a oedd yn gadael y carchar heb ofyniad am oruchwyliaeth yn y gymuned yn mynd â'u problemau gyda hwy.

Roedd rhai menywod a oedd wedi cael eu dedfrydu yn cael cymorth ystyrlon o safon uchel iawn gan eu gweithiwr achos CRS; fodd bynnag, yn gyffredinol, roedd cymorth yn llawer rhy anghyson ac roedd yn dibynnu ar ardal ryddhau y fenyw. Roedd hyn yn golygu y gallai carcharorion a oedd yn byw ar yr un adain, ac a oedd yn cael eu rhyddhau yn yr un wythnos, ond i wahanol ardaloedd rhyddhau, gael lefelau gwahanol iawn o gymorth, nad oedd yn deg nac yn dderbyniol. Roedd y darparwyr CRS gorau yn mynd ati'n rhagweithiol i nodi menywod a oedd yn agosáu at eu dyddiad rhyddhau, ac yn mynd ar ôl yr atgyfeiriadau angenrheidiol gan reolwyr troseddwyd yn y gymuned fel eu bod yn gallu dechrau gweithio gyda hwy heb yr oedi yr oedd eraill yn ei brofi. Nid oedd rheolwyr troseddwyd yn y carchar ac yn y gymuned bob amser yn cael eu briffio'n dda ynglŷn â beth y gallai'r darparwyr CRS ei gynnig i'r menywod yr oeddent yn eu goruchwyllo, felly roedd rhai darparwyr yn ddoeth iawn wedi hyrwyddo eu gwasanaethau mewn swyddfeydd prawf yn y gymuned ac unedau rheoli troseddwyd yn y carchar er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a chynhyrchu atgyfeiriadau.

Dim ond ychydig o ddarparwyr CRS oedd yn mynd i'r carchardai, ac roedd y rhai hynny a oedd yn mynd yn treulio llawer o amser yn ateb cwestiynau gan fenywod o ardaloedd rhyddhau eraill, gan nad oedd gan y carcharorion hynny neb i droi ato am gymorth a chynghor. Dim ond tua hanner ein sampl ni oedd wedi cyfarfod â gweithiwr CRS wyneb yn wyneb. Roedd llawer yn dibynnu ar alwadau fideo, arfer nad oedd yn helpu i ddatblygu ymddiriedaeth â'r menywod mwy cymhleth a heriol. Nid oedd digon o ystafelloedd cyswllt fideo yn Downview na Drake Hall ar gyfer yr holl alwadau yr oedd eu hangen i siarad â menywod yn agosáu at ddyddiad rhyddhau. Pan oedd y prif ddarparwyr CRS ar gyfer y rhanbarth yn mynd i garchar yn rheolaidd, roedd hyn yn cynhyrchu mwy o ymwybyddiaeth a hyder yn eu gwasanaethau, ac o ganlyniad, mwy o atgyfeiriadau. Roedd eu presenoldeb hefyd yn hybu gwell cydweithio ac integreiddio â'r staff ailsefydlu eraill. Er hyn, roedd recriwtio a chadw staff yn broblemau mawr i ddarparwyr CRS, ac roedd prosesau fetio hir ar gyfer staff newydd yn arwain at fylchau hir mewn presenoldeb ar safle.

Roedd rhannu gwybodaeth rhwng y gwahanol dimau y tu mewn i'r carchardai a gyda thimau cymunedol yn weddol dda mewn tua dau o bob tri o'r achosion a arolygwyd gennym. Y rhwystr mwyaf a oedd yn atal cyfathrebu da oedd y penderfyniad i beidio â chaniatáu i bob parti a oedd yn ymwneud â chynllunio ar gyfer rhyddhau gael mynediad at yr un systemau gwybodaeth. Ni allai darparwyr CRS gael mynediad at OASys, nDelius na hyd yn oed NOMIS weithiau i weld diweddariadau pwysig a gwybodaeth am risg. Roeddent yn dibynnu ar atgyfeiriadau a oedd weithiau naill ai'n methu â darparu digon o wybodaeth am risg neu a oedd yn canolbwyntio ar

faterion tai yn unig, a heb fod yn cyfeirio'r fenyw i gael cymorth ar gyfer ei hanghenion ailsefydlu eraill. Gan eu bod yn methu â chael mynediad at y wybodaeth hon eu hunain, roedd darparwyr CRS weithiau'n anfon yr atgyfeiriadau hyn yn ôl, gan achosi rhagor o oedi cyn i fenywod gael cymorth.

Nid oedd digon o waith allweddol o ansawdd da i gefnogi gwaith cynllunio ar gyfer ailsefydlu. Roedd gan y rhan fwyaf o'r menywod weithiwr allweddol, ond roedd llai na'u hanner yn cael cyswllt rheolaidd â hwy, a hyd yn oed pan oeddent mewn cysylltiad nid oedd y gweithiwr allweddol yn gwneud hanner digon i archwilio neu fynd i'r afael ag anghenion ailsefydlu'r menywod.

Roedd lleiafrif bach o'r menywod yn cael mynediad at gyfleoedd da i baratoi ar gyfer cyflogaeth ac ailadeiladu cysylltiadau teuluol tra oeddent wedi eu rhyddhau ar drwydded dros dro (ROTL). Yn y safleoedd yr ymwelwyd â hwy roedd cysylltiadau da iawn â chyflogwyr megis The Clink, Iceland, Wagamama, Halfords, Coleg Ffasiwn Llundain a Max Spielman, ond dim ond nifer fach o fenywod oedd yn gyflogedig chwe wythnos ar ôl cael eu rhyddhau. Rhwng Ebrill 2023 a Chwefror 2024, roedd 11 y cant o'r holl fenywod a ryddhawyd o'r pedwar carchar yr ymwelwyd â hwy, ac a oedd ar gael i weithio, yn gyflogedig chwe wythnos ar ôl cael eu rhyddhau; roedd hyn yn gyfanswm o 107 o fenywod.

Weithiau roedd hyn yn briodol oherwydd eu cyfrifoldebau gofalu, ond roedd menywod eraill yn dychwelyd i'r carchar dro ar ôl tro ar ddedfrydau byr, ac nid oeddent wedi cael y cymorth yr oedd arnynt ei angen i fynd i'r afael â'u ffyrdd anhrefnus o fyw.

Roedd yn llawer rhy anodd i fenywod gael eu rhif yswiriant gwladol. Nid oedd staff yr Adran Gwaith a Phensiynau yn cael rhoi'r rhif mwyach; yn lle hynny, roedd yn rhaid cyflwyno cais i Gyllid a Thollau EF, ac roedd hynny'n cymryd wythnosau. Roedd hyn yn rhwystr sylweddol a oedd yn atal menywod rhag cael gwaith, ar ROTL neu ar ôl cael eu rhyddhau. Roedd hyfforddiant i ysgrifennu CV a llythyrau datgelu yn cael ei ddarparu'n anghyson; roedd ar y rhan fwyaf o'r menywod yn ein sampl angen cymorth ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, ond dim ond hanner y menywod hynny oedd wedi ei dderbyn.

Yn gyffredinol, nid oedd digon o gymorth i helpu menywod i reoli eu materion ariannol a mynd i'r afael â dyledion. Nid oedd y gwaith hwn wedi'i gynnwys yng nghwmpas elfen garchar y contractau CRS. Roedd gan bob carchar weithiwr a oedd yn helpu menywod i gael dogfennau adnabod ac agor cyfrifon banc lle'r oeddent yn gymwys. Fodd bynnag, roedd gormod o rwystrau a oedd yn atal menywod rhag ymgeisio'n llwyddiannus am gyfrif banc a dim ond lleiafrif o'r ceisiadau oedd yn llwyddiannus. Er enghraifft, ni allai menywod a oedd â chyfrif ar y cyd yn barod agor eu cyfrif eu hunain, hyd yn oed os oeddent mewn perthynas gamdriniol. Dim ond menywod a oedd wedi cael eu dedfrydu allai wneud cais, ac roedd angen iddynt fod â mwy na chwe wythnos ar ôl i'w threulio. Roedd troseddau mor sylfaenol â dwyn yn gwneud menywod yn anghymwys i ymgeisio i rai banciau. Roedd prosesau i gael tystysgrifau geni yn fwy llwyddiannus. Erbyn hyn mae'n bosibl i fenywod sydd yn y carchar wneud cais am drwydded yrru, ond bydd yr angen am gyfeiriad rhyddhau parhaol yn golygu nad yw llawer o fenywod yn gymwys.

Roedd staff o'r Adran Gwaith a Phensiynau ar gael ar y pedwar safle i helpu menywod i hawlio budd-daliadau. Roedd rhai safleoedd yn cynnal cynllun peilot calonogol er mwyn gweithredu hawliadau credyd cynhwysol menywod wrth y gât pan oeddent yn cael eu rhyddhau, gan roi mynediad cyflymach iddynt at gyllid.

Roedd ar bron iawn bob un o'r menywod yn ein sampl yn yr arolygiad angen cymorth â materion tai, a gwelsom dystiolaeth ohonynt yn cael cymorth gweddol dda. Roedd gan bron bob un rywle i fyw ar y noson gyntaf ar ôl cael eu rhyddhau, ond nid oedd HMPPS yn casglu dystiolaeth er mwyn deall canlyniadau ar gyfer menywod a oedd yn cael eu rhyddhau o garchar penodol ar ôl y pwynt hwn. Nid yw lle i gysgu ar y noson gyntaf yn fesur o lwyddiant; dim ond traean o'r menywod y buom ni'n siarad â hwy oedd yn cael eu rhyddhau i lety cynaliadwy a oedd yn debygol o bara am fwy na thri mis. Roedd tua hanner y menywod a gafodd eu hadolygu gennym yn cael eu rhyddhau i lety tymor byr, fel adeiladau cymeradwy, neu lety CAS2 neu CAS3. Lle'r oedd canlyniadau tymor hwy yn cael eu cofnodi gan ddarparwyr eraill, roeddent fel arfer yn llai cadarnhaol na data o'r

diwrnod rhyddhau. Roedd cost a phrinder presennol tai yn golygu bod llety cynaliadwy yn ganlyniad cynyddol annhebygol i lawer o fenywod.

Roedd cynlluniau munud olaf ar gyfer llety yn gyffredin iawn; roedd tua thraean o'r menywod a gyfwelwyd gennym yn dal ddim yn gwybod ble y byddent yn byw pan fyddent yn cael eu rhyddhau, ac roedd tua chwarter y menywod yn teimlo'n bryderus iawn ynglŷn â'r adeg y byddent yn cael eu rhyddhau. Yn y cyfnod rhwng Hydref 2022 a Medi 2023, cafodd 1,928 o fenywod eu galw yn ôl i'r carchar, 68 y cant o'r rhain am fethu â chydymffurfio â'u trwydded, gan amlaf drwy beidio â chadw mewn cysylltiad â'u swyddog goruchwylio, a 17 y cant oherwydd cyhuddiad troseddol newydd.<sup>15</sup> Roedd y menywod y buom ni'n siarad â hwy a oedd wedi cael eu galw'n ôl droeon wedi dod i dderbyn na fyddai cynlluniau ar gyfer llety'n cael eu cytuno tan y munud olaf. Mewn un achos pryderus, er gwaethaf ymdrechion gorau staff carchar, roedd cynlluniau i fenyw â phroblemau iechyd difrifol, a oedd i fod i gael ei chadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn wreiddiol, gael ei rhyddhau i loches nos yn unig. Roedd hyn yn gwbl annerbyniol.

Nid oedd gweithwyr tai arbenigol yn y carchardai i wneud gwaith achos â menywod unigol, a oedd yn fwllch difrifol. Nid oedd digon o dai CAS3 yn y lleoliadau iawn ar gyfer menywod eto, yn enwedig yn Llundain a De-ddwyrain Lloegr. Nid oedd yn glir pwy oedd yn gyfrifol am atgyfeirio menyw a oedd yn debygol o fod yn ddiartref at ei hawdurdod lleol; roedd y darparwyr CRS yn dweud nad oeddent wedi cael eu contractio i wneud hyn, felly roedd y dasg fel arfer yn cael ei rhoi i aelod o'r tîm cyn rhyddhau neu i'r rheolwyr troseddwy yn y carchar neu yn y gymuned. Y naill ffordd neu'r llall, roedd yn ddryslyd a gallai olygu bod y fenyw yn llithro drwy'r rhwyd.

Yn y rhan fwyaf o'r achosion a arolygwyd gennym, roedd ar y menywod angen cymorth i wella eu sgiliau meddwl a'u gallu i wneud penderfyniadau, ond dim ond tua 20 y cant oedd wedi derbyn unrhyw gymorth. Pan wnaethom adolygu ansawdd asesiadau a chynlluniau, meddwl ac ymddygiad oedd y maes angen a oedd yn cael ei ddiystyru fwyaf. Ychydig iawn o gyrsiau cyn rhyddhau byr oedd ar gael i helpu menywod i ddysgu sgiliau bywyd syml fel cadw tenantiaeth, ond roedd ychydig o ddarparwyr CRS yn dechrau eu darparu. Roedd cyflawni'r Rhaglen Sgiliau Meddwl (TSP) achrededig yn gyfyngedig; yn genedlaethol, roedd llai na 100 o fenywod wedi ei chwblhau yn y chwe mis hyd at fis Mawrth 2023, ac nid oedd yr un o'r menywod y gwnaethom ni eu cyfweld wedi ei gwneud. Roedd prinder staff wedi atal y rhaglen yn gyfan gwbl yn Downview.

Roedd gan ychydig yn fwy na dwy o bob tair menyw a gyfwelwyd gennym hanes o drawma neu gamdriniaeth, ond dim ond tua hanner y menywod hyn oedd wedi cael cymorth priodol. Roedd bron i draean o'n grŵp sampl yn ymwneud â gwaith rhyw ac roedd tua thri chwarter y menywod yn ddiodefwr trais domestig, ond nid oedd digon o gymorth iddynt. Nid oedd yr un o'r carchardai yr ymwelwyd â hwy wedi cyflwyno rolau arbenigol fel cynghorydd trais domestig annibynnol, cynghorydd trais rhywiol annibynnol neu weithiwr trais yn erbyn menywod a merched. Roedd yr angen am y cymorth hwn yn amlwg iawn yn rhai o'r achosion a arolygwyd gennym.

Roedd gwaith plant a theluoedd yn cael ei staffio'n well yn Styal a Drake Hall nag mewn sefydliadau eraill, yn enwedig yn y cyntaf. Yn gyffredinol, prin iawn oedd y dystiolaeth o gynllunio ar gyfer rhyddhau a oedd yn cynnwys teulu neu ffrindiau menywod, felly roedd y bwriad i gyflwyno gweithwyr ailsefydlu teLUOedd amser llawn ym mhob un o'r carchardai y gwnaethom ni ymweld â hwy yn fenter addawol iawn. Nod y cynllun peilot hwn oedd cynorthwyo menywod a oedd yn dychwelyd i rôl ofalu gyda phlant ac a oedd â 12 wythnos neu lai tan eu dyddiad rhyddhau. Byddai'n annog cynnwys eu teLUOedd mewn cynlluniau rhyddhau ac roedd yn cynnwys rhywfaint o gymorth ar ôl rhyddhau. Roedd plant llawer o'r menywod y buom ni'n siarad â hwy wedi cael eu cymryd oddi wrthynt, felly roedd cyflwyno gweithwyr cymdeithasol plant yn Bronzefield a Downview yn gam cadarnhaol iawn.

Roedd y rhan fwyaf o'r menywod yn ein sampl o achosion wedi cael problemau iechyd meddwl ac roedd gan bron i'w hanner anabledd neu nodwedd warchoddedig a oedd yn effeithio ar gynllunio ar gyfer rhyddhau. Yn gyffredinol, roedd cymorth gofal iechyd ar gyfer rhyddhau yn diwallu anghenion

---

<sup>15</sup> Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2024). Offender Management Statistics Quarterly: July to September 2023. Licence Recalls July to September 2023.



uniongyrchol menywod; er enghraifft, roeddent yn cael cyflenwad o feddyginiaethau. Y rhwystr mwyaf a oedd yn atal cynllunio da ar gyfer iechyd oedd diffyg cyfeiriad rhyddhau wedi'i gadarnhau tan yn hwyr iawn, gan fod hyn yn atal gwasanaethau cymunedol rhag derbyn atgyfeiriadau. Roedd Bridges to Health, gwasanaeth Drwy'r Gât yn Ne-ddwyrain Lloegr, yn rhedeg yn dda iawn yn Downview, ac yn darparu cymorth ac eiriolaeth gref i fenywod cyn ac ar ôl cael eu rhyddhau. Nid oedd Reconnect, cynllun a fwriadwyd er mwyn helpu carcharorion sy'n trosglwyddo i wasanaethau cymunedol, wedi cael ei wreiddio eto. Roedd y rhan fwyaf o'r gwasanaethau iechyd meddwl yn darparu cefnogaeth effeithiol ac roedd ganddynt systemau da er mwyn hwyluso ôl-ofal yn y gymuned. Fodd bynnag, roedd y rhestrau aros ar gyfer therapiau siarad yn hir, ac roedd hynny'n golygu bod menywod yn aml yn cael eu rhyddhau heb gael mynediad at y cymorth hwn, ac roedd cael asesiad awtistiaeth neu anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd cyn rhyddhau yn heriol. Roedd gofal a chefnogaeth amenedigol i fenywod beichiog cyn cael eu rhyddhau yn dda iawn at ei gilydd. Roedd cymorth i fenywod a oedd yn cael eu rhyddhau â phroblemau cyffuriau ac alcohol, gan gynnwys cyngor i leihau niwed a darparu Naloxone, yn dda at ei gilydd. Nid oedd staff carchar a oedd yn helpu menywod i gynllunio ar gyfer rhyddhau yn cael gwybod bob amser pa ymyriadau iechyd yr oedd y fenyw yn ymgysylltu â hwy, ac nid oedd hynny'n fuddiol. Weithiau gallai gwybodaeth sylfaenol fod wedi ei rhannu er mwyn cefnogi gwaith cynllunio da ar gyfer rhyddhau tra'n cadw cyfrinachedd meddygol.

Yn Bronzefield a Styal, roedd hyd at draean o'r holl fenywod a gafodd eu rhyddhau wedi cael eu galw'n ôl. Roedd menywod a oedd yn cael eu galw'n ôl yn aml yn cael anhawster i gael cymorth yn ystod arosiadau byr iawn, ac nid oedd y rhai a oedd yn ein sampl o achosion yn cael digon o wybodaeth bob amser am y rhesymau dros alw'n ôl na mynediad digon buan at gyngor cyfreithiol. Roedd cau atgyfeiriadau CRS yn y pwynt galw'n ôl yn rhwystr arall diangen a oedd yn atal cymorth, oherwydd erbyn i'r menywod gael eu hailgyfeirio yn y dda, yn aml iawn roeddent yn agos iawn at gael eu rhyddhau eto. Roedd rheolwyr yn Styal wedi nodi cymorth ar gyfer menywod a oedd yn cael eu galw'n ôl fel blaenoriaeth. Yno, roedd menywod yn cael eu dyrannu i'w rheolwyr troseddwyd yn y carchar blaenorol pan oeddent yn cael eu galw'n ôl, fel nad oedd yn rhaid iddynt egluro eu hamgylchiadau o hyd. Roedd y bwriad i gyflwyno swyddog galw'n ôl a fyddai'n gwneud gwaith dwys â'r menywod a fyddai'n dychwelyd amlaf yn fenter addawol.

### 3.5. Dyddiad rhyddhau

Nid oedd digon o gymorth Drwy'r Gât, lle byddai staff yn mynd gyda'r menywod mwyaf cymhleth ac agored i niwed ar y diwrnod rhyddhau ac yn siarad ar eu rhan, er enghraifft wrth fynd at yr awdurdod lleol i geisio cael llefy. Dim ond traean o'r achosion a arolygwyd gennym gafodd y cymorth hwn, er ein bod wedi gweld tystiolaeth o anghenion cymhleth mewn o leiaf draean arall. Roedd y tebygolrwydd y byddent yn cael eu galw'n ôl yn fwy heb y cymorth hwn.

Nid oedd pob un o'r carchardai yr ymwelwyd â hwy yn cynnig ffôn symudol syml i fenywod. O ystyried cymaint rydym yn dibynnu ar y dyfeisiau hyn yn ein bywydau bob dydd y dyddiau hyn, roedd gadael carchar heb un yn atal ailsefydlu llwyddiannus. Nid oedd gan bob un o'r carchardai ganolfan y tu allan i'r gât<sup>16</sup> lle gallai menywod gael mynediad at gymorth yn syth ar ôl cael eu rhyddhau i wneud galwadau, gwefru ffonau, cysgodi rhag y tywydd a pharatoi ar gyfer siwrneiau ar ôl cael eu rhyddhau. Nid oedd yn glir bob amser pwy oedd yn gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth hwn ac weithiau roedd yn cael ei ddarparu gan y staff a oedd yn teimlo'r cymhelliant mwyaf, a oedd yn gwneud hynny o amgylch eu dyletswyddau eraill.

Gwelsom ymdrechion da i helpu menywod i gyrraedd gorsafoedd rheilffordd a gwneud cysylltiadau ymhellach ymlaen ar y daith, ond yn aml iawn roedd y gofynion adrodd a roddid i rai menywod ar y dyddiad rhyddhau yn llawer rhy ddwys o ystyried y pellter yr oedd angen iddynt deithio.

---

<sup>16</sup> Y 'gât' yw'r ffin sy'n dynodi a yw pobl wedi'u carcharu ai peidio. Yn y cyd-destun hwn, mae'r ganolfan ar dir y carchar ond dim ond ar ôl i fenywod gael eu rhyddhau'n ffurfiol y gellir cael mynediad iddi.

### 3.6. Casgliadau a goblygiadau

Cyfarfuom â llawer o staff ymroddedig a oedd yn rhy aml o'r hanner yn gorfod osgoi problemau â'r model ailsefydlu. Roedd y rhain yn cynnwys ei drefniadau rhy gymhleth, prinder staff, bylchau mewn disgwyliadau ar gyfer cyflawni contractau a diffyg cymorth wyneb yn wyneb i fenywod. Roedd gwasanaeth da yn aml yn dibynnu ar y staff hyn yn gwneud llawer mwy na'u rôl, ac nid oedd hynny'n sefyllfa gynaliadwy. Roedd y cymhlethdodau a'r dryswch rydym wedi ei ddisgrifio yn cael effaith uniongyrchol ar ansawdd cymorth ailsefydlu y gallai menywod gael mynediad ato yn y carchar. Roedd gormod ddim yn cael cymorth digon buan i fynd i'r afael â'u holl anghenion, ac roedd y rhai hynny a oedd yn treulio dedfrydau byr iawn, neu a oedd yn cael eu galw yn ôl am fater o wythnosau, yn wynebu risg sylweddol o golli cymorth. Lle'r oedd menywod wedi cael mynediad at gymorth a chynllunio da, roedd yn llawer rhy anodd penderfynu a oeddent wedyn yn cael canlyniadau da. Er enghraifft, nid oedd HMPPS yn cael mynediad at ddata am nifer y menywod wedi'u rhyddhau o garchar penodol a oedd mewn llety cynaliadwy dri mis ar ôl cael eu rhyddhau; o ganlyniad, nid oedd yn gwybod a oedd gwaith ymgartrefu a oedd yn cael ei wneud mewn sefydliad penodol yn effeithiol. Roedd y cymorth a oedd yn cael ei gynnig gan ddarparwyr CRS yn llawer rhy amrywiol, ac roedd y diffyg data am ganlyniadau yn golygu na allem fod yn sicr eu bod yn cynnig gwasanaeth effeithiol. Yn gyffredinol, roedd y model cyflawni presennol yn cynnwys gormod o rwystrau posibl a oedd yn atal llwyddiant, ac roedd y rhan fwyaf o'r rheolwyr y buom ni'n siarad â hwy yn ystod ein harolygiad yn cwestiynu ei effeithiolrwydd. Yn y cyfamser, roedd y menywod a gyfwelwyd gennym yn profi lefelau amrywiol o orbryder a rhwystredigaeth; roeddent yn ddiolchgar am y cymorth roeddent wedi ei gael, ond yn aml iawn roeddent yn ansicr ynglŷn â beth fyddai'n digwydd pan fyddent yn cael eu rhyddhau.

## 4. Adeiladau cymeradwy

---

Yn y bennod hon, rydym yn adrodd am ein canfyddiadau ynghylch profiadau menywod o adeiladau cymeradwy,<sup>17</sup> gan gynnwys arweinyddiaeth, rheolaeth, ac adnoddau. Yn dilyn ein harolygiad o achosion 30 o breswylwyr benywaidd, rydym yn disgrifio sut y mae'r profiad o fyw mewn adeilad cymeradwy yn effeithio ar fenywod a heriau symud ymlaen yn llwyddiannus.

### 4.1. Trosolwg o adeiladau cymeradwy ar gyfer menywod

Mae naw adeilad cymeradwy ar gyfer menywod yn Lloegr, ond dim un yng Nghymru; mae chwech yn cael eu rhedeg yn annibynnol, ac mae nifer wedi agor yn y ddwy flynedd ddiwethaf, gan gynyddu cyfanswm y gwelyau i 165. Pwrpas adeiladau cymeradwy yw cefnogi ailsefydlu ac adsefydlu a chynnig mwy o amddiffyniad i'r cyhoedd yn y gymuned. Gan amlaf, y preswylwyr yw unigolion sydd wedi cael eu rhyddhau ar drwydded o'r ddalfa ac sy'n achosi risg uchel o niwed difrifol. Bydd adeiladau cymeradwy ar gyfer menywod hefyd yn derbyn unigolion sy'n achosi risg ganolig o niwed sydd ag anghenion cymhleth. Gall hefyd fod yn ofynnol i unigolion fyw mewn adeilad cymeradwy pan fyddant yn destun gorchymyn dedfryd gymunedol neu ohiriedig, er bod hyn yn anghyffredin. Yn ystod eu harhosiad, disgwylir i breswylwyr dreulio nifer cytunedig o oriau yn gwneud gweithgaredd adsefydlu, a allai gynnwys gweithgareddau addysgol, cyflogaeth, ailsefydlu, a chysylltiedig ag iechyd. Gallai'r rhain fod yn grwpiau wedi'u trefnu gan staff ar safle neu'n weithgareddau allanol sydd wedi'u cymeradwyo fel rhai pwrpasol. Mae dau o'r adeiladau cymeradwy sy'n cael eu rhedeg gan y Gwasanaeth Prawf wedi'u dynodi'n Amgylcheddau wedi'u Cynllunio'n Seicolegol Wybodus (PIPE). Nod y rhain yw cefnogi pobl ar brawf sydd wedi cael eu nodi fel rhai a allai fod ag anhwylder personoliaeth, ac a aseswyd fel rhai sy'n achosi risg uchel o niwed. Mae gan y cyfleusterau hyn staff ychwanegol (swyddog prawf a seicolegydd) i gefnogi anghenion ychwanegol preswylwyr.

### 4.2. Arweinyddiaeth, staffio ac adnoddau

Mae goruchwyliaeth tri adeilad cymeradwy ar gyfer menywod sydd dan ofal prawf yn dod dan strwythur rhanbarthol ar gyfer rheoli adeiladau cymeradwy yn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Llety Cymunedol ochr yn ochr ag adeiladau cymeradwy ar gyfer dynion. Mae 95 o adeiladau cymeradwy ar gyfer dynion, 80 ohonynt yn cael eu rhedeg gan y Gwasanaeth Prawf. Yn anorod, mae'r rhan fwyaf o'r staff a'r rheolwyr yn y rhanbarthau yn gweithio gyda phreswylwyr gwrywaidd. Roedd y rhan fwyaf o'r rheolwyr adeiladau cymeradwy y buom ni'n siarad â hwy yn teimlo nad oedd eu rheolwyr llinell a'r gyfarwyddiaeth ehangach yn deall anghenion a phroffil penodol yr ystad menywod, a'u bod yn fwy cyfarwydd ac yn canolbwyntio mwy ar yr ystad dynion a oedd yn llawer mwy. O ganlyniad, nid oeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau. Mae rhai ymdrechion wedi'u gwneud i leihau ymdeimlad rheolwyr adeiladau cymeradwy ar gyfer menywod o fod wedi'u hynysu. Er enghraifft, roedd cyfarfodydd rhwydwaith adeiladau cymeradwy ar gyfer menywod wedi'u hargymell yn ddiweddar ar adeg ein gwaith maes. Siaradodd rheolwyr yn gadarnhaol hefyd am y Panel Adeiladau Cymeradwy Achosion Cymhleth Menywod, sy'n trafod anghenion menywod sy'n anodd eu lleoli, ac yn ystyried materion rheoli risg ac arferion da. Roedd hyn yn cynyddu lefel y cyswllt a'r cydweithrediad rhwng rheolwyr adeiladau cymeradwy ar gyfer menywod ac yn gwella eu dealltwriaeth o gyfleusterau a darpariaeth ei gilydd. Er hyn, roedd teimladau o fod wedi eu hynysu a rhwystredigaeth nad oeddent yn cael eu deall yn iawn yn parhau.

Roeddem hefyd yn bryderus ynglŷn â sut y darperid adnoddau ar gyfer eu cyfleusterau, gan fod y model yr un fath yn yr ystad menywod ag yn yr ystad dynion. Dywedodd rheolwyr a staff wrthym fod menywod yn treulio mwy o amser yn yr adeiladau cymeradwy oherwydd eu bod bron bob amser yn bell o'u hardal gartref ac yn anghyfarwydd â'r ardal leol. Yn ôl canllawiau a luniwyd gan

---

<sup>17</sup> Mae adeiladau cymeradwy yn adeiladau a gymeradwywyd dan Adran 13 o Ddeddf Rheoli Troseddwyd 2007 er mwyn darparu llety i unigolion y caniatwyd mechniaeth iddynt mewn achos troseddol neu mewn cysylltiad â goruchwyllo neu adsefydlu unigolion a gafwyd yn euog o droseddau.

NOMS, dan y teitl *Better Outcomes for Women Offenders* (Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy, 2015), er mwyn ymgysylltu ag adsefydlu, mae angen i fenywod yn gyntaf deimlo'n ddiogel rhag niwed, ac mae perthnasoedd cadarnhaol â staff yn hollbwysig er mwyn cyflawni hyn. Mae datblygu perthnasoedd seiliedig ar ymddiriedaeth yn cymryd amser, ac mae staff mewn adeiladau cymeradwy ar gyfer menywod yn ymwybodol iawn o hyn. Mae staff mewn adeiladau cymeradwy ar gyfer menywod yn treulio llawer o'u hamser yn ceisio datblygu ymdeimlad o ddiogelwch gyda phreswylwyr, gan fod y rhan fwyaf ohonynt wedi profi camdriniaeth a thrawma sylweddol yn eu bywydau. Mae menywod yn dibynnu ar staff yn amlach na dynion am gefnogaeth emosiynol ac ymarferol, ac nid yw hyn yn cael ei ystyried yn y model staffio. Oherwydd proffil preswylwyr yn yr adeiladau cymeradwy sydd wedi'u dynodi'n amgylcheddau PIPE, mae'r system a gynlluniwyd i'w cefnogi yn cael ei hadlewyrchu yn nifer uwch y staff. Fodd bynnag, roedd proffil y menywod a welsom mewn adeiladau cymeradwy nad oeddent yn amgylcheddau PIPE yn cynnwys anghenion cymhleth iawn a oedd yn gwarantu mwy o adnoddau nag a oedd ar gael. Ar hyn o bryd, mewn adeiladau cymeradwy heb ddynodiad PIPE a oedd yn cael eu rhedeg gan y gwasanaethau prawf, mae'r staff yn cynnwys rheolwr a swyddogion gwasanaethau prawf, sy'n gyfrifol am gynnig sesiynau gwaith allweddol i breswylwyr a gweithwyr preswyl, â rhywfaint o gefnogaeth weinyddol. Mae'r llwyth gwaith ar gyfer rheolwyr yn sylweddol o ran dyfnder ac ehangder y rôl ac yn anghynaliadwy yn y tymor hir oherwydd yr holl oriau gwaith ychwanegol sydd eu hangen er mwyn cyflawni'r cyfrifoldebau. Yn yr adeiladau cymeradwy a oedd wedi eu dynodi yn amgylcheddau PIPE, gwelsom ychwanegu swyddog prawf, sydd â rôl debyg i ddirprwy reolwr, fel elfen hanfodol. Roedd yr unigolyn hwn yn darparu profiad seiliedig ar ymarfer gwerthfawr a gwybodaeth am reoli risg i'r cyfleuster. Roedd mewnbyn seicolegwyr hefyd yn werthfawr iawn, yn uniongyrchol â'r preswylwyr er mwyn cefnogi eu hanghenion, a gyda'r staff er mwyn helpu i reoli straen emosiynol gweithio oriau hir â menywod cymhleth a oedd wedi dioddef trawma. Mae rhai adeiladau cymeradwy hefyd wedi bod yn greadigol drwy chwilio am gymorth arall y gallant fanteisio arno. Mae Crowley House wedi adeiladu perthynas â phrifysgol leol ac mae'n derbyn myfyrwyr therapi galwedigaethol ar leoliad, sy'n darparu sesiynau gyda phreswylwyr fel rhan o'r rhaglen gweithgareddau adsefydlu. Roedd staff, myfyrwyr a phreswylwyr i gyd yn siarad yn gadarnhaol am yr adnodd ychwanegol hwn.

Roedd rheoli cyfleusterau yn faes a oedd yn peri pryder mewn adeiladau cymeradwy a oedd yn cael eu rhedeg gan y gwasanaethau prawf. Gwelsom nifer o enghreifftiau o faterion a oedd yn achosi risg i ddiogelwch a lles preswylwyr a staff, gan gynnwys gât diogelwch allanol nad oedd wedi bod yn gweithio ers blynnydoedd, ac a oedd yn golygu bod yr adeilad cymeradwy'n agored i niwed. Roedd materion cynnal a chadw mewnol hefyd yn effeithio ar les preswylwyr; er enghraifft, roedd gan un adeilad cymeradwy ddrysau swnllyd ac anodd eu cau, a oedd yn achosi pyliau o anhwylder straen wedi trawma i breswylwyr yn ystod gwiriadau nos. Er gwaethaf ymdrechion gorau staff i leihau'r aflonyddu, roedd angen gwaith adeiladu adferol er mwyn mynd i'r afael â'r broblem. Disgrifiwyd dal i fyny â materion rheoli cyfleusterau fel brwydr barhaus i reolwyr a staff. Roedd hyn yn tynnu oddi wrth ddyletswyddau eraill, gan fod staff, yn gorfod mynd ar ôl ceisiadau nad oedd wedi cael ymateb buan neu foddhaol dro ar ôl tro. Mewn rhai adeiladau cymeradwy mae menywod yn dal i orfod rhannu ystafell. Gall hyn arwain at berthnasoedd amhriodol rhwng menywod sy'n rhannu ystafell ac anghydfod ynglŷn ag eiddo, sy'n anodd i'r staff eu rheoli.

Mae adeiladau cymeradwy sy'n cael eu rhedeg yn annibynnol yn cael mwy o ryddid i ddiffinio eu model staffio a'u darpariaeth eu hunain, yn ogystal â disgwyliadau sylfaenol yn eu contractau. Mae'r rhan fwyaf yn cynnwys dirprwy reolwr neu swyddog prawf yn eu strwythur fel rôl hanfodol. Gall adeiladau cymeradwy sy'n cael eu rhedeg yn annibynnol hefyd godi arian a chomisiynu gwasanaethau eraill, oherwydd eu hyblygrwydd dros gyllidebau; mae hyn yn caniatáu i rai gynnig lwfansau dillad a chymorth arall nad yw'n bosibl yn yr ystad sy'n cael ei rhedeg gan y gwasanaethau prawf. Mae rhai hefyd wedi gallu comisiynu gwasanaethau seicolegol neu wasanaethau cwnsela ychwanegol o ganlyniad i'r galw uchel am y mewnbyn hwn gan y preswylwyr. Mae'r hyblygrwydd yn caniatáu iddynt fod yn fwy ymatebol i faterion sy'n codi, megis rheoli cyfleusterau, oherwydd yn aml mae trefniadau mewnol ar gyfer rhoi sylw i waith atgyweirio a chynnal a chadw syml.

Roedd y cyfraddau meddiannaeth ar draws yr adeiladau cymeradwy ar gyfer menywod yn amrywio'n fawr. Y targed ar gyfer meddiannaeth yw 90 y cant; fodd bynnag, ar wahân i un o'r adeiladau cymeradwy ag amgylchedd PIPE, ar gyfer y rhan fwyaf o'r cyfnod a archwiliwyd gennym (mis Mehefin 2022 hyd fis Gorffennaf 2023), roedd meddiannaeth ym mhob adeilad a gymeradwywyd yn is na'r targedau, a hynny'n sylweddol mewn rhai achosion am gyfnodau estynedig. Mae meddiannaeth mewn adeiladau cymeradwy yn ddynamig a gall newid yn sydyn os bydd menywod yn cael eu galw'n ôl i'r carchar neu'n methu â chyrraedd yn unol â'r disgwyl. Mae meddiannaeth, galw'n ôl i'r carchar, tynnu gwelyau yn ôl a hyd arosiadau i gyd yn cael eu monitro gan uwch arweinwyr; fodd bynnag, er bod adeiladau cymeradwy unigol yn cynnal gweithrediadau amrywiol i godi ymwybyddiaeth o'u cyfleusterau er mwyn hybu meddiannaeth, mae angen gwneud mwy i sicrhau cydraddoldeb ar draws yr ystad.

### 4.3. Proses atgyfeirio

Er mwyn cael gwely mewn adeilad cymeradwy, mae ymarferwyr prawf yn cwblhau atgyfeiriad, sy'n cael ei brosesu gan uned ganolog. Yn dilyn gwiriadau gweinyddol, mae'r atgyfeiriad wedyn yn mynd ymlaen i'r adeilad cymeradwy i gael ei ystyried. Os yw'n cael ei wrthod, bydd yn cael ei anfon ymlaen at y dewis nesaf nes bydd lleoliad yn cael ei gynnig neu nes bydd pob opsiwn wedi'i ddefnyddio. Soniodd y staff wrthym am yr oedi sy'n digwydd yn y broses hon, yn gyntaf gan fod yr atgyfeiriad weithiau'n cael ei anfon i'r uned atgyfeirio ganolog ar gyfer dynion, ac yna mae oedi posibl ym mhob adeilad cymeradwy sy'n ei adolygu. Mae cynlluniau yn eu lle i newid y broses hon i'w gwneud yn unol â'r ystad dynion. Yn y dyfodol, bydd un rheolwr adeiladau cymeradwy yn gwirio addasrwydd ac yn nodi'r adeiladau cymeradwy mwyaf priodol, ond bydd rheolwyr yr adeiladau cymeradwy unigol yn dal i allu gwrthod atgyfeiriad os oes rheswm cyfreithlon dros wneud hynny.

Fel rhan o'n gwaith maes, arolygwyd cofnodion 30 o fenywod a oedd wedi byw mewn adeiladau cymeradwy er mwyn deall effaith y profiad hwn. Roedd y rhan fwyaf o'r menywod hyn wedi bod yn preswyllo fel rhan o drefniadau eu trwydded ar ôl cael eu rhyddhau; dim ond dwy oedd ar orchymyn cymunedol. Roedd y rhan fwyaf o'r menywod wedi cael eu hatgyfeirio oherwydd pryderon yn ymwneud â diogelwch y cyhoedd. Er gwaetha'r hyn a glywsom gan lawer o staff adeiladau cymeradwy ynglŷn â nifer o atgyfeiriadau hwyr, ag ychydig o eithriadau, roedd y rhan fwyaf o'r achosion a arolygwyd gennym ni wedi cael eu cyfeirio mor fuan ag yr oedd amgylchiadau'r achos yn caniatáu. Roedd ansawdd yr atgyfeiriadau'n amrywio. Dywedodd rheolwyr adeiladau cymeradwy eu bod yn aml yn gorfod mynd ar ôl gwybodaeth sydd ar goll. Mewn rhai achosion, gallai staff carchar fod mewn sefyllfa fwy priodol i ddarparu manylion am asesiadau hunanladdiad neu hunan-niweidio sydd wedi'u gwneud yn y carchar neu feddyginiaethau y mae'r menywod yn eu cymryd ar bresgripsiwn ar hyn o bryd. Nid yw staff mewn rhai adeiladau cymeradwy annibynnol yn gallu cael mynediad at y System Asesu Troseddwyr (OASys), felly maent yn dibynnu ar yr atgyfeiriad i gael yr holl fanylion y mae arnynt eu hangen.

Nid oedd pob un o'r ymarferwyr prawf yn gwybod y gellid cyfeirio menywod sy'n achosi risg ganolig o niwed difrifol at adeiladau cymeradwy, gan fod hyn yn wahanol i'r ddarpariaeth ar gyfer dynion. Gwelsom hefyd mai yn anaml iawn yr oedd staff prawf yn y llys yn ystyried argymell preswyllo mewn adeilad cymeradwy fel rhan o orchymyn dedfryd gymunedol neu ohiriedig. Mewn gwirionedd, o wybodaeth a ddarparwyd gan y gwasanaeth prawf, gwelsom mai dim ond saith gofyniad o'r fath gafodd eu gwneud rhwng Awst 2022 a Gorffennaf 2023. O ystyried bod y Strategaeth Troseddwyr Benywaidd yn ceisio lleihau nifer y dedfrydau o garchar am gyfnod byr, mae hyn yn gyfle sy'n cael ei gollu. O'r 60 o achosion a arolygwyd gennym yn ein prif sampl, dim ond dau oedd â chynlluniau a oedd yn ymwneud ag adeiladau cymeradwy; fodd bynnag, gwelsom enghreifftiau lle gallai arhosiad mewn adeilad cymeradwy fod wedi cynnig gwasanaeth cymorth ac adsefydlu mawr ei angen a gwell amddiffyniad i'r cyhoedd. Mae enghraifft i'w gweld isod.

#### Enghraifft o ymarfer gwael

Cafodd Beata ddedfryd o orchymyn cymunedol 24 mis am drosedd o geisio cynnau tân yn fwriadol ddwy flynedd ar ôl iddi gyflawni'r drosedd. Cafodd ei haildedfrydu yn dilyn gorchymyn

18 mis blaenorol y methodd â chydymffurfio ag ef. Dioddefwr y drosedd oedd ei phartner, a ddisgrifiwyd ganddi fel un a oedd yn ei cham-drin. Roedd gwybodaeth yr heddlu yn cadarnhau nifer o alwadau i fynd allan at y pâr o ganlyniad i adroddiadau am ddigwyddiadau domestig, lle'r oedd Beata wedi dioddef camdriniaeth gorfforol ac emosiynol gan ei phartner. Roeddent yn amau bod partner Beata yn rhoi cyffuriau iddi fel ffordd o'i rheoli. Mewn un digwyddiad, roedd wedi rhoi'r babell yr oedd hi'n cysgu ynddi ar dân tra oedd y ddau'n cysgu allan. Er gwaetha'r gamdriniaeth hon, nodwyd bod Beata yn gweld ei phartner fel ei hunig ffynhonnell cefnogaeth, gan ei bod wedi'i hynysu oddi wrth ei theulu ac nid oedd ganddi unrhyw incwm. Roedd Beata wedi cael plentyn gyda'i phartner, ac roedd y plentyn wedi cael ei gymryd o'i gofal ar unwaith ac yn dilyn hynny wedi cael ei fabwysiadu'n barhaol. Nid oedd yn dod yn wreiddiol o'r DU, ac ar y pryd, nid oedd ganddi hawl i aros na hawl i gael arian cyhoeddus. Roedd gan Beata hanes o ddefnyddio cyffuriau ac iechyd meddwl gwael, a oedd wedi cynnwys cyfnodau o roi ei hun mewn risg sylweddol o niwed droeon. Roedd ganddi hanes o gelcio sbwriel, gan gynnwys bwyd wedi mynd yn ddrwg, y cafodd ei hatal yn gorfforol rhag ei fwyta gan staff iechyd meddwl. Bu'n rhaid defnyddio grym hefyd i'w thynnu o gefn lori sbwriel lle'r oedd yn chwilio am sborion tra oedd y cerbyd ar waith, a pherygl iddi gael ei gwasgu gan y mecanwaith.

Aeth Beata i apwyntiadau cychwynnol ei gorchymyn cymunedol newydd, ond dirywiodd pethau'n fuan i gyswllt ffôn achlysurol, gan ei bod yn dweud ei bod wedi symud o'r ardal, a thrwy ddefnyddio enw ffug, roedd wedi llwyddo i gael tŷ gan elusen. Nid oedd tystiolaeth bod yr ymarferydd prawf wedi cysylltu â'r elusen cyn gofyn i'w hachos gael ei drosglwyddo i'r ardal newydd. Nid oedd asesiad risg wedi'i gofnodi ar yr ail orchymyn cymunedol; o ganlyniad, ni chyflwynwyd cynllun rheoli risg hyfyw a oedd yn mynd i'r afael â'r risgiau a'r anghenion yn yr achos. Collodd Beata gysylltiad â'r gwasanaethau prawf yn fuan, a nes i bryderon gael eu codi fel rhan o'r arolygiad, ni wnaethpwyd llawer i geisio dod o hyd i Beata na chadarnhau ei bod yn ddiogel. Datgelodd ymholiadau dilynol ei bod wedi cael caniatâd i aros ddwy flynedd yn flaenorol, a oedd wedi newid ei statws a'r gefnogaeth a oedd ar gael iddi.

Ni chafodd preswyllo mewn adeilad cymeradwy ei ystyried ar gyfer Beata, yn yr asesiad llys nac yn ystod ei goruchwyliaeth, er y gallai fod wedi cynnig cefnogaeth a sefydlogrwydd mawr ei angen iddi.

#### 4.4. Preswyllo mewn adeilad cymeradwy

Lle'r oedd amgylchiadau'n caniatáu, roedd rhywun o'r adeilad cymeradwy wedi cysylltu â'r rhan fwyaf o'r menywod yn ein sampl cyn iddynt gyrraedd drwy alwad ffôn cyswllt fideo wedi'i hwyluso o'r carchar neu alwad ffôn i drafod eu harhosiad a darparu gwybodaeth am yr adeilad cymeradwy. Fel arfer, eu gweithiwr allweddol dynodedig oedd wedi gwneud y cyswllt hwn, a oedd yn gyfle i ddechrau adeiladu eu perthynas. Ar ddechrau eu harhosiad, roedd gan y rhan fwyaf o'r menywod gynllun preswyllo a oedd yn ymdrin â'u disgwyliadau ac yn ystyried eu hanghenion corfforol ac emosiynol penodol. Roedd cynlluniau'n nodi pa weithgareddau adsefydlu fyddai'n cael eu darparu er mwyn helpu'r menywod i ddatblygu sgiliau i gefnogi'r broses ailsefydlu. Roedd pob menyw yn ein sampl wedi derbyn sesiynau cynefino buan a chynhwysfawr ar ddechrau ei harhosiad.

Er bod parhad gofal yn cael ei nodi fel blaenoriaeth yn y Cytundeb Partneriaeth Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd mewn Carchardai yn Lloegr,<sup>18</sup> yn rhy aml o'r hanner nid yw menywod yn cael eu rhyddhau â mynediad at feddyginiaeth angenrheidiol. Gall hyn fod yn gymhleth a gall gymryd llawer o amser i'w gywiro. Rhoddwyd enghreifftiau i ni o fenywod â chyflyrau iechyd difrifol ac anghenion

---

<sup>18</sup> Llywodraeth EF ac NHS England. (dim dyddiad). National Partnership Agreement for Health and Social Care for England: Improving the quality of services for people in prison and those subject to statutory supervision by the probation service in the community 2022-2025. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/guidance/healthcare-for-offenders#national-partnership-agreement-for-adults-in-england-2022-to-2025>

caethiwed yn cael eu gadael heb feddyginiaeth am nifer o wythnosau. Crynhodd un rheolwr adeilad cymeradwy y farn a fynegwyd gan lawer drwy ddweud:

*“Mae angen ymchwilio i feddyginiaethau gan fod hyn yn hunllef logistaidd.”*

Mae problemau'n aml yn waeth pan fydd menywod yn cyrraedd yn hwyr yn y dydd ar ôl teithio'n bell, yn enwedig ar ddydd Gwener, gan nad oes llawer o wasanaethau meddygol ar gael ar benwythnosau. Roedd cael cymorth priodol ar gyfer problemau iechyd meddwl tra oedd menywod yn byw mewn adeiladau cymeradwy yn broblem hefyd. Roedd rheolwyr yn aml yn teimlo eu bod yn gorfod rheoli menywod â lefelau uchel o angen heb ddigon o gefnogaeth arbenigol. Er mwyn goresgyn hyn, mae adeilad cymeradwy Elizabeth Fry wedi ariannu amser ychwanegol gan seicolegydd clinigol er mwyn caniatáu gwell cyswllt â gwasanaethau iechyd meddwl lleol a cheisio gwella mynediad i breswylwyr. Crynhodd un rheolwr y sefyllfa drwy ddweud,

*“Dim ond mewn argyfwng y mae'r gwasanaethau ar gael, ac nid ydynt yn talu llawer o sylw i atal.”*

Roedd bron bob un o'r menywod yn cael sesiynau gwaith allweddol rheolaidd yn ystod eu harhosiad, ac roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn helpu i fynd i'r afael â'u hanghenion ailsefydlu. Er nad oedd cynlluniau preswyllo yn cael eu hadolygu'n ffurfiol mewn dogfen benodol bob amser, roedd y cynnwys fel arfer yn cael ei adolygu drwy sesiynau gwaith allweddol, ac roedd cynnydd cadarnhaol neu bryderon a oedd yn dod i'r amlwg yn cael eu cofnodi a'u trafod. Mae cyfraddau hunan-niweidio a meddwl am hunanladdiad yn uchel ymhlith menywod yn y system cyfiawnder troseddol, a gwelsom fod y materion hyn yn cael eu nodi a'u cofnodi ym mhob un bron o'r enghreifftiau a arolygwyd gennym. Er hyn, roedd adolygiadau o'r wybodaeth hon yn cael eu colli weithiau, er gwaethaf newidiadau sylweddol. Yn gyffredinol, gwelsom fod staff yn cefnogi diogelwch a lles preswylwyr yn dda iawn ac yn dangos gwybodaeth ac ymwybyddiaeth ragorol o'r preswylwyr a'r risgiau yr oeddent yn eu hwynebu. Roedd y preswylwyr y gwnaethom eu cyfarfod yn canmol yn rheolaidd yr amser roedd y staff yn ei dreulio gyda hwy a dyfnder y perthnasoedd roeddent wedi eu datblygu.

Mae menywod yn aml yn cael eu lleoli yn bell o'u hardal gartref oherwydd gwasgariad daearyddol adeiladau cymeradwy ar gyfer menywod. Er ein bod wedi gweld bod cyswllt digonol rhwng staff adeiladau cymeradwy a'r ymarferwyr prawf a oedd yn gyfrifol am y preswylwyr yn y rhan fwyaf o'r achosion, mynegodd staff a phreswylwyr bryder ynglŷn â lefel y cyswllt roedd y menywod yn ei gael gyda'u hymarferwyr prawf. Defnyddid galwadau fideo a ffôn i hwyluso cyswllt, ond yn aml iawn nid oedd y menywod yn teimlo bod ganddynt berthynas ystyrion â'u hymarferydd. Dim ond yn yr achosion â'r risg mwyaf y gwneir trefniadau i ymarferydd lleol ofalu am yr achos, ac mae hynny'n rhoi mwy o bwysau ar staff adeiladau cymeradwy i ddiwallu anghenion y menywod. Mae bod oddi cartref hefyd yn golygu bod menywod yn gorfod gwneud cysylltiadau dros dro â gwasanaethau cymorth eraill, sydd wedyn yn gorfod cael eu hailsefydlu pan fyddant yn symud ymlaen o'r adeilad cymeradwy.

Mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau cymeradwy yn darparu rhestr helaeth ac amrywiol o weithgareddau i helpu menywod i adeiladu sgiliau ymarferol neu ddatblygu gwell sgiliau rheoli emosiynol a chymdeithasol. Roedd gan bob un o'r adeiladau cymeradwy yr ymwelwyd â hwy amrywiaeth da o weithgareddau y gallai menywod ddewis ohonynt. Mae enghraifft arloesol o brosiect yn adeilad cymeradwy Edith Rigby i'w gweld isod.

### Enghraifft o ymarfer da

Roedd adeilad cymeradwy Edith Rigby wedi creu busnes cydweithredol bach o'r enw Deeds Not Words, wedi'i ysbrydoli gan fudiad y swffragetiaid. Roedd y rheolwr wedi llwyddo i gael grant i greu a phrynu nwyddau, yn cynnwys cysau chwys, cysau-t, llyfrau lliwio a beiros. Gwerthir y rhain mewn marchnad bob pythefnos yn Preston ac ar-lein. Mae'r preswylwyr yn gweithio mewn shifftiau er mwyn datblygu sgiliau cyflogaeth a sgiliau cymdeithasol. Maent hefyd wedi bod

mewn cynadleddau yn siarad am y prosiect ac yn gwerthu eitemau. Yr egwyddor y tu ôl i'r busnes yw creu cymuned gynaliadwy, wedi'i chynllunio ac yn cael ei harwain gan fenywod, a fydd yn arwain yn y pen draw at siop sy'n darparu cyflogaeth a thenantiaeth symud ymlaen yn y gymuned, â gwasanaeth allgymorth. Nod y prosiect yw rhoi gobaith i fenywod y gallant sicrhau newid cymdeithasol beth bynnag eu cefndir neu statws economaidd-gymdeithasol. Mae rhagor o fanylion am y fenter hon i'w gweld ar eu gwefan: [www.deedsnotwords.net](http://www.deedsnotwords.net).

Clywodd User Voice nifer o sylwadau cadarnhaol gan fenywod am eu profiadau o adeiladau cymeradwy. Mae un enghraifft nodweddiadol i'w gweld isod:

*"Rwy'n teimlo'n ddiogel yma ac yn cael fy nghefnogi, oherwydd mae cymorth ar gael bedair awr ar hugain y diwrnod ac mae'r merched eraill yn wych. Mae un ar hugain o weithgareddau ar gael bob wythnos a thri phryd o fwyd. Rwy'n gwybod ei bod yn ffrainc cael bod yma oherwydd roeddwn i mewn un ofnadwy yn Llundain flynyddoedd yn ôl, felly y tro cyntaf y clywais i fy mod yn mynd i adeilad cymeradwy roeddwn i'n ofni'r gwaethaf!"*

Lle'r oedd sylwadau'r menywod yn llai cadarnhaol am eu profiad, roedd hyn yn aml yn gysylltiedig â'r ffaith eu bod yn cael eu lleoli yn rhy bell o'u cartref.

#### 4.5. Symud ymlaen

Yn gyffredinol, roedd y menywod yn ein sampl yn aros am fwy o amser nag a nodwyd yn eu hatgyfeiriadau. Roedd hyn yn aml oherwydd nad oedd ganddynt gyfeiriad priodol i symud ymlaen iddo. Roedd gan breswylwyr mewn ychydig dros hanner yr achosion a ystyriwyd gennym gynlluniau symud ymlaen clir, ac roedd diffyg cynllun o'r fath yn aml yn achosi lefelau uchel o orbryder. Weithiau roedd iechyd meddwl menywod yn dirywio gan nad oeddent yn gwybod i ble y byddent yn mynd pan fyddai eu cyfnod preswyllo yn dod i ben. Er bod pob rheolwr adeilad cymeradwy wedi dweud wrthym na fyddent byth yn troi menyw allan os oedd ganddi nunlle i fynd, roedd ofn hyn yn bryder i lawer o breswylwyr. Os na allai menywod ddychwelyd i'w hardaloedd cartref, oherwydd cyfyngiadau ar eu trwydded neu risgiau iddynt pan fyddent yn preswyllo yno, roedd yn anodd gwneud cynlluniau. Weithiau roedd ar fenywod eisiau ailsetlo gerllaw ar ôl treulio cyfnod mewn adeilad cymeradwy a ffurfio cysylltiadau â gwasanaethau lleol. Fodd bynnag, nid yw awdurdodau lleol yn derbyn hynny fel cysylltiad lleol ac ni fyddant yn darparu llety. O ganlyniad, oni bai fod opsiwn rhentu preifat yn cael ei ddarganfod, mae menywod weithiau'n cael eu gorfodi i symud eto ac adeiladu rhwydwaith cefnogi newydd arall. Roedd saith o'r 30 o fenywod yn ein sampl yn dal yn breswylwyr ar adeg yr arolygiad. O'r preswylwyr a oedd wedi symud ymlaen, roedd chwech wedi mynd i lety sefydlog yn annibynnol neu gyda ffrindiau neu deulu, roedd naw wedi mynd i lety dros dro o ryw fath, roedd statws un yn anhysbys ac roedd y saith arall wedi'u galw yn ôl i'r carchar.

Yn anffodus, nid yw lleoliadau mewn adeiladau cymeradwy yn ddirwystr bob amser. Gwelsom ddefnydd da o gynlluniau gwella mewn rhai adeiladau cymeradwy er mwyn osgoi galw'n ôl i'r carchar neu welyau yn cael eu tynnu'n ôl. Roedd rhai o'r menywod a oedd yn ein sampl wedi gadael, ac o ganlyniad, roeddent wedi gorfod cael eu galw'n ôl i'r carchar gan nad oedd neb yn gwybod lle'r oeddent. Roedd eraill wedi torri telerau eu trwydded, neu roedd eu hymddygiad wedi dirywio i'r graddau na ellid eu rheoli'n ddiogel yn y gymuned ac roedd yn rhaid eu galw'n ôl i'r carchar. Roedd pob adeilad cymeradwy yn dweud eu bod wedi profi problemau wrth drefnu bod menywod yn cael eu harestio yn fuan pan oedd pethau wedi mynd o chwith, a'u trwydded wedi cael ei dirymu. Roedd oedi yn achosi problemau mawr i staff, a oedd yn dal i orfod rheoli menywod yn yr adeiladau cymeradwy, yn aml wrth i'w hymddygiad ddirywio ymhellach ac aflonyddu ar breswylwyr eraill. Clywsom enghreifftiau o'r heddlu'n cymryd diwrnodau lawer, ac yn yr enghreifftiau gwaethaf hyd at bythefnos, i fynd â menywod yn ôl i'r ddalfa. Mae'r sefyllfaoedd hyn yn annogol i fenywod, staff a phreswylwyr eraill.



Gwelsom enghreifftiau cadarnhaol o adeiladau cymeradwy yn defnyddio symud ymlaen fel ffordd dda o adolygu cynnydd, ac os yw'n briodol, i ystyried beth allai fod wedi bod yn well. Mae'r enghraifft isod yn dangos hyn.

#### Enghraifft o ymarfer da

Yn Edith Rigby, cyn i fenywod symud ymlaen, mae'r staff yn trefnu cyfarfod gorffen 'cacen a choffi'. Defnyddir y cyfarfod i drafod profiad y fenyw o'r adeilad cymeradwy ac ailddatgan y cynnydd cadarnhaol a wnaethpwyd yn ystod ei harhosiad. Gan fod menywod yn aml yn ffurfio perthnasoedd cryf â'r staff, gall fod yn anodd iddynt adael y gefnogaeth maent wedi ei darganfod, ac mae'r cyfarfod hwn yn cynnig cyfle i fynegi hyn a nodi cryfderau y gallant eu defnyddio. Hyd yn oed lle nad yw'r broses o symud ymlaen wedi bod yn un gadarnhaol, bydd pob preswlydd yn derbyn llythyr gorffen sy'n ystyried ei amser yno, gan dynnu sylw at unrhyw bwyntiau cadarnhaol ac ystyried beth aeth o'i le a sut y gellid gwella pethau yn y dyfodol. Gall menywod ddychwelyd i'r adeiladau cymeradwy os byddant yn cael eu rhyddhau yn y dyfodol; felly mae'n bwysig dal i feithrin y berthynas.

#### 4.6. Casgliadau a goblygiadau

Nid yw adeiladau cymeradwy ar gyfer menywod yn cael digon o adnoddau gan y model staffio cyffredinol a amlinellwyd yn y Model Gweithredu Targed. Nid yw anghenion rhywedd-benodol menywod yn cael eu cefnogi'n ddigonol drwy'r strwythur rheoli presennol, lle mae adeiladau cymeradwy ar gyfer menywod yn y lleiafrif o'u cymharu â'r ystad lawer mwy ar gyfer dynion. Mae'r staff yn gweithio'n galed i ddiwallu anghenion menywod cymhleth iawn mewn amgylchiadau anodd, ac roedd menywod at ei gilydd yn gadarnhaol ynglŷn â'r ystod o weithgareddau a'r gefnogaeth a ddarparwyd. Er hyn, nid yw adeiladau cymeradwy ar gyfer menywod yn cael cefnogaeth ddigonol gan drefniadau rheoli cyfleusterau gwael, sy'n gallu gadael preswylwyr a staff mewn perygl. Yn gyffredinol, ni wneir digon o ddefnydd o adeiladau cymeradwy. Collir cyfleoedd i ddefnyddio adeiladau cymeradwy i gefnogi menywod fel rhan o orchmynion cymunedol, yn enwedig pan ellid gwneud cynnig ar adeg dedfrydu i ddarparu dewis arall yn lle carchar.

## 5. Rheoli dedfrydau cymunedol

---

Yn y bennod hon, rydym yn rhannu ein canfyddiadau o'r arolygiadau o achosion ac yn ystyried pa mor effeithiol y cyflawnir dedfrydau i fenywod sydd ar brawf. Yn gyntaf, rydym yn edrych ar ansawdd gwaith llys ac adroddiadau cyn dedfrydu (PSR). Yna rydym yn ystyried y gweithgareddau sy'n digwydd ar ôl dedfrydu, sy'n cynnwys asesu a chynllunio, a chyflawni ymyriadau. Yn olaf, rydym yn edrych ar y gwasanaethau a ddefnyddir gan y Gwasanaeth Prawf i gefnogi menywod a rhoi sylw i'w hanghenion.

### 5.1. Arweinyddiaeth ranbarthol ac Unedau Cyflawni Prawf

Mae recriwtio arweinydd menywod ar radd uwch swyddog prawf (SPO) ym mhob rhanbarth wedi bod yn ddatblygiad cadarnhaol ers ein harolygiad diwethaf. Yn y modelau cryfaf, roedd arweinwyr menywod wedi ffurfio cysylltiadau da â'r timau neu'r ymarferwyr unigol a oedd yn rheoli menywod. Roeddent yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd ag ymarferwyr er mwyn rhannu ymchwil a gwybodaeth arall gyda hwy. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd roedd arweinwyr menywod hefyd wedi ceisio datblygu cysylltiadau â thimau ymyriadau a darparwyr gwasanaethau adsefydlu wedi'u comisiynu (CRS) er mwyn deall sut roedd pethau'n gweithio a hybu gwelliant. Roedd y staff yn aml yn canmol gwybodaeth ac arbenigedd deiliaid y rolau. Mae'r arweinwyr menywod yn adrodd i uwch arweinydd rhanbarthol. Mae'r arweinydd hwn yn aml yn bennaeth Uned Cyflawni Prawf sydd â chyfrifoldeb thematig am fenywod ochr yn ochr â'i rôl greiddiol. Roedd arweinwyr menywod ar radd SPO yn gweithio'n galed i geisio gwella proffil menywod a gwneud cynnydd yn erbyn y strategaeth menywod, ond nid oeddent bob amser ar lefel ddigon uchel i sicrhau newid ystyrion yn eu rhanbarth o ystyried galwadau eraill gwahanol. O ganlyniad, roedd rhanbarthau, a hyd yn oed Unedau Cyflawni Prawf unigol mewn rhanbarthau, ar gyfnodau cynnydd gwahanol iawn â'r agenda menywod, yn aml o ganlyniad i'r heriau staffio y maent wedi eu hwynebu ers uno gwasanaethau.

Roedd rhai rhanbarthau wedi galw paneli achos cymhleth a oedd yn ceisio cynorthwyo ymarferwyr i reoli menywod â heriau niferus a heriol. Yn yr enghreifftiau gorau, roedd y rhain yn cynnwys asiantaethau partner, a oedd yn galluogi'r panel i wneud cynnydd wrth glirio mynediad at wasanaethau mewn rhai achosion.

Nid oedd gan bob Uned Cyflawni Prawf drefniadau yn eu lle i gefnogi menywod nad oeddent yn teimlo'n ddigon cyfforddus i fynd i adrodd mewn manau rhywedd cymysg. Roedd gan rai Unedau Cyflawni Prawf amseroedd adrodd ar gyfer menywod yn unig. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym yn aml nad oedd hyn yn cael ei barchu bob amser, ac yn aml iawn y byddai dynion yn dal yn bresennol mewn ystafelloedd aros yn ystod y cyfnodau hyn. Roedd gennym bryderon ynglŷn â hysbysebu'r amseroedd adrodd hyn, er enghraifft, ar bosteri ar y wal mewn derbynffeydd, gan y gallai hyn dynnu sylw at yr adegau yr oedd menywod agored i niwed yn debygol o ddod i swyddffeydd. Ar gyfer menywod a oedd yn gweithio neu a oedd ag ymrwymadau gofal plant, roedd yr amseroedd hyn yn aml yn anghyfleus. Ym Manceinion Fwyaf, roeddem yn hoffi'r model lle'r oedd y tîm menywod wedi'i gydleoli yn y ganolfan fenywod am ran o'r wythnos. Roedd hyn yn cynnig mwy o hyblygrwydd i fenywod o ran pryd y gallent adrodd ac yn cynnig amgylchedd diogel lle gallent gael mynediad at wasanaethau eraill. Mae'r ymarferwyr prawf yn treulio gweddill eu hwythnos yn y brif swyddfa brawf. Mae hyn yn eu helpu i gadw cysylltiadau â'r gwasanaeth prawf ehangach.

### 5.2. Gwaith llys

Yn gyffredinol, gwelsom safon weddol dda o adroddiadau llys yn ein sampl; roedd 28 allan o'r 47 a arolygwyd gennym yn cynnig asesiad ac argymhelliad dedfrydu digonol sy'n ystyried rhywedd i'r llys. Roedd y rhan fwyaf wedi'u hysgrifennu fel adroddiadau ysgrifenedig fformat byr, er bod nifer fach yn adroddiadau llafar. Roedd yr arolygwyr yn credu bod y math o adroddiad yn briodol yn y rhan fwyaf o'r achosion. Fodd bynnag, mewn pedwar o'r saith adroddiad llafar, aseswyd bod angen adroddiad ysgrifenedig mwy cynhwysfawr er mwyn sicrhau bod anghenion cymhleth menywod yn cael eu harchwilio'n llawn. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cyhoeddi gwerthusiad yn

ddiweddar o gynllun peilot adroddiadau cyn dedfrydu â'r nod o wella ansawdd adroddiadau cyn dedfrydu a hyder barnwyr ynddynt (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2023d). O dan y cynllun peilot, roedd menywod yn cael eu nodi fel y grŵp blaenoriaeth, ac o ganlyniad, yn cael adroddiad ysgrifenedig yn hytrach na fersiwn llafar. Er bod y gwerthusiad yn dod i'r casgliad bod y rhanddeiliaid i gyd yn cytuno bod menywod yn grŵp blaenoriaeth, ac o ganlyniad ei bod yn hanfodol sicrhau eu bod yn cael cynifer o gyfleoedd ag sy'n bosibl i gael adroddiad cyn dedfrydu o ryw fath, nid oedd yn dweud y dylid defnyddio adroddiadau ysgrifenedig (yn hytrach na llafar) bob amser, gan fod hyn yn dileu barn broffesiynol yr awdur. Mae ein sampl yn dangos, fodd bynnag, bod angen bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r farn hon er mwyn sicrhau bod troseddau menywod yn cael eu deall yn ddigonol a'u dadansoddi i wneud cynigion dedfrydu priodol.

Mae HMPPS wedi creu dogfen i helpu unigolion sy'n paratoi ac ysgrifennu adroddiadau llys am fenywod. Mae'n darparu ychydig o ystadegau am droseddau menywod a chanllawiau i staff ynglŷn â sut i sicrhau eu bod yn ystyried profiadau o drawma fel rhan o'u hasesiad, a materion rhywedd-benodol y dylent eu hystyried. Dywedodd staff llys mewn rhai ardaloedd wrthym eu bod yn gweld hyn yn fuddiol, ond roedd eraill heb fod yn ymwybodol ohono nac o unrhyw strategaeth benodol ar gyfer gweithio gyda menywod. Ychydig o staff llys oedd wedi cael hyfforddiant ar gyfwrdd ac ysgrifennu adroddiadau am fenywod. Roedd rhai wedi cael hyfforddiant am ymarfer ystyriol o drawma, ond nid oedd hyn yn gyson yn yr holl ranbarthau. Ym Manceinion Fwyaf, roedd staff llys wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant ynglŷn ag effaith trawma, a oedd yn cael ei ddarparu gan Gynghrair Cefnogi Menywod Manceinion Fwyaf (GMSWA). Mae'r sefydliad ambarél hwn yn ymgorffori'r naw canolfan menywod sydd yn ardal Manceinion Fwyaf. Dywedodd staff a oedd wedi bod ar yr hyfforddiant hwn eu bod wedi elwa o'r wybodaeth a'r arbenigedd a ddarparwyd gan GMWSA. Mewn rhai ranbarthau, roedd gan dimau llys aelod enwebedig o staff a oedd yn arweinydd ar gyfer gweithio gyda menywod. Rôl yr arweinydd hwn oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i gydweithwyr ynglŷn ag ymarfer gyda menywod, er enghraifft newidiadau yn yr ymyriadau a oedd ar gael. Lle'r oedd gan yr aelod dynodedig o'r staff ddiddordeb mewn gweithio gyda menywod, roedd hyn yn fuddiol; ond mewn ardaloedd eraill, nid oedd y rôl wedi'i diffinio'n dda, ac nid oedd yr aelod o'r staff yn glir ynglŷn â beth i'w ddisgwyl, ac o ganlyniad roedd yn anodd gweld y gwerth roedd yn ei greu.

Roedd y rhan fwyaf o'r swyddfeydd llys yn ceisio dyrannu adroddiadau menywod i aelodau benywaidd o'r staff, os oedd rhai ar gael. Nid oedd yn glir ym mhob achos a oedd rhywun wedi gofyn i'r fenyw a fyddai'n well ganddi gael ei chyfweld gan ddyn ynteu fenyw. O'r 47 adroddiad a arolygwyd gennym, roedd 32 wedi'u hysgrifennu gan fenywod ac wyth gan ddynion. Mewn saith achos, roedd yn amhosibl dweud o'r cofnodion.

Dywedodd awduron adroddiadau cyn dedfrydu mewn nifer o ardaloedd wrthym ei bod yn aml yn anodd cael mynediad at wybodaeth gan asiantaethau eraill fel sail i'w hasesiadau. Roedd gan bob rhanbarth drefniadau yn eu lle i staff llys gael mynediad at wybodaeth gan eu heddlu lleol, er enghraifft hanes o gam-drin domestig; fodd bynnag, gwelsom fod y wybodaeth hon ar goll mewn 13 o'r adroddiadau a arolygwyd gennym. Roedd cael mynediad at gofnodion o'r tu allan i'r ardal heddlu lleol yn anos, gan nad oedd trefniadau lleol ar gyfer hyn. Roedd cael gwybodaeth gan wasanaethau gofal cymdeithasol plant hefyd yn heriol; roedd gwybodaeth yn araf yn cael ei ddarparu ac yn aml iawn roedd y cynnwys yn annigonol i fod yn sail ystyrlon i'r asesiad. Ymateb nodweddiadol a dderbynnid gan staff prawf i'r cwestiwn a oedd plant menyw wedi bod mewn cysylltiad cyn hyn â'u gwasanaethau oedd 'ddim yn gyfredol'. Nid oedd hyn yn caniatáu i'r ymarferwyr ystyried pam roedd y plant wedi dod i'w sylw ac a oedd ymddygiad troseddol presennol y fenyw yn dangos bod unrhyw faterion blaenorol wedi codi eto. Yn ein sampl o adroddiadau llys, roedd gan ddau draean o'r menywod blant. Roedd mwy na'u hanner heb fod yn eu gofal yn barhaol neu dros dro ar adeg eu dedfrydu. Er hyn, ym mhob un bron o'r achosion, aseswyd bod y plant wedi cael eu hystyried yn ddigonol yn yr adroddiad.

## Enghraifft o ymarfer da

Defnyddwyd Jane i orchymyn cymunedol 12 mis ag 20 diwrnod o weithgaredd adsefydlu am beidio ag anfon ei merch sydd yn ei harddegau i'r ysgol. Dyma ei hail euogfarn am drosedd o'r math yma. Roedd yr adroddiad yn dadansoddi perthynas Jane â'i merch ifanc yn drylwyr. Roedd yn archwilio ei phrofiad hi ei hun o'r system ofal a chael ei gwrthod gan ei mam. Roedd hyn wedi arwain at greu cyfeillgarwch yn hytrach na pherthynas rhiant â'i merch, a oedd yn uniongyrchol berthnasol i'w throedd. Roedd gwybodaeth am statws economaidd-gymdeithasol Jane wedi'i chynnwys, a oedd yn nodi bod ganddi blant mewn tair ysgol a dim car, a oedd yn golygu bod y plentyn dan sylw yn gorfod cerdded yn bell i'r ysgol.

Roedd yr adroddiad yn dadansoddi ymddygiad Jane a'i ffordd o feddwl, ac yn hytrach na disgrifio patrwm ymddygiad a oedd yn dod i'r amlwg o ran presenoldeb yn yr ysgol, roedd yr awdur yn edrych ar fwriadau Jane ar gyfer ei phlant. Roedd yn dod i'r casgliad nad oedd absenoldeb o'r ysgol yn fwriadol, ac yn hytrach ei fod yn symptom o broblemau eraill.

Defnyddiodd awdur yr adroddiad wybodaeth gan yr heddlu a'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant. Roedd hyn yn darparu darlun cyfredol o gymhelliant Jane i weithio gyda gwasanaethau gofal cymdeithasol plant. Roedd hyn wedi gwella'n sylweddol, ac roedd y rhwystrau a oedd yn atal presenoldeb yn yr ysgol yn dechrau cael sylw. Datgelodd yr heddlu fod Jane wedi cyflawni trais domestig ac wedi bod yn ddiodefwr, a darparwyd ychydig o gyd-destun, gan nodi rhwystredigaeth Jane ynglŷn â diffyg cyfraniad ariannol ei chyn bartner tuag at eu plant. Nodwyd cryfderau hefyd, gan fod Jane wedi cael gwaith yn ddiweddar am y tro cyntaf mewn 10 mlynedd ac wedi dangos ei pharodrwydd i weithio gyda gofal cymdeithasol plant, nad oedd yn digwydd o'r blaen.

Roedd yr adroddiad hwn yn dangos dull gweithredu sy'n ystyried rhywedd, lle'r oedd yr awdur yn cymryd amser i geisio deall cefndir troseddau Jane yn iawn ac egluro hyn wrth y llys er mwyn cael gorchymyn cymunedol a fyddai'n ei chefnogi hi a'i phlant.

Roedd cael gwybodaeth gan wasanaethau iechyd neu iechyd meddwl yn anodd. Golygai hyn fod awduron adroddiadau llys weithiau'n gorfod dibynnu ar ddisgrifiad y menywod o unrhyw ddiagnosis o gyflyrau iechyd. Roedd y rhan fwyaf o'r staff llys yn cael gwell mynediad at wybodaeth gan wasanaethau cyffuriau ac alcohol. Daethom i'r casgliad mai dim ond 55 y cant o'r adroddiadau llys a arolygwyd gennym oedd yn gwneud defnydd digonol o'r ffynonellau gwybodaeth a oedd ar gael; mewn rhai achosion, roedd gwybodaeth hollbwysig a oedd wedi'i chynnwys mewn asesiadau prawf blaenorol yn cael ei diystyru.

Roedd staff mewn timau llys yn aml yn dweud wrthym eu bod yn teimlo eu bod wedi'u hynysu oddi wrth weddill y gwasanaeth prawf, a bod hyn yn golygu nad oeddent bob amser yn ymwybodol o ymyriadau a gwasanaethau y gellid eu cynnwys mewn gorchymyn cymunedol. Roedd rhai staff llys yn ansicr ynglŷn â pha ymyriadau a oedd ar gael i fenywod, ac nid oedd ganddynt ddigon o wybodaeth i egluro beth y byddai'r rhain yn ei olygu i'r fenyw. Mewn rhai achosion, roedd y diffyg gwybodaeth yma hefyd yn effeithio ar argymhellion ar gyfer gwaith di-dâl; er enghraifft, roedd awduron adroddiadau llys yn ansicr a ellid darparu ar gyfer menywod â chyflyrau iechyd neu ymrwymadau gofal plant, ac yn diystyru gofynion gwaith di-dâl pan allai'r rhain fod wedi bod yn fuddiol. Mewn ardaloedd â thîm menywod arbenigol, roedd staff llys weithiau'n ymgynghori â hwy i drafod cynigion dedfrydu. Er hyn, roedd y dull gweithredu hwn yn anghyson, ac nid oedd gan bob ardal arbenigwyr i'w defnyddio. Yn yr un modd, dywedodd staff a oedd yn darparu ymyriadau wrthym mai yn anaml y cysylltir â hwy i drafod anghenion menywod. Mewn rhai achosion, roedd y diffyg ymgynghori yn golygu bod menywod yn gorfod mynd yn ôl i'r llys gan fod gofynion anaddas wedi'u cynnwys. Yng Ngorllewin Berkshire, roedd gan y gwasanaeth prawf drefniant ag Alana House, y ganolfan fenywod leol yn Reading, i ddarparu asesiadau cyn dedfrydu. Roedd y ganolfan menywod hefyd yn argymhell gwasanaethau y gellid cysylltu menywod â hwy tra oeddent ar

orchymyn cymunedol, er mwyn cryfhau argymhellion, yn enwedig lle'r oedd menywod yn wynebu risg o garchar. Yn siomedig iawn, nid oedd pob awdur yn gwybod am y gwasanaeth hwn ac yn ei ddefnyddio. Roedd barn awduron adroddiadau llys am y Fframwaith Cynigion Effeithiol, plattfform digidol â'r bwriad o sicrhau bod ymyriadau cyson ac effeithiol yn cael eu gwneud wrth ddedfrydu, yn amrywio; roedd rhai'n teimlo ei fod yn offeryn gwirio defnyddiol er mwyn sicrhau eu bod wedi rhoi ystyriaeth lawn i'r holl opsiynau, ond roedd eraill yn teimlo nad oedd yn ychwanegu llawer at ansawdd eu hargymhellion.

Ym Manceinion Fwyaf, gwelsom enghraifft ragorol o waith llys arloesol yn defnyddio dull system gyfan yn cynnwys y gwasanaeth prawf, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF a Chynghrair Cefnogi Menywod Manceinion Fwyaf pan ymwelsom â'r llys datrys problemau menywod. Mae'r model yn cael effaith gadarnhaol ar y menywod sy'n gysylltiedig ag ef, a gellid defnyddio llawer o elfennau ohono, er enghraifft cynnig canmoliaeth, modelu sy'n hybu ymddygiad cymdeithasol cadarnhaol a dathlu llwyddiant. Mae trosolwg i'w weld isod.

### Enghraifft o ymarfer da

Fel rhan o'i ddull system gyfan ehangach, mae Awdurdod Cyfunol Manceinion Fwyaf wedi gweithredu llys datrys problemau (PSC) am y naw mlynedd diwethaf. Mae'r cynllun wedi'i anelu at fenywod sy'n wynebu perygl o gael eu dedfrydu i gyfnod byr yn y ddalfa, neu orchymyn cymunedol lefel ganolig i uchel, sydd ag anghenion cymhleth yn gysylltiedig â'u troseddu. Lle bo menywod yn dangos mwy o gymhelliant i fynd i'r afael â'u problemau, gellir ychwanegu gofyniad ar gyfer y llys datrys problemau at eu gorchymyn, lle byddant yn mynychu ar gyfer adolygiadau bob chwe i wyth wythnos. Cynhelir adolygiadau mewn ystafell llys wedi'i haddasu lle bydd ynadon yn eistedd o amgylch bwrdd gyda staff prawf a'r fenyw y mae ei sefyllfa'n cael ei hadolygu. Dyrennir gweithiwr allweddol mewn canolfan fenywod i fenywod sydd â gofyniad llys datrys problemau, a bydd y gweithiwr allweddol yn cefnogi ei hanghenion ochr yn ochr â'r ymarferydd prawf dynodedig. Ar gyfer pob adolygiad bydd yr ymarferydd prawf yn darparu adroddiad cynnydd sy'n disgrifio'r cynnydd a wnaethpwyd ac yn nodi unrhyw feysydd i'w gwella. Bydd yr ynadon sy'n gwneud yr adolygiad yn defnyddio'r adroddiad fel sail i gefnogi ac annog y fenyw i ddefnyddio'r holl wasanaethau sydd ar gael er mwyn dal i wneud cynnydd. Lle bo angen, byddant yn siarad am ganlyniadau posibl peidio ag ymgysylltu. Mae dros 400 o fenywod wedi cwblhau eu gofynion dan y cynllun hwn yn llwyddiannus er 2017 ac yn 2021 roedd y gyfradd aildroseddu ar gyfer oedolion benywaidd ym Manceinion Fwyaf yn 15 y cant, o gymharu â chyfartaledd o 20 y cant ar gyfer Cymru a Lloegr.<sup>19</sup> Dangosodd dadansoddiad costau a buddion a gwblhawyd fel rhan o'r gwerthusiad o'r llys datrys problemau fod pob £1 a fuddsoddid er mwyn rhedeg y cynllun yn arwain at arbediad o £17.60 drwy lai o ddefnydd o wasanaethau eraill.

Gwylodd yr arolygwyr y llys datrys problemau ar waith fel rhan o'r gwaith maes, ac roedd ei effaith ar y menywod a oedd yn dod iddo yn amlwg. Roedd derbyn canmoliaeth gan rywun mewn awdurdod am fod yn bresennol neu am wella ei hiechyd a'i ffordd o fyw yn cael effaith sylweddol ar y menywod, rhai ohonynt yn dweud nad oeddent wedi cael llawer iawn o ganmoliaeth yn ystod eu hoes, yn enwedig gan rywun mewn awdurdod. Roedd y profiad hefyd yn eu helpu i deimlo'n fwy hyderus a chadarnhaol mewn lleoliadau eraill, er enghraifft llysoedd teulu, lle'r oedd nifer ohonynt wedi cael profiadau negyddol.

Yn y rhan fwyaf o'r achosion a arolygwyd gennym, roedd argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad llys yn cael eu dilyn. Roedd y nifer fach o ddedfrydwyr y gwnaethom eu cyfarfod yn ystod y gwaith maes yn canmol y staff prawf, gan ddweud eu bod bob amser yn ceisio diwallu anghenion y llys er eu bod yn aml yn brin o staff.

<sup>19</sup> Female Offender Strategy Dashboard. Ar gael yn: [Microsoft Power BI](#). Cyrchwyd 27 Mawrth 2024.

### 5.3. Asesu a chynllunio

#### Dyrannu

Roedd y modelau ar gyfer dyrannu achosion menywod yn amrywio ar draws Unedau Cyflawni Prawf. Os oedd tîm menywod arbenigol, neu unigolyn yn canolbwyntio ar reoli menywod mewn tîm cyffredinol, roedd menywod yn cael eu dyrannu i'r tîm neu'r unigolyn hwnnw fel arfer. Fodd bynnag, os oedd nifer o lwythi achosion, neu os nad oedd arbenigeddau, gellid dyrannu menywod i unrhyw ymarferydd a oedd ar gael. Yn ein sampl ni o achosion, gwelsom ymarferwyr benywaidd yn unig yn rheoli'r achosion; fodd bynnag, mewn grwpiau ffocws cyfarfuom â swyddogion gwrywaidd a oedd, neu a oedd wedi bod, yn rheoli menywod. Roeddem yn gobeithio gweld bod rhywun wedi gofyn i'r menywod a fyddai'n well ganddynt gael ymarferydd benywaidd, ond dim ond mewn dau o'r achosion a arolygwyd gennym yr oedd hyn yn amlwg. Mae ymchwil yn cefnogi'r dybiaeth y byddai'r rhan fwyaf o'r menywod wedi hoffi cael swyddog benywaidd; fodd bynnag, nid yw hyn yn digwydd bob amser, felly dylai menywod gael y dewis.

Wrth geisio penderfynu p'un ai swyddog prawf ynteu swyddog gwasanaethau prawf oedd y raddfa staff briodol i reoli'r achosion, roedd rhai rheolwyr yn bryderus y gallai cymhwyso cofrestrau penodol ar gofnod nDelius menyw, yn gysylltiedig â'r ffactorau a oedd yn ei gwneud yn agored i niwed, arwain at fwy o haenau diangen, gan olygu y byddai'n rhaid iddynt gael eu dyrannu i swyddog prawf. Eu pryder oedd bod risg ac angen wedyn yn cyfuno a bod menywod yn cael eu hystyried yn fwy o risg nag ydynt mewn gwirionedd.

#### Asesu

Ar ôl cael eu dyrannu i ymarferydd prawf, dylai pob unigolyn sydd ar brawf gael asesiad o'i anghenion a'r risgiau y mae'n eu hachosi fel sail i gynllunio dedfryd. Byddai arferion da yn cynnwys yr unigolyn sydd ar brawf yn ei asesiad er mwyn sicrhau mwy o siawns y bydd yn cydymffurfio â'i ddedfryd. Gwelsom fod menywod yn cael eu cynnwys yn eu hasesiad a'u barn yn cael ei hystyried mewn ychydig yn fwy na hanner yr achosion a arolygwyd; yn annisgwyl, roedd menywod a oedd yn cael eu rheoli gan ymarferwyr a oedd yn ystyried eu hunain yn arbenigwyr menywod yn cael eu cynnwys yn eu hasesiadau yn llai aml. Roedd llai na hanner yr asesiadau yn dadansoddi cymhelliant y fenyw a'i pharodrwydd i ymwneud â'i dedfryd yn ddigonol. Yn aml iawn roedd hyn yn golygu nad oedd rhwystrau y gellid eu rhagweld i'w llwyddiant yn cael eu hystyried a'u lleihau. Roedd cryfderau menywod yn cael eu nodi gan mwyaf, ac roedd ffactorau a oedd yn gysylltiedig â'u troseddu'n cael eu nodi'n gywir yn y rhan fwyaf o'r achosion a arolygwyd gennym. Roedd *Better Outcomes for Women Offenders* (Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr, 2015) yn nodi saith angen blaenoriaethol y dylai ymyriadau a chymorth eu targedu er mwyn symud menywod oddi wrth droseddu. Y rhain yw: mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau, mynd i'r afael ag anghenion iechyd meddwl, adeiladu sgiliau rheoli emosiynau, helpu menywod i ddatblygu a chynnal hunaniaeth sy'n hybu ymddygiad cymdeithasol cadarnhaol, gwella gallu i reoli bywydau a chyflawni nodau, gwella cyswllt â theuluoedd, a helpu menywod i ailsefydlu a datblygu cyfalaf cymdeithasol. Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r ffactorau hyn yn cael eu hystyried yn dda. Yr eithriad oedd datblygu hunaniaeth sy'n hybu ymddygiad cymdeithasol cadarnhaol, a oedd yn cael ei ystyried yn ddigonol mewn dim ond 35 y cant o'r achosion perthnasol.

Mae troseddau menywod yn cynnwys risg o niwed i eraill yn llai aml na throseddau dynion. Er hyn, mae rhai menywod yn cyflawni troseddau difrifol. Roedd wyth ar hugain o'r menywod yn ein sampl wedi cyflawni troseddau treisgar, ac roedd 14 wedi'u hasesu fel rhai a oedd yn achosi risg uchel o niwed i eraill. Mewn ychydig yn fwy na thri chwarter yr achosion a arolygwyd gennym, roedd lefel y risg o niwed a bennwyd yn rhesymol; roedd y gweddill wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng cael eu hystyried yn rhy uchel neu'n rhy isel. Themâu cyffredin ymhlith y rhai roeddem yn anghytuno â hwy oedd nad oedd agweddau ar amgylchiadau presennol y fenyw yn cael eu hystyried yn llawn yn yr asesiad. Er enghraifft, mewn rhai achosion, roedd ffactorau yn gysylltiedig â throseddau'r fenyw yn bresennol o hyd, ond roedd eu lefel risg wedi'i gostwng heb eglurhad digonol. Mewn rhai achosion, roedd ffactorau pwysig ym mywydau'r menywod a oedd yn lleihau'r tebygolrwydd y byddent yn achosi rhagor o niwed nad oeddent yn bresennol mwyach, ond nid oedd hyn wedi'i gydnabod yn eu

hasesiad. Daethom i'r casgliad nad oedd yr asesiad mewn 39 y cant o'r achosion wedi nodi'n gywir a dadansoddi'r risg o niwed difrifol yr oedd y menywod yn ei achosi i eraill. Roedd ymarferwyr menywod arbenigol yn fwy aml yn darparu asesiadau gwell o ffactorau yn gysylltiedig â'r risg o niwed na chymheiriaid anarbenigol. Yn ogystal, aseswyd bod ychydig yn fwy na hanner yr asesiadau wedi asesu risgiau i ddiodefwyr a diodefwyr posibl yn ddigonol.

Lle gwelsom ddiffygion mewn asesiadau, roedd y rhain yn aml yn ymwneud â methiant i ddadansoddi gwybodaeth hysbys yn llawn. Er enghraifft, roedd digwyddiadau pwysig ym mywydau'r menywod fel arfer wedi'u cynnwys ond nid oedd dadansoddiad i archwilio eu heffaith. Roedd enghreifftiau o hyn yn cynnwys digwyddiadau trawmatig yn ystod plentynod, profiad o ofal, geni plentyn a cholli plentyn. Nid oedd yr asesiadau'n ystyried sut roedd yr unigolyn wedi cael ei effeithio, pa gymorth roedd wedi ei gael i wella na sut roedd y profiadau hyn yn dal i effeithio arno ac yn cysylltu â'i ymddygiad troseddol. Nid oedd asesiadau'n rhoi ystyriaeth ddigonol i drawma yr oedd y menywod wedi ei brofi mewn 47 y cant o'r achosion a arolygwyd.

Daethom i'r casgliad bod llai na hanner yr asesiadau'n darparu darlun cywir, sy'n ystyried rhywedd yn ddigonol, o risgiau ac anghenion y menywod hyn, ac roedd hyn hyd yn oed yn is ar gyfer menywod Du ac ethnig leiafrifol.

## Cynllunio

Rydym yn disgwyl i bobl sydd ar brawf gael cynlluniau yn eu lle sy'n mynd i'r afael â'u hanghenion, y risgiau maent yn eu hachosi a'u diogelwch a'u lles. Ar gyfer menywod, rydym yn disgwyl i'r cynlluniau hyn nodi gweithgareddau rhywedd-briodol â'r nod o'u helpu i symud oddi wrth ymddygiad troseddol a byw'n ddiogel yn y gymuned. Yn rhy aml o'r hanner, nid oedd menywod yn cael eu cynnwys wrth gynllunio eu dedfryd ac nid oedd eu cymhelliant a'u parodrwydd yn cael ei ystyried yn ddigonol. Roedd cynlluniau mewn ychydig yn llai na hanner yr achosion a arolygwyd yn adeiladu ar gryfderau a ffactorau amddiffynnol menywod, er bod ffactorau a oedd yn gysylltiedig â throseddu yn cael sylw yn y rhan fwyaf o'r achosion. Y meysydd angen y teimlid nad oedd sylw digonol yn cael ei roi iddynt amlaf oedd iechyd meddwl, datblygu hunaniaeth sy'n hybu ymddygiad cymdeithasol cadarnhaol a gwella cyswllt â theulu. Roedd cynlluniau'n fwy tebygol o fynd i'r afael â materion yn gysylltiedig â throseddu cyffredinol na materion yn gysylltiedig â risg o niwed, a hyd yn oed yn llai tebygol o roi sylw digonol i ddiogelwch a lles y menywod, lle'r oedd mwy na'u hanner yn annigonol. Mewn rhai achosion, nid oedd cynlluniau'n ymgorffori gweithgareddau a oedd wedi'u nodi mewn adroddiadau cyn dedfrydu i fynd i'r afael â risgiau ac anghenion menywod. Ar gyfer menywod a oedd wedi cael eu goruchwyllo yn flaenorol gan y gwasanaeth prawf, nid oedd cynlluniau bob amser yn ystyried sut roedd peidio â chydymffurfio yn y gorffennol wedi bod yn sail i'r cynllun presennol. Mewn rhai achosion, nid oedd tystiolaeth o gynllunio tan fisoedd i mewn i'r ddedfryd. Mae enghraifft o gynllunio annigonol i'w gweld isod.

### Enghraifft o ymarfer gwael

Roedd Di wedi'i dedfrydu i orchymyn cymunedol 12 mis ar ôl achosi difrod troseddol i gar ei modryb pan oedd dan ddylanwad alcohol. Roedd ganddi nifer o droseddau blaenorol a oedd yn cynnwys trais ac ymddygiad ymosodol ar ôl yfed gormod o alcohol. Roedd Di wedi cael anhawster i ymdopi ers colli ei mam, ac roedd ei defnydd o alcohol wedi cynyddu.

Er bod yr ymarferydd wedi trafod cynlluniau ar gyfer gorchymyn Di gyda hi, nid oedd wedi ystyried ei chryfderau a ffactorau amddiffynnol; er enghraifft, roedd eisoes wedi dechrau ymwneud yn wirfoddol â sefydliad yn cefnogi pobl a oedd yn camddefnyddio sylweddau. Roedd cynlluniau'n nodi bod angen mynd i'r afael â defnydd o alcohol, ond nid oeddent yn nodi sut y byddai hyn yn digwydd na sut y byddai cynnydd yn cael ei fesur. Nid oedd y cynlluniau ychwaith yn ystyried y materion y tu ôl i ddefnydd Di o alcohol. Roedd Di wedi bod yn ddiodefwyr cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac roedd wedi ceisio diweddu ei hun yn y gorffennol hefyd; nid oedd yr un o'r meysydd hyn wedi'i ystyried yn y cynllun, ac nid oedd lles emosiynol ac iechyd meddwl wedi'u nodi fel meysydd blaenoriaeth i fynd i'r afael â hwy. Er bod modryb Di wedi bod yn darged

i'w hymddygiad ymosodol, nid oedd cyfeiriad at eu perthynas bresennol na sut y byddai'n cael ei chadw'n ddiogel. Roedd y cynlluniau'n nodi y byddai Di yn cael ei chyfeirio at y darparwr CRS ar gyfer menywod, ond nid oedd yn egluro nodau penodol yr atgyfeiriad na sut y byddai cynnydd yn cael ei asesu. Oherwydd atgyfeiriad o ansawdd gwael at CRS, nid oedd y cynllun gweithredu dilynol yn rhoi sylw digonol i anghenion Di. Roedd llawer o rwystrau posibl a oedd yn atal Di rhag dod i apwyntiadau, er enghraifft roedd ganddi broblemau ariannol a byddai'n gorfod teithio'n bell i ddod i apwyntiadau prawf neu CRS, ond nid oedd sylw wedi'i roi i'r rhain. Nid oedd unrhyw ymyriadau neu weithgareddau eraill wedi'u cynnwys yn y cynlluniau. Mewn cyfweiliad, dywedodd yr ymarferydd nad oedd yn deall sut i ddarparu pecynnau cymorth un-i-un, ac o ganlyniad nid oedd wedi cynnwys y gweithgaredd hwn.

Nid oedd cynllun wrth gefn yn nodi beth fyddai'n digwydd pe na bai Di yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a gynlluniwyd na sut y byddai newidiadau mewn ffactorau sy'n gysylltiedig â risg yn cael eu rheoli.

Yn gyffredinol, teimlai'r arolygwyr bod y cynllunio yn achos Di yn annigonol, gan nad oedd yn rhoi sylw i achosion sylfaenol ei hymddygiad nac yn mynd i'r afael â'i hanghenion penodol.

Lle'r oedd gan fenywod blant dibynnol, gwelsom fod llai na hanner y cynlluniau'n rhoi sylw digonol i bryderon am ddiogelu. Roedd y themâu yma yn cynnwys diffyg manylion ynglŷn â sut y byddai risgiau hysbys i blant yn cael eu rheoli. Pan oedd y plant eisoes yn destun cynlluniau plant mewn angen neu amddiffyn plant, roedd datganiadau cyffredinol, er enghraifft y byddai plant yn cael eu cyfeirio yn ôl at wasanaethau gofal cymdeithasol plant pe bai risgiau'n cynyddu, heb unrhyw fanylion ynglŷn â sut y byddai'r gwasanaeth prawf yn bwydo i mewn i'r gwaith hwn.

Nid oedd digon o fenywod yn cael mynediad at gyfres o ymyriadau a oedd ar gael. Dim ond pedwar cynllun oedd yn cynnwys rhaglen achrededig, roedd saith yn cynnwys ymyriad strwythuredig, ac roedd 11 yn cyfeirio at gynlluniau i ddefnyddio pecyn cymorth - Camau Cyntaf at Newid oedd wyth o'r rhain ac roedd tri heb eu henwi. Lle'r oedd ymyriadau wedi'u cynllunio, roedd yn anghyffredin i weld pa anghenion yn union y bwriedid iddynt fynd i'r afael â hwy na sut y byddai effaith neu gynnydd yn cael ei fesur. O'r 60 o achosion a arolygwyd, nid oedd gan 41 gynlluniau ar gyfer ymyriadau yn cael eu darparu gan brawf; o'r rhain, roedd 20 wedi'u hasesu fel rhai yn achosi risg ganolog o niwed difrifol, 13 risg uchel, ac un risg uchel iawn. Er bod yr arolygwyr wedi nodi dim ond un fenyw arall yn y sampl a allai fod wedi elwa o raglen achrededig, nodwyd saith lle gellid bod wedi cynnig ymyriad strwythuredig a 27 lle gellid bod wedi cynnwys pecyn cymorth wedi'i gymeradwyo yn y cynllun.

Roedd ychydig yn fwy na hanner y menywod wedi cael eu cyfeirio at CRS, ac mewn tua dau draean o'r achosion hyn roedd yr ymarferydd wedi nodi llwybrau priodol yr oedd ar y menywod angen cymorth â hwy. Roedd ansawdd atgyfeiriadau at CRS yn peri rhywfaint o bryder. Dim ond 56 y cant oedd o ansawdd digonol ac yn cynnwys gwybodaeth angenrheidiol am risg. Roedd llai na hanner y cynlluniau gweithredu CRS dilynol yn rhoi sylw digonol i anghenion y menywod.

Yn gyffredinol, roedd llawer o le i wella gweithgaredd cynllunio. Yn rhy aml o'r hanner, nid oedd agweddau pwysig ar risgiau ac anghenion menywod yn cael eu hystyried, a daethom i'r casgliad bod tua dau draean ohonynt ddim yn rhoi sylw digonol i risgiau ac anghenion y fenyw.



## 5.4. Cyflawni dedfrydau

### Trefniadau adrodd

Gwelsom wahaniaethau sylweddol mewn trefniadau adrodd ar gyfer menywod yn ein sampl. Ychydig yn llai na chwarter y menywod gafodd gynnig cyfle i fynd i fannau menywod yn unig ar gyfer pob agwedd ar eu dedfryd. Roedd y rhan fwyaf o'r menywod hyn yn Uned Cyflawni Prawf Stockport a Trafford neu yng Nghaerdydd, lle'r oedd y tîm menywod wedi'i gydleoli mewn canolfannau menywod ar gyfer rhan o'u hwythnos waith os nad y cyfan. Roedd traean arall wedi cael yr un cyfle ar gyfer rhai, ond nid pob un, o elfennau eu gorchymyn. Roedd ychydig yn fwy na thraean heb gael cynnig manau menywod yn unig ar gyfer unrhyw agwedd ar gyflawni eu dedfryd. Nid oeddem bob amser yn gallu dweud a gafwyd sgwrs i drafod beth roedd 'menywod yn unig' yn ei olygu yng nghyd-destun y safleoedd penodol, er enghraifft a allai staff gwrywaidd fod yn bresennol.

Roeddem yn falch o weld bod amllder a natur, er enghraifft, apwyntiadau wyneb yn wyneb neu dros y ffôn a gynigid i fenywod, at ei gilydd yn addas i fodloni eu risgiau a'u hanghenion. Roedd hyn yn ddarlun gwell na chanfyddiadau ein harolygiad craidd yn ystod 2022 a 2023. Roedd yr apwyntiadau at ei gilydd yn ystyrlon. Roeddent yn cysylltu ag anghenion dynodedig y menywod mewn mwy na hanner yr achosion a arolygwyd gennym, ac roedd hanner yr achosion yn dangos ystyriaeth i osod gweithgareddau yn y drefn briodol. Lle'r oedd pobl eraill yn ymwneud â chyflwyno agweddau ar y ddedfryd, roedd yr ymarferwyr yn cadw mewn cysylltiad digonol â hwy mewn mwy na thri chwarter yr achosion a arolygwyd.

Yn ein harolygiad diwethaf o wasanaethau ar gyfer menywod (Arolygiaeth Prawf EM, 2016), argymhellwyd y dylai gwasanaethau prawf<sup>20</sup> gyfeirio menywod at ganolfannau menywod lle bynnag y bo modd. Dim ond 33 y cant o fenywod yn ein sampl gafodd eu cyfeirio at ganolfan menywod. Roedd y defnydd o ganolfannau menywod yn amrywio'n fawr, oherwydd nid oedd gan bob Uned Cyflawni Prawf un yn eu hardal leol; hyd yn oed os oedd ganddynt, mewn rhai achosion, nid oeddent yn cael eu defnyddio'n llawn i hwyluso apwyntiadau prawf, er bod y canolfannau yn agored i hyn mewn llawer o achosion.

### Ymgysylltu

Roedd ymarferwyr prawf yn ymdrechu'n galed yn rheolaidd i alluogi menywod i gwblhau eu dedfryd. Gwelsom fod hyn yn wir mewn 87 y cant o'r achosion a arolygwyd. Roedd y strategaethau a ddefnyddiwyd yn cynnwys hyblygrwydd ynglŷn ag amseroedd a lleoliadau apwyntiadau, er mwyn ystyried amgylchiadau personol y fenyw. Mewn rhai achosion, fodd bynnag, gwelsom nifer fawr o absenoldebau derbyniol, a dim llawer o dystiolaeth o ymdrechion i roi'r gorchymyn yn ôl ar y trywydd cywir. Yn yr achosion gwaethaf, nid oedd menywod yn cael eu gweld am gyfnodau hir ac roedd apwyntiadau'n cael eu symud o un wythnos i'r llall dro ar ôl tro heb wirio'r rheswm pam na allai'r fenyw fod yn bresennol. Yn yr achosion hyn, byddai'r ymarferwyr yn aml yn dweud wrthym eu bod yn credu bod hyn yn gydnaws ag ymarfer ystyriol o drawma, ond teimlem mai camddealltwriaeth oedd hyn ac nad oedd yn helpu'r menywod i deimlo'n ddiogel a deall ffiniau. Dim ond mewn ychydig yn fwy na hanner yr achosion lle'r oedd ei hangen yr oedd gorfodaeth yn cael ei defnyddio'n briodol. Mae cynnig rhywfaint o hyblygrwydd yn gwbl briodol; fodd bynnag, nid yw peidio â gweld y fenyw a chaniatáu i ddedfrydau ddrifftio yn helpu i fynd i'r afael ag achos sylfaenol ei throseddau, felly nid yw'n fuddiol. Mae enghraifft o ymarfer cadarnhaol a oedd yn dangos hyblygrwydd priodol i'w gweld isod.

---

<sup>20</sup> Roedd yr arolygiad hwn yn ystyried gwaith y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn unig, ac o ganlyniad roedd yr argymhelliad yn ymdrin â'n canfyddiadau mewn cysylltiad â hwy.

## Enghraifft o ymarfer da

Cafodd Wendy orchymyn cymunedol 12 mis â diwrnodau gofyniad gweithgaredd adsefydlu. Roedd gan Wendy fywyd prysur, â phlant dibynnol a chyfrifoldebau gofalu am ei mam. Roedd ganddi waith rhan-amser ac roedd hefyd yn ofynnol iddi gwblhau cwrs a mynd i apwyntiadau a orchymynnwyd gan wasanaethau gofal cymdeithasol plant. Cymerodd ymarferydd prawf Wendy amser drwy gydol ei hasesiad i geisio deall ei hymrwymiaid ac ystyried ei ffordd o fyw wrth gynllunio. Ar yr adegau pan oedd Wendy yn cysylltu â hwy i ddweud na allai ddod i'w hapwyntiad, gwneid trefniadau i gyfarfod y diwrnod canlynol. Roedd hyn yn aml yn ymweliad cartref, a oedd yn darparu cyfle i'r ymarferydd wirio nad oedd Wendy yn osgoi'r apwyntiadau oherwydd bod amgylchiadau'n dirywio gartref. Yn ystod gwyliau'r ysgol, gwnaethpwyd trefniadau i sicrhau bod apwyntiadau'n cael eu cynnig ar adegau a oedd yn gweddu i anghenion gofal plant Wendy. Lle bo modd, roedd yr ymarferydd yn cymryd amser i wirio unrhyw resymau dros beidio â bod yn bresennol ac yn rhannu gwybodaeth â gwasanaethau gofal cymdeithasol plant er mwyn sicrhau bod Wendy yn cyflwyno darlun cywir o'i hamgylchiadau yn ystod apwyntiadau prawf. O'r dechrau un, roedd pwyslais ar annog Wendy i feddwl sut y gallai ddod i'r apwyntiadau yr oedd yn ofynnol iddi fynd iddynt, ac roedd ei ymarferydd yn nodi'n glir beth fyddai'n digwydd pe bai'n methu'r apwyntiadau. Rhoddwyd ffiniau clir i Wendy ynglŷn â beth y gellid ei drafod, ac os oedd modd rhoddwyd dewisiadau a oedd yn hyrwyddo perchnogaeth o'i dedfryd. Drwy gydol ei dedfryd, canmolwyd Wendy am gynydd yr oedd wedi ei wneud a chafodd ei hannog i feddwl sut yr oedd hyn wedi bod yn bosibl, er mwyn ei helpu i fynd i'r afael â heriau yn y dyfodol.

Yn gyffredinol, roedd pwyslais da ar adeiladu a chynnal perthnasoedd gwaith effeithiol gyda menywod. Roedd hyn yn llawer gwell mewn Unedau Cyflawni Prawf lle'r oedd y timau menywod yn gweithio o ganolfannau menywod yn hytrach nag mewn Unedau Cyflawni Prawf nad oedd ganddynt y trefniant hwnnw. Roedd elfennau pwysig o adeiladu perthnasoedd yn cynnwys caniatáu digon o amser ar gyfer trafodaeth, gwrandio gweithredol a dangos diddordeb yn y fenyw a'i gobeithion ar gyfer y dyfodol. Canfu ymchwil ar gyfer yr arolygiad hwn a gwblhawyd gan User Voice fod menywod ar brawf yn teimlo bod ymarferwyr yn dangos dealltwriaeth o'u bywydau a'u hamgylchiadau personol yn allweddol er mwyn datblygu perthynas dda. Roedd sylwadau fel yr un isod yn gyffredin ymhlith y rhai a oedd yn teimlo bod ganddynt berthynas dda â'u ymarferydd:

*“Roedd fy mherthynas gyda fy swyddog prawf yn wych ac mae'n fy holi ac yn gwrandio arna i'n siarad am fy mhryderon mewn bywyd ac ynglŷn â beth fydd yn digwydd [...] yn y dyfodol.”*

## Diogelwch a lles

Yn rhy aml o'r hanner, nid oedd ystyriaeth ddigonol i ddiogelwch a lles menywod yn ystod eu dedfryd. Roedd sylw digonol wedi'i roi i gadw'r fenyw'n ddiogel neu fynd i'r afael â'i lles mewn llai na hanner yr achosion a arolygwyd gennym. Roedd y darlun ychydig yn well ar gyfer menywod Du ac ethnig leiafrifol, lle'r oedd y pryderon hyn wedi'u hystyried yn ddigonol mewn ychydig yn fwy na hanner yr achosion. Roedd llawer o'r menywod yn ein sampl wedi profi cam-drin domestig, ac nid oedd hyn yn cael ei ystyried yn llawn bob amser; er enghraifft, pan oedd menywod mewn perthynas dreisgar yn peidio â dod i apwyntiadau prawf, nid oedd hyn bob amser yn ysgogi unrhyw wiriadau lles. Roedd rhai o'r menywod yn ein sampl yn cymryd rhan mewn ymddygiad ag elfen o risg, yn aml oherwydd eu bod yn gaeth i gyffuriau neu alcohol; fodd bynnag, ychydig iawn o dystiolaeth a welsom o ymdrechion i ystyried ffyrdd o leihau niwed posibl yn yr achosion hyn. Lle'r oedd menywod wedi methu â chydymffurfio â'u dedfryd ac ymarferwyr wedi cymryd camau gorfodi ac yn aros am ddyddiad llys, roedd rhai'n teimlo nad oedd angen mwyach iddynt wneud ymdrechion i gysylltu neu ymgysylltu â'r fenyw, er gwaethaf awgrymiadau y gallai fod mewn perygl. Dywedodd un ymarferydd wrthym:

“Ar ôl i mi wneud y gwaith papur torri amodau, fydda i ddim yn meddwl amdany'n nhw eto nes bydd yr achos yn cael ei glywed.”

## Adolygu a chanlyniadau

Roedd llawer o le i wella arferion adolygu. Ychydig iawn o fenywod oedd yn ymwneud ag adolygu eu dedfrydau, ac mewn llawer gormod o achosion, nid oedd ymarferwyr a oedd yn gwneud adolygiadau yn ystyried cynnydd a wnaethpwyd neu'n diwygio cynlluniau i adlewyrchu newidiadau yn y risg o niwed neu angen. Ynglwm wrth yr adroddiad hwn (Atodiad B) mae tabl data sy'n dangos ein barn ynglŷn â chynnydd a wnaethpwyd yn erbyn y meysydd angen blaenoriaethol a nodwyd yn nogfen *Better Outcomes for Women Offenders* (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2015). Roedd yr achosion a adolygwyd gennym ar adegau amrywiol yn eu dedfryd, ac o ganlyniad ni fyddem yn disgwyl gweld llawer lle'r oedd y canlyniadau wedi'u cyflawni'n llawn. Er hyn, cymharol ychydig oedd wedi gwneud cynnydd digonol yn y meysydd a oedd yn berthnasol i'w hanghenion unigol. Rheoli emosiynau ac adeiladu hunaniaeth sy'n hybu ymddygiad cymdeithasol cadarnhaol oedd yr anghenion lle gwnaethpwyd y cynnydd lleiaf.

## 5.5. Cyflawni ymyriadau

Yn gyffredinol, ychydig iawn o enghreifftiau a welsom o ymyriadau yn cael eu cyflawni gan brawf, er bod gan lawer o fenywod yn ein sampl ystod o anghenion y mae'r rhaglen wedi'i chynllunio i'w diwallu.

### Rhaglenni achrededig

Yr unig raglen achrededig sydd ar gael i fenywod yn y gymuned ar hyn o bryd yw'r Rhaglen Sgiliau Meddwl (TSP). Er bod TSP yng nghynllun dedfryd pedair menyw, dim ond dwy oedd wedi derbyn unrhyw ran ohoni. O'r rhain, roedd un wedi bod mewn sesiwn cyn grŵp ac un sesiwn grŵp ond wedi methu â chymryd rhan oherwydd dirywiad yn ei hiechyd meddwl a chynnydd mewn camddefnyddio sylweddau, ac yn y pen draw cafodd ei galw yn ôl i'r carchar. Roedd yr ail fenyw hefyd wedi methu â bod yn bresennol ac roedd y gofyniad wedi'i dynnu ymaith. O ystyried yr amseroedd aros hir a ddisgrifiwyd yn rhannau cynharach yr adroddiad hwn, nid oeddem yn argyhoeddedig bod dal i gynnig TSP fel gofyniad i fenywod yn opsiwn hyfyw, gan fod cyn lleied o fenywod sydd â hyn fel rhan o'u dedfryd yn cael y cyfle i fod yn bresennol, oherwydd yr amseroedd aros hir am grwpiau priodol neu fenywod yn unig. Dywedodd llawer o staff wrthym, er bod gan y menywod hyn anghenion y byddai'r rhaglen yn mynd i'r afael â hwy, eu bod yn aml yn byw bywydau di-drefn, a'i bod yn annhebygol y byddent yn dilyn rhaglen strwythuredig, hir. Mewn un rhanbarth, roedd grŵp TSP wedi dechrau yn ddiweddar gydag wyth o gyfranogwyr, ond bod y nifer wedi gostwng yn fuan i ddim ond tri. Dywedodd staff cyflwyno'r rhaglen wrthym fod menywod sy'n cwblhau'r rhaglen yn cael budd mawr ohoni; fodd bynnag, yn aml iawn, mae'r staff yn gorfod ei chyflwyno drwy ddull amgen, megis sesiynau un-i-un, er mwyn sicrhau bod menywod yn ei chwblhau. Mae hyn yn ymddangos yn ffordd aneffeithlon o fynd i'r afael ag anghenion y menywod ac yn taseilio rhai o ddibenion y gwaith grŵp, er enghraifft cefnogaeth cymheiriaid a her. Mewn rhai ardaloedd dywedwyd wrthym, pan nad oedd menywod yn teimlo'n gyfforddus mewn grŵp rhywedd cymysg, bod yn rhaid iddynt ofyn i'r llys dynnu'r gofyniad, gan fod pwysau staff a niferoedd atgyfeirio isel yn golygu nad oedd modd cynnal grwpiau menywod yn unig. Nid oedd rhai ymarferwyr y gwnaethom eu cyfarfod yn gyfarwydd â chynnwys y rhaglen sgiliau meddwl ac nid oeddent erioed wedi treulio amser yn arsylwi ar waith grŵp. Dywedodd rhai wrthym, pan fyddai menywod yn disgrifio teimladau o orbryder ynglŷn â mynd i grŵp, y byddai hyn weithiau'n cael ei ystyried yn rheswm derbyniol dros beidio â mynd. Nid oedd llawer o ymdrech i geisio goresgyn eu pryderon a'u grymuso i fynd. Nid oedd yr un o'r achosion a arolygwyd gennym wedi cwblhau rhaglen sgiliau meddwl; o ganlyniad, ni allem weld drosom ein hunain sut roedd gwaith dilynol ar ôl y rhaglen yn cael ei gwblhau. Clywsom gan hwyluswyr y rhaglen nad oedd ymarferwyr bob amser yn gwneud hyn yn dda neu'n dal i weithio ar amcanion dilynol, a bod hynny'n lleihau effaith gyffredinol y rhaglen.

## **Ymyriadau strwythuredig**

O'r saith menyw a oedd ag ymyriadau strwythuredig wedi'u cynnwys yn eu cynlluniau, dim ond un fenyw oedd wedi mynychu unrhyw sesiynau ar adeg ein harolygiad. Nid oedd pob rhanbarth yn cynnig un o'r ymyriadau strwythuredig a oedd wedi'u creu'n benodol ar gyfer menywod, ond roedd ymyriadau eraill, er enghraifft y cyrsiau Stepwise, ar gael i'w cyflwyno mewn grwpiau rhywedd cymysg neu fenywod yn unig, gan ddibynnu ar y galw. Mae gan y rhan fwyaf o'r ardaloedd niferoedd isel o fenywod yn cael eu hatgyfeirio; o ganlyniad, ychydig iawn o ymyriadau strwythuredig sy'n cael eu cynnig. Gan fod ymarferwyr felly'n amau a fydd yr ymyriadau'n cael eu darparu, maent yn gyndyn o gyfeirio, ac mae cylch dieflig yn datblygu.

Mewn rhai rhanbarthau, roedd staff y rhaglen yn gweithio drwy restrau o'r holl fenywod er mwyn ceisio nodi'r rhai a oedd yn addas ar gyfer ymyriadau strwythuredig er mwyn cynhyrchu atgyfeiriadau; roedd ymarferwyr yn yr ardaloedd hynny'n tueddu i wybod ychydig am ymyriadau strwythuredig na beth oedd y meini prawf cymhwysedd, gan eu bod yn disgwyl i rywun arall ddweud wrthynt a ddylai menywod fod yn mynd iddynt. Mewn un rhanbarth, dywedodd ymarferwyr wrthym fod disgwyl iddynt gyfeirio pob menyw at ymyriad strwythuredig. Nid oedd hyn yn bodloni ein disgwyliadau ynglŷn â chynllunio dedfrydau wedi'u personoli a chyflwyno sydd â nodau clir. Dywedodd hwyluswyr a rheolwyr rhaglenni wrthym nad oedd yr ymyriadau strwythuredig cyffredinol fel petaent wedi'u cynllunio ar gyfer menywod; er enghraifft, roedd pob clip fideo a ddefnyddid yn defnyddio dynion. Mae'r diffyg ystyriaeth o bosibl yn dechrau o'r cam dedfrydu, gan fod yr ymyriadau'n cael eu darparu fel rhan o ddiwrnodau gofyniad gweithgaredd adsefydlu. Nid yw'r ymyriad strwythuredig penodol wedi'i nodi yn yr adroddiad llys, a dywedodd llawer o staff llys wrthym nad oeddent yn gyfarwydd â manylion pob cwrs. Gan nad ydynt yn ofynion sy'n cael eu gorfodi gan y llys yn yr un modd â rhaglenni achrededig, mae llai o fecanweithiau ffurfiol (ar wahân i oruchwyliaeth achosion unigol gan y rheolwyr) i sicrhau eu bod yn cael eu darparu. Yn ogystal, dywedodd ymarferwyr prawf wrthym eu bod yn aml yn ansicr sut i benderfynu beth yw'r ffordd orau o ddiwallu anghenion menywod, p'un ai drwy ymyriadau strwythuredig ynteu drwy grwpiau a gynigir drwy'r ddarpariaeth CRS.

## **Pecynnau cymorth ymarferwyr**

Fel yn achos yr ymyriadau eraill, ychydig o becynnau cymorth ymarferwyr a welsom yn cael eu darparu yn yr achosion a arolygwyd gennym. Roedd cynlluniau ar gyfer 11 menyw yn dweud y byddai pecyn cymorth yn cael ei ddarparu, ond dim ond dwy oedd ag unrhyw dystiolaeth bod hyn wedi'i wneud yng nghofnodion yr achos. Roedd barn ymarferwyr ynglŷn â'r Pecyn Cymorth Camau Cyntaf at Newid yn amrywio, a mynegwyd diffyg hyder i'w ddarparu yn aml. Roedd rhai rhanbarthau wedi darparu sesiynau briffio neu weithdai i ymgysgu ymarferwyr â'r cynnwys. Fodd bynnag, roedd rhai ymarferwyr yn dal i ddweud bod angen iddynt wybod mwy am dechnegau darparu, gan nad oeddent wedi darparu ymyriadau fel mater o drefn fel rhan o'u hymarfer. Roedd hyn yn amlwg iawn ymhlith y staff mwy newydd. Rheswm arall dros y defnydd isel o'r pecyn cymorth oedd y fframwaith blaenoriaethu ar gyfer rheoli dedfrydau: os oes gan Uned Cyflawni Prawf statws coch neu oren oherwydd lefelau staffio isel, ni ddisgwylir i'r pecyn cymorth gael ei ddarparu.

## **Gwaith di-dâl**

Yn ein sampl roedd 11 o fenywod â gofynion i gwblhau gwaith di-dâl. Fel rhan o'r broses gynefino, dylid nodi lleoliad priodol. Dylai hyn ystyried a fyddai'n well gan y fenyw gael man menywod yn unig i gwblhau ei horiau, naill ai mewn lleoliad unigol neu fel rhan o brosiect grŵp. Mae rhai menywod yn fodlon gweithio fel rhan o grŵp rhywedd cymysg, ond mae'n bwysig ystyried hyn yn ofalus. O'r achosion yn ein harolygiad, gwelsom fod lleoliadau rhywedd-briodol wedi cael eu hystyried yn ddigonol mewn dau yn unig. Gwelsom achosion lle'r oedd gofynion gwaith di-dâl wedi gorfod cael eu dychwelyd i'r llys i gael eu dileu, gan fod yr unig leoliadau priodol ar gyfer menywod yn anhygyrch oherwydd diffyg trafndiaeth. Mewn rhai achosion, roedd y ddedfryd wreiddiol wedi'i rhoi heb gynnwys prawf, gan olygu na fyddai'r fenyw o bosibl wedi bod yn addas i gwblhau gofyniad gwaith di-dâl. Mewn dau ranbarth dywedwyd wrthym am y gyfran isel o fenywod ag oriau gwaith

di-dâl i'w cwblhau a oedd wrthi'n gwneud hynny, er bod data cenedlaethol yn dangos bod gan fenywod fel arfer raddfa gydymffurfio uwch na dynion.

Mewn achosion eraill, roedd adroddiad wedi'i wneud ond heb unrhyw gyfathrebu penodol rhwng awdur yr adroddiad a'r tîm gwaith di-dâl i benderfynu a oedd gofyniad yn briodol neu'n bosibl i'w gyflawni. Mewn nifer o achosion roedd menyw wedi gofyn yn benodol am gael lleoliad menywod yn unig ond wedi cael ei lleoli mewn grŵp cymysg. Mae enghraifft i'w gweld isod.

### Enghraifft o ymarfer gwael

Roedd Anya wedi cael gorchymyn dedfryd ohiriedig 24 mis â gofynion i gwblhau 180 awr o waith di-dâl a 40 diwrnod o ofyniad gweithgaredd adsefydlu am droseddau twyll. Roedd ganddi euogfarnau blaenorol tebyg. Dywedodd Anya ei bod wedi cael diagnosis o anhwylder straen ar ôl trawma a bod ganddi gyflyrau iechyd eraill. Gofynnodd am gael ei lleoli ar leoliad menywod yn unig i gwblhau ei horiau o waith di-dâl. Er hyn, roedd ei hasesiad gwaith di-dâl yn nodi:

'Nid yw'n addas ar gyfer lleoliad unigol oherwydd ei heuogfarn ac euogfarnau blaenorol. Dim grwpiau gwaith menywod yn unig oherwydd nifer y staff.'

Cafodd Anya ei rhoi mewn grŵp gwaith rhywedd cymysg. Ar un safle, mynegodd bryder ynglŷn â'r toiledau, a gafodd eu gwirio yn dilyn hynny gan aelod gwrywaidd o'r staff a benderfynodd eu bod yn briodol iddi eu defnyddio. Tynnodd luniau o'r cyfleusterau i gefnogi ei benderfyniad. Dywedodd wrth ymarferydd prawf Anya ei fod wedi dweud os nad oedd ar Anya eisiau defnyddio'r cyfleusterau, gallai adael y safle a dod o hyd i leoliad arall, ond y gallai hynny arwain at gamau gorfodi oherwydd ei bod yn gadael y safle. Anfonodd Anya ebost at ei hymarferydd prawf yn mynegi pryder ynglŷn â'r cyfleusterau ac yn gofyn iddi ddod i'w harchwilio; dywedodd fod ei chyflwr meddygol yn golygu bod arni angen mynediad rheolaidd at doiled a'i bod yn anghyfforddus â hwy. Eglurodd Anya mai dyma'r trydydd tro iddi gwyno am y cyfleusterau. Dywedodd:

"Ystyriwch mai fi yw'r unig fenyw yn gweithio ar ddydd Sul gyda 10 dyn arall, ond does neb yn deall fy sefyllfa."

Er gwaetha'r cais hwn, roedd yn dal i gael cyfarwyddyd i ddefnyddio'r toiledau hyn, ac nid oedd tystiolaeth bod ei hymarferydd prawf wedi trafod ei phryderon gyda hi. Daeth yr arolygwyr a oedd yn adolygu'r achos i'r casgliad fod y sefyllfa hon wedi'i thrin yn wael. Yn y lluniau a gymerwyd gan y goruchwyliwr gwaith di-dâl i gefnogi ei asesiad bod y cyfleusterau yn addas, nid oedd yn ymddangos bod biniau nwyddau mislif er mwyn gwaredu cynnyrch hylendid menywod, rhywbeth y mae'n bosibl na fyddai Anya wedi teimlo'n gyfforddus yn ei drafod â staff gwrywaidd; fodd bynnag, ni fu unrhyw drafodaeth.

Mewn rhai achosion, roedd gwaith papur cynefino ac asesu yn cynnwys gwybodaeth anghyson a gwrthgyferbyniol, ac roedd rhai adrannau heb eu cwblhau. Roedd y diffyg sylw i fanylion mewn rhai achosion yn arwain at asesiadau o ansawdd gwael. Mewn rhai rhanbarthau, roedd sesiynau cynefino gwaith di-dâl yn cael eu cwblhau mewn grwpiau, heb unrhyw ddarpariaeth ar gyfer menywod nad oeddent yn teimlo'n gyfforddus mewn grwpiau rhywedd cymysg. Er bod staff unigol weithiau'n sicrhau bod menywod a oedd yn gofyn am beidio â chael eu rhoi mewn grŵp cymysg yn cael sesiwn cynefino unigol, nid oedd cysondeb. Roedd yn dibynnu ar ofyn cwestiynau i'r fenyw mewn ffordd a oedd yn ei gwneud yn ddigon cyfforddus i fod yn onest am ei theimladau.

Roedd yr ystod o leoliadau a oedd ar gael ar gyfer menywod yn amrywio'n fawr. Nid oedd gan rai rhanbarthau lawer i'w gynnig i fenywod nad oeddent yn teimlo'n gyfforddus mewn grwpiau cymysg oherwydd camdriniaeth flaenorol neu brofiadau negyddol gyda dynion ond nad oeddent yn cael eu hystyried yn addas ar gyfer lleoliadau unigol. Mae'r rhain fel arfer yn cael eu hwyluso mewn siopau elusen, ond yn aml ni fyddant yn derbyn menywod sydd ag euogfarnau sy'n gysylltiedig â dwyn neu

drais. Roedd gan rai rhanbarthau leoliadau rhagorol i fenywod gwblhau eu horiau, a oedd yn darparu cyfleoedd ystyrion i fenywod roi rhywbeth yn ôl i gymdeithas a datblygu sgiliau newydd. Yn Uned Cyflawni Prawf Gorllewin Berkshire, gallai nifer fach o fenywod gwblhau eu horiau yn y ganolfan fenywod leol, Alana House. Roeddent wedi cwblhau hyfforddiant barista coffi ac roeddent yn rhedeg siop goffi fach yn y cyfleustra. Mewn canolfannau menywod eraill, roedd menywod yn defnyddio oriau gwaith di-dâl i ddiolli dillad a oedd wedi'u cyfrannu neu wneud 'pecynnau urddas', sy'n darparu cyflenwadau hanfodol i gefnogi anghenion hylendid sylfaenol i'r rhai sydd mewn angen. Yn y Canllaw Ymarfer Effeithiol sy'n gysylltiedig â'r adroddiad hwn, rydym hefyd wedi rhoi sylw i brosiect coginio yn y Barri, yn ne Cymru, a oedd yn defnyddio eitemau o fwyd a oedd wedi'u cyfrannu i ddarparu prydau poeth i'r gymuned leol fel rhan o'r ddarpariaeth banc bwyd. Ar adeg ein hymweliad ni, roeddent newydd ddarparu pryd bwyd rhif 2,000. Er nad oedd y lleoliad ar gyfer menywod yn unig, roedd yn darparu lleoliad addas ac ystyrion lle'r oedd menywod yn dysgu sgiliau newydd ac yn gallu gweld effaith gadarnhaol eu gwaith.

## 5.6. Gwasanaethau

Roedd ychydig yn fwy na hanner y menywod yn ein sampl a oedd angen cymorth gan wasanaethau adsefydlu wedi'u comisiynu (CRS) wedi cael eu cyfeirio, er bod cyfraddau atgyfeirio yn amrywio ar draws yr Unedau Cyflawni Prawf ac nid oedd pob atgyfeiriad wedi arwain at ddarparu sesiynau. Mewn ychydig dros chwarter yr achosion, roeddem yn teimlo bod digon o gynnydd wedi'i wneud wrth ddarparu gwasanaethau adsefydlu wedi'u comisiynu; fodd bynnag, mewn tua thraean ohonynt nid oedd digon o gynnydd wedi'i wneud, yn bennaf gan nad oedd y fenyw yn cydymffurfio ag apwyntiadau. Mewn 39 y cant arall, roedd cynnydd yn annigonol oherwydd y diffyg cyfle a oedd wedi'i gynnig, drwy atgyfeiriad hwyr neu ddiffyg apwyntiadau.

Nid oedd staff CRS yn cael mynediad wedi'i gyfeirio at systemau rheoli ac asesu achosion prawf staff, ac roedd hynny'n amharu ar y broses atgyfeirio. Clywsom gan ddarparwyr amrywiol nad oedd atgyfeiriadau yn aml yn cynnwys yr holl wybodaeth yr oedd arnynt ei hangen, ac nid oedd modd iddynt wirio neu ychwanegu manylion ac eithrio drwy wrthod yr atgyfeiriad, er bod y rhan fwyaf yn teimlo bod ansawdd atgyfeiriadau yn gwella. Ar gyfer rhai darparwyr a oedd wedi gweithio gyda gwasanaethau prawf o'r blaen, roedd diffyg mynediad at systemau yn gam yn ôl, gan fod llawer wedi cael mynediad wrth weithredu dan gontractau blaenorol. Roedd staff CRS yn dibynnu ar ymarferwyr prawf i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am unrhyw newidiadau neu bryderon a oedd yn dod i'r amlwg ym mywydau'r menywod yr oedd angen iddynt wybod amdanynt, gan na allent weld unrhyw wybodaeth a oedd wedi'i chofnodi ar ôl yr atgyfeiriad cychwynnol neu hyd yn oed wybod pryd roedd apwyntiad nesaf y fenyw gyda'i hymarferydd prawf. Nid oedd cofnodi apwyntiadau CRS bob amser yn nodi'n glir pa elfennau o'u cynllun gweithredu oedd yn cael eu hystyried, na sut roedd y cyswllt yn ychwanegu rhywbeth ychwanegol at yr apwyntiadau arddull 'sgwrs' roedd y fenyw yn eu cael gyda'i hymarferydd prawf.

Mewn rhai achosion, gwelsom gynnydd wrth ddarparu CRS, a menywod nad oeddent wedi cydymffurfio ag apwyntiadau prawf o'r blaen yn ymgysylltu â'r ddarpariaeth. Mae enghraifft i'w gweld isod.

### Enghraifft o ymarfer da

Roedd Lara wedi cael gorchymyn dedfryd ohiriedig 18 mis â 35 diwrnod o ofyniad gweithgaredd adsefydlu yn dilyn euogfarn am aflonyddu. Roedd ganddi nifer o euogfarnau blaenorol am droseddau treisgar yn gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol. Roedd gan Lara ddibyniaeth ar alcohol ers tro byd, ac roedd wedi profi nifer o berthnasoedd camdriniol a chyfnodau hir o fod yn ddigartref. Roedd presenoldeb Lara mewn apwyntiadau prawf wedi bod yn anghyson. Cyfeiriwyd Lara at Ymddiriedolaeth Nelson dan y ddarpariaeth CRS. Roedd ei hapwyntiadau'n canolbwyntio ar y meysydd angen pwysicaf, yn fwyaf arbennig lle i fyw a pherthnasoedd. Roedd Lara wedi dibynnu ar bartneriaid am rywle i fyw, gan nad oedd yn credu y gallai ymdopi ar ei phen ei hun. O ganlyniad i hyn roedd wedi cael ei dal mewn perthnasoedd lle'r oedd yn cael ei cham-drin. Roedd

staff CRS yn gosod nodau bach wrth weithio gyda Lara er mwyn anelu at nodau mwy, ac roedd yn ymateb yn dda i'r ganmoliaeth a roddid iddi pan fyddai'n cwblhau tasgau. Roedd gan Lara bryderon ynglŷn â rheoli ei llety ei hun, ond â chefnogaeth a chymhelliant datblygodd ei hyder a chafodd ei thenantiaeth ei hun. Dechreuodd ymarferydd prawf Lara drefnu apwyntiadau i gyd-fynd ag apwyntiadau Ymddiriedolaeth Nelson, heb fod yn y swyddfa brawf. Gwellodd ei phresenoldeb a'i hymgysylltiad yn yr apwyntiadau hynny hefyd.

Nid oedd menywod bob amser wedi'u paratoi'n ddigonol ar gyfer apwyntiadau CRS; er enghraifft, nid oeddent yn deall eu pwrpas neu eu statws. Mewn achosion mwy llwyddiannus, gwelsom yn aml apwyntiadau ac ymdrechion ar y cyd i geisio helpu menywod i ddeall beth oedd bwriad CRS.

Yn ogystal â CRS, roedd ychydig yn fwy na thraean o'r menywod yn ein sampl hefyd wedi cael eu cefnogi gan wasanaethau ychwanegol. Gwasanaethau cymorth ag iechyd meddwl neu broblemau cyffuriau ac alcohol oedd y rhain gan amlaf, ond roedd gan rai ardaloedd hefyd gysylltiadau cryf â gwasanaethau yn darparu cymorth i weithwyr rhyw. Roedd gan ymarferwyr lefelau amrywiol o wybodaeth am wasanaethau cymorth arbenigol a oedd ar gael i fenywod yn yr ardal leol, er enghraifft i fenywod o leiafrifoedd ethnig. Roedd y rhan fwyaf o'r ymarferwyr yn gallu enwi rhai gwasanaethau. At ei gilydd roedd gan y rhai mewn timau menywod arbenigol fwy o wybodaeth na'r rhai nad oeddent mewn timau o'r fath.

## 5.7. Casgliadau a goblygiadau

Er bod adroddiadau llys ar gyfer menywod fel arfer yn darparu asesiad sy'n rhoi ystyriaeth ddigonol i rywedd, roedd argymhellion i'r llys yn cael eu heffeithio weithiau gan ddiffyg gwybodaeth gyfredol yr awdur am opsiynau dedfrydu. Collid cyfleoedd i gynnwys menywod mewn asesiadau a gwaith cynllunio, gan olygu nad oedd digwyddiadau bywyd arwyddocaol ac amgylchiadau'r menywod yn cael eu dadansoddi'n ddigonol er mwyn deall eu heffaith ar eu bywydau a'u hymddygiad troseddol. Mae angen i ymarferwyr fod yn gliriach ynglŷn â sut i ddewis yr opsiynau gorau i fynd i'r afael â throeddau menywod, ac a ddylid defnyddio gwasanaethau adsefydlu wedi'u comisiynu ynteu ymyriadau mewnol. Mae angen mwy o bwyslais ar archwilio hunaniaethau unigol menywod ac adeiladu ffyrdd o fyw sy'n hybu ymddygiad cadarnhaol, ond nid oes digon o ddefnydd yn cael ei wneud o ymyriadau a gwasanaethau sydd ar gael i gefnogi hyn. Rydym yn bryderus nad yw menywod sydd wedi mynegi pryder ynglŷn â bod mewn manau rhywedd cymysg o ganlyniad i brofiadau trawmatig blaenorol bob amser yn cael cynnig y dewis o fynd i apwyntiadau prawf neu waith di-dâl mewn lleoliadau priodol, ac nid yw hyn yn dderbyniol. Nid oes ystyriaeth ddigonol bob amser i ddiogelwch a lles menywod. Mae angen gwell cyfathrebu â sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau adsefydlu er mwyn sicrhau bod menywod yn cael dull gweithredu cydgysylltiedig.

## Cyfeiriadau

---

Arolygiaeth Prawf EM. (2011). *Equal but different? An inspection of the use of alternatives to custody for women offenders*. Manceinion: Arolygiaeth Prawf EM. Ar gael yn: <https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/inspections/equal-but-different-an-inspection-of-the-use-of-alternatives-to-custody-for-women-offenders/>

Arolygiaeth Prawf EM. (2016). *Arolygiad thematig o ddarpariaeth ac ansawdd gwasanaethau yn y gymuned ar gyfer menywod sy'n troseddu*. Manceinion: Arolygiaeth Prawf EM. Ar gael yn: <https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/inspections/women2016/>

Arolygiaeth Prawf EM. (2023). *Adroddiad Blynyddol 2022/2023*. Manceinion: Arolygiaeth Prawf EM. Ar gael yn: <https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/inspections/annual-report-2022-2023>

Arolygiaeth Prawf EM. (2023a). *Race equality in probation follow-up: A work in progress*. Manceinion: Arolygiaeth Prawf EM. Ar gael yn: <https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/inspections/race-equality-in-probation-follow-up/>

Arolygiaeth Prawf EM (2023b). *Examining the links between probation supervision and positive outcomes – early progress*. Manceinion: Arolygiaeth Prawf EM.

Corston J. (2007). *The Corston Report: A Review of Women with Particular Vulnerabilities in the Criminal Justice System*. Llundain: Y Swyddfa Gartref.

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM. (2021). *Model Gweithredu Targed ar gyfer gwasanaethau prawf yng Nghymru a Lloegr*. Ar gael yn: [https://assets.publishing.service.gov.uk/media/622efad2e90e070ed32f187c/MOJ7350\\_HMPPS\\_Probation\\_Reform\\_Programme\\_TOM\\_Accessible\\_Welsh\\_LR\\_1\\_.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/media/622efad2e90e070ed32f187c/MOJ7350_HMPPS_Probation_Reform_Programme_TOM_Accessible_Welsh_LR_1_.pdf)

Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy. (2015). *Better Outcomes for Women Offenders*. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/achieving-better-outcomes-for-women-offenders>

Llywodraeth Cymru. (2019). *Glasbrint ar gyfer Troseddwy Benywaidd yng Nghymru*. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/glasbrint-ar-gyfer-troseddwy-benywaidd.pdf>

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. (2023). *Improving resettlement support for prison leavers to reduce reoffending*. Ar gael yn: <https://www.nao.org.uk/reports/improving-resettlement-support-for-prison-leavers-to-reduce-reoffending/>

Tavistock Institute (2019) *Why Women's Centres Work: An Evidence Briefing*. Ar gael yn: <https://www.tavistock.org/wp-content/uploads/2019/05/Women-and-Girls-Briefing-Report-Final-web.pdf>

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2018a). *Strategaeth Troseddwy Benywaidd*. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/female-offender-strategy>

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2018b). *A Whole System Approach for Female Offenders: Emerging Evidence*. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/female-offender-strategy>



Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2020). *Y Concordat ar Fenywod sydd, neu sydd mewn perygl o fod, mewn cysylltiad â'r System Cyfiawnder Troseddol*. Ar gael yn: <https://assets.publishing.service.gov.uk/media/60081e44d3bf7f0bf63ab9e9/moj-female-offenders-concordat-welsh.pdf>

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2021). *Women's Policy Framework*. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/womens-policy-framework>

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2023a). *Cynllun Cyflawni Strategaeth Troseddwyr Benywaidd: 2022–25*. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/female-offender-strategy-delivery-plan-2022-to-2025>

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2023b). *Offender Management Statistics Quarterly: July to September 2022*. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/statistics/offender-management-statistics-quarterly-july-to-september-2022/offender-management-statistics-quarterly-july-to-september-2022>

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2023c). *An impact evaluation of the prison-based Thinking Skills Programme (TSP) on reoffending*. Ar gael yn: [TSP\\_Reoffending\\_Report.pdf \(publishing.service.gov.uk\)](#)

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2023d). *A process evaluation of the Pre-Sentence Report pilot*, Ministry of Justice Analytical Series. Ar gael yn: <http://www.justice.gov.uk/publications/research-and-analysis/moj>

## Atodiad 1: Geirfa

<b>CAC (CRC yn Saesneg)</b>	Cwmni Adsefydlu Cymunedol
<b>Darparwyr</b>	Mae darparwyr yn darparu gwasanaeth neu fewnbwn wedi'i gomisiynu gan y Gwasanaeth Prawf ac yn cael ei ddarparu dan gontract iddo. Mae hyn yn cynnwys y staff a'r gwasanaethau a ddarperir o dan y contract, hyd yn oed pan fyddant wedi eu hintegreiddio neu eu lleoli o fewn y Gwasanaeth Prawf
<b>EPF</b>	Fframwaith Cynigion Effeithiol, platfform digidol a grëwyd gan HMPPS er mwyn gwella cysondeb a chynigion ymyriadau effeithiol yn y llys
<b>ETE</b>	Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth: gwaith i helpu unigolyn i ddysgu, ac i wella ei siawns o gael gwaith
<b>Gofyniad gweithgaredd adsefydlu (RAR)</b>	Er mis Chwefror 2015, pan roddwyd y Ddeddf Adsefydlu Troseddwr ar waith, gall llysoedd nodi nifer o ddiwrnodau RAR mewn gorchymyn; y gwasanaethau prawf fydd yn penderfynu ynglŷn â'r union waith a fydd yn cael ei wneud yn ystod y diwrnodau RAR
<b>Gwaith allweddol</b>	Mae gweithwyr allweddol yn swyddogion carchar band 3 sy'n cael eu dyrannu i hybu perthnasoedd adsefydlu adeiladol rhwng staff a charcharorion er mwyn meithrin ymddygiad cadarnhaol
<b>HMPPS</b>	Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi: yr asiantaeth unigol sy'n gyfrifol am wasanaethau carchardai a phrawf. Gweler y nodyn isod ar y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwr (NOMS)
<b>IDVA</b>	Cynghorwyr annibynnol ar drais domestig: yn darparu cefnogaeth i oroeswyr cam-drin domestig sy'n byw yn y gymuned ac yn cael eu hasesu fel rhai sy'n wynebu risg uchel o ragor o gam-drin domestig
<b>MAPPA</b>	Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd: lle mae prawf, yr heddlu, carchardai ac asiantaethau eraill yn gweithio gyda'i gilydd yn lleol er mwyn rheoli troseddwr sy'n achosi risg uchel o niwed i eraill. Lefel 1 yw rheolaeth asiantaeth arferol, lle gall yr asiantaeth sy'n gyfrifol am oruchwylio neu reoli achos y troseddwr reoli'r risgiau sy'n cael eu hachosi gan y troseddwr. Mae hyn yn cymharu â lefelau 2 a 3, sy'n galw am drefniadau rheoli amlasiantaethol gweithredol
<b>MoJ</b>	Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
<b>nDelius</b>	National Delius: y system rheoli achosion wedi'i chymeradwyo a ddefnyddir gan y Gwasanaeth Prawf yng Nghymru a Lloegr
<b>NOMS</b>	Gwasanaeth Rheoli Troseddwr Cenedlaethol: tan fis Ebrill 2017, yr asiantaeth unigol a oedd yn gyfrifol am wasanaethau carchardai a phrawf, y cyfeirir ato bellach fel Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS)

<b>NPS</b>	Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol: un gwasanaeth cenedlaethol a ddaeth i fodolaeth ym mis Mehefin 2014. Ei rôl yw darparu gwasanaethau i lysoedd a rheoli grwpiau penodol o droseddwr, gan gynnwys y rhai sy'n cyflwyno risg uchel neu uchel iawn o niwed difrifol a'r rhai sy'n ddarostyngedig i MAPPA
<b>OASys</b>	Y system asesu troseddwr sy'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd yng Nghymru a Lloegr gan y Gwasanaeth Prawf i fesur risgiau ac anghenion troseddwr sydd dan oruchwyliaeth
<b>OGRS (Graddfa Ail-euogfarnu Grwpiau Troseddwr)</b>	Mae OGRS yn rhagfynegydd aildroseddu sy'n seiliedig ar risgiau sefydlog: oedran, rhywedd a hanes troseddol
<b>Partneriaid</b>	Mae partneriaid yn cynnwys sefydliadau statudol ac anstatudol, yn gweithio gyda'r cyfranogwr/troseddwr drwy gytundeb partneriaeth â'r Gwasanaeth Prawf
<b>PDU</b>	Uned Cyflawni Prawf
<b>PSC</b>	Llys datrys problemau
<b>PSR</b>	Adroddiad cyn dedfrydu. Mae'n cyfeirio at unrhyw adroddiad a baratowyd ar gyfer llys, boed yn cael ei gyflwyno'n llafar neu mewn fformat ysgrifenedig
<b>PO</b>	Swyddog prawf: dyma'r term ar gyfer swyddog cyfrifol 'cymwysedig' sydd wedi dilyn cwrs mewn sefydliad addysg uwch am ddwy flynedd. Mae enw'r cymhwyster a chynnwys yr hyfforddiant yn amrywio gan ddibynnu pryd y cafodd ei ddilyn. Mae swyddogion prawf yn rheoli achosion mwy cymhleth
<b>PSO</b>	Swyddog gwasanaethau prawf: dyma'r term ar gyfer swyddog cyfrifol a gafodd ei recriwtio yn wreiddiol heb unrhyw gymhwyster. Gallant gael mynediad at hyfforddiant a bennir yn lleol i 'gymhwyso' fel swyddog gwasanaethau prawf neu i adeiladu ar hyn er mwyn cymhwyso fel swyddog prawf. Gallant reoli pob achos ar wahân i'r rhai mwyaf cymhleth, gan ddibynnu ar lefel eu hyfforddiant a'u profiad. Mae rhai swyddogion gwasanaethau prawf yn gweithio mewn llysoedd, lle mae eu dyletswyddau'n cynnwys ysgrifennu adroddiadau cyn dedfrydu
<b>Rhaglen achrededig</b>	Rhaglen waith a gyflwynir i droseddwr mewn grwpiau neu yn unigol drwy ofyniad mewn gorchymyn cymunedol neu orchymyn dedfryd ohiriedig, neu fel rhan o ddedfryd o garchar neu amod mewn trwydded carchar. Mae rhaglenni achrededig yn cael eu hachredu gan y Panel Achredu Gwasanaethau Cywirol fel rhai sy'n effeithiol er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o aildroseddu
<b>Rhaglen Sgiliau Meddwl (TSP)</b>	Rhaglen grŵp achrededig wedi'i chynllunio er mwyn datblygu sgiliau meddwl troseddwr i'w helpu i gadw allan o drwbl
<b>Rheoli Integredig Troseddwr (IOM)</b>	Mae Rheoli Integredig Troseddwr yn dod ag ymateb traws-asiantaethol i fygythiadau trosedd ac aildroseddu a wynebwr gan gymunedau lleol. Mae'r troseddwr mwyaf mynych a phroblemus yn cael eu nodi a'u rheoli ar y cyd gan asiantaethau partner sy'n gweithio gyda'i gilydd

## Atodiad 2: Methodoleg

---

Roedd yr arolygiad hwn yn ceisio ateb y cwestiynau a ganlyn:

### **A yw'r weledigaeth a'r strategaeth yn helpu i ddarparu gwasanaeth ymatebol, o safon uchel, wedi'i bersonoli i fenywod?**

- A yw'r arweinyddiaeth yn helpu i ddarparu'r weledigaeth a'r strategaeth yn effeithiol?
- A yw'r trefniadau llywodraethu, y model gweithredu a'r cynlluniau darparu yn trosi'r weledigaeth a'r strategaeth yn ymarfer effeithiol?
- A yw prosesau gwneud penderfyniadau strategol yn gwella ac yn galluogi ymarfer effeithiol?
- A yw'r weledigaeth a'r strategaeth yn cael eu llywio gan fenywod sydd â phrofiad personol o'r system cyfiawnder troseddol?

### **A yw staff yn cael eu grymuso i ddarparu gwasanaeth ymatebol, o safon uchel, wedi'i bersonoli i fenywod?**

- A yw'r lefelau staffio a llwyth gwaith yn helpu i ddarparu gwasanaeth o safon uchel i fenywod?
- A wneir defnydd digonol o wersi a ddysgwyd o archwilio, arolygiadau ac adolygiadau i lywio gwaith gyda menywod?
- A yw pob aelod o'r staff sy'n gweithio gyda menywod yn cael hyfforddiant ac arweiniad digonol i ddeall anghenion penodol menywod sy'n troseddu, gan gynnwys croestoriadedd?
- A yw'r staff sy'n gweithio gyda menywod yn cael goruchwyliaeth a throsolwg effeithiol o'u gwaith?

### **A oes ystod gynhwysfawr o wasanaethau ac ymyriadau ar gael i fenywod?**

- A wneir dadansoddiad digonol drwy waith llys ac asesiad cychwynnol, ac er mwyn nodi anghenion menywod a darparu ystod briodol o ymyriadau sy'n ystyried rhywedd ar gyfer menywod?
- A yw nifer, ystod ac ansawdd gwasanaethau yn ddigonol ar gyfer yr angen a nodwyd?
- A oes ymyriadau priodol ar gael i ddarparu ar gyfer anghenion amrywiol pob menyw?
- A yw'r ymyriadau sydd ar gael i fenywod wedi'u cysoni'n ddigonol â'r sail dystiolaeth bresennol?
- A oes mesurau sicrhau ansawdd priodol yn eu lle ar gyfer yr holl ymyriadau?
- A oes dadansoddiad digonol o ddarparu ymyriadau a gwasanaethau, gan gynnwys anghymesuredd posibl canlyniadau?

### **Pa mor dda mae ymarferwyr yn cefnogi ymatal?**

- A yw ymarferwyr yn ymgysylltu'n ddigonol â'r menywod yn ystod pob cam o'u dedfryd?
- A yw arferion asesu, cynllunio ac adolygu yn nodi, dadansoddi a mynd i'r afael yn effeithiol ag anghenion sy'n gysylltiedig â throseddau menywod?
- A yw cynllunio ar gyfer ailsefydlu yn canolbwyntio digon ar anghenion ailsefydlu'r unigolyn ac ar ffactorau sy'n gysylltiedig â throseddau ac ymatal?
- A yw menywod yn cymryd rhan ac yn cwblhau ymyriadau priodol a buan?
- A yw cyflawni dedfrydau yn mynd i'r afael yn ddigonol â ffactorau sy'n gysylltiedig â risg o aildroseddu?

### **Pa mor dda mae ymarferwyr yn rheoli risg o niwed?**

- A yw arferion asesu, cynllunio ac adolygu yn nodi, dadansoddi a mynd i'r afael yn effeithiol â'r risg o niwed difrifol sy'n cael ei achosi gan fenywod?
- A yw gwaith ailsefydlu yn rhoi ystyriaeth ddigonol i ffactorau sy'n gysylltiedig â chadw pobl eraill yn ddiogel?
- A yw cyflawni dedfrydau yn mynd i'r afael yn ddigonol â ffactorau sy'n gysylltiedig â'r risgiau o niwed sy'n cael eu hachosi gan fenywod?

### **Pa mor dda mae ymarferwyr yn cefnogi diogelwch a lles menywod?**

- A yw arferion asesu, cynllunio ac adolygu yn nodi, dadansoddi a mynd i'r afael yn effeithiol â risgiau i ddiogelwch a lles menywod?
- A yw ymarferwyr yn rhoi ystyriaeth ddigonol i ddiogelwch a lles menywod wrth ddarparu ymyriadau a gwasanaethau?
- A yw ymarferwyr yn ymgysylltu'n ddigonol â sefydliadau eraill mewn cysylltiad â diogelwch a lles menywod?

### **A yw trefniadau â phartneriaid statudol, darparwyr ac asiantaethau eraill wedi cael eu sefydlu, yn cael eu cynnal ac yn cael eu defnyddio'n effeithiol i ddarparu gwasanaethau ymatebol, o safon uchel, wedi'u personoli?**

- A oes digon o gyfranogiad mewn cynlluniau partneriaeth strategol, cytundebau a pholisïau â'r nod o fynd i'r afael â throseddau menywod?
- A yw'r cyfathrebu a rhannu gwybodaeth ag asiantaethau partner a gwasanaethau eraill yn effeithiol?
- A yw trefniadau ag asiantaethau partner a gwasanaethau eraill yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn gwella a datblygu darpariaeth?

### **Grŵp cyfeirio arbenigol**

Cyfrannodd grŵp cyfeirio arbenigol at yr adroddiad hwn drwy roi cyngor ar faterion strategol a gweithredol sy'n gysylltiedig â menywod yn y system cyfiawnder troseddol. Roedd y grŵp yn cynrychioli safbwyntiau rhanddeiliaid a gwnaeth sylw ar y canfyddiadau a oedd yn dod i'r amlwg a'r argymhellion terfynol. Roedd aelodau'r grŵp yn cynnwys:

- Yr Athro Loraine Gelsthorpe, Athro Emeritws Troseddeg a Chyfiawnder Troseddol yn y Sefydliad Troseddeg, Prifysgol Caergrawnt
- Cat Hemmings, Prif Swyddog Cynorthwyol Heddlu Bedfordshire, Swydd Gaergrawnt a Hertfordshire, arweinydd Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu ar gyfer menywod sy'n troseddu
- Sam Julius, Clinks, Pennaeth Dylanwad a Chyfathrebu
- Jude Kelman, Seicolegydd Arweiniol Ystad Menywod HMPPS
- Yr Athro Simon Pemberton, Athro mewn Polisi Cymdeithasol a Throseddeg, Prifysgol Birmingham
- Sonya Ruparel, Women in Prison, Prif Weithredwr
- Dr Gilly Sharpe, Darlithydd mewn Troseddeg, Prifysgol Sheffield
- Pia Sinha, Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai, Cyfarwyddwr
- Cordelia Tucker O'Sullivan, Revolving Doors, Cyfarwyddwr Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu
- Yr Athro Tammi Walker, Pennaeth Cymdeithas St Cuthbert ac Athro Seicoleg Fforensig, Prifysgol Durham
- Emma Wools, Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru ac Uwch Swyddog Cyfrifol ar gyfer y glasbrint Menywod.

## Gwaith maes

Roedd ein gwaith maes yn arolygu gwaith y chwe Uned Cyflawni Prawf: Swydd Gaerwrangon, Gorllewin Berkshire, Stockport a Trafford, Camden ac Islington, Caerdydd a'r Fro a Chaerfaddon a Gogledd Gwlad yr Haf. Roedd ein safleoedd gwaith maes yn cynnwys ardaloedd metropolitan a mwy gwledig, er mwyn sicrhau ein bod yn cael darlun cyflawn. Cwblhawyd y gwaith maes rhwng Hydref a Thachwedd 2023. Arolygwyd dau sampl yn ystod y gwaith maes; roedd y cyntaf yn sampl o 60 o fenywod a oedd yn destun gorchymyn cymunedol, dedfryd ohiriedig neu drwydded rhwng 01 Gorffennaf 2023 a 31 Gorffennaf 2023. Ar gyfer yr achosion hyn, arolygwyd ansawdd y gwaith rheoli achosion a chyfwelwyd yr ymarferydd prawf, os oedd hynny'n bosibl. Dewiswyd y samplau o restrau a ddarparwyd gan y gwasanaeth prawf o'r menywod ym mhob Uned Cyflawni Prawf a oedd yn cael eu goruchwyllo yn ystod y cyfnod a ddewiswyd gennym. Mae'r system adrodd a ddefnyddir gan y Gwasanaeth Prawf yn caniatáu i'r rhestr hon gael ei chreu gan ddefnyddio 'rhyw' yn hytrach na 'rhywedd'; o ganlyniad, roedd ein sampl yn cynnwys menywod yr oedd eu rhyw wedi'i gofnodi fel benyw yn unig.

Yn ein hail sampl, edrychasom ar 30 o achosion lle'r oedd y menywod yn preswyllo mewn adeiladau cymeradwy yn ystod mis Gorffennaf 2023. Yr adeiladau cymeradwy oedd: Bedford, Elizabeth Fry, Edith Rigby, Hestia Highbury, Crowley House ac Eden House. Roedd tri o'r adeiladau cymeradwy a ystyriwyd gennym yn cael eu rhedeg yn annibynnol ac roedd dau yn Amgylcheddau wedi'u Cynllunio'n Seicolegol Wybodus. Edrychasom ar brofiadau'r menywod yn yr adeiladau cymeradwy ar gyfer yr achosion hyn ond ni chafodd gwaith rheoli achosion ei archwilio.

Yn ystod pob wythnos gwaith maes, cynaliasom gyfarfodydd ag ystod o staff, rheolwyr, uwch arweinwyr, a phartneriaid gweithredol a strategol. Siaradasom hefyd â nifer fach o ddedfrydwyr a grwpiau ad hoc o fenywod a oedd yn derbyn gwasanaethau pan wnaethom eu cyfarfod yn ystod ymweliadau ag adeiladau cymeradwy neu ganolfannau menywod.

Cwblhawyd elfen garchar yr arolygiad thematig ar y cyd hwn ym misoedd Tachwedd a Rhagfyr 2023. Ymwelodd arolygwyr o Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi â phedwar carchar menywod caeedig: dau garchar mawr yn gwasanaethu'r llysoedd (Bronze Field a Styal) a dau garchar hyfforddi (Downview a Drake Hall). Cyfwelwyd 42 o fenywod, y rhan fwyaf wedi'u dedfrydu i 12 mis neu lai, am eu profiadau o ddarpariaeth ailsefydlu. Adolygwyd hefyd y cymorth roeddent wedi ei gael drwy ddarllen eu ffeiliau a siarad â'r gwahanol staff a oedd yn gysylltiedig â hwy. Cyfwelsom hefyd ystod eang o reolwyr ar bob safle.

Daeth y ddwy arolygiaeth at ei gilydd ar gyfer wythnos gwaith maes derfynol, lle cawsom gyfle i gyfarfod y rhai a oedd yn gyfrifol am bolisi menywod a strategaeth ar lefel genedlaethol.

Comisiynwyd User Voice i gynnal cyfweliadau lled-strwythuredig o bell gyda phobl ar brawf. Casglodd ymgynghorwyr â phrofiad personol o'r system cyfiawnder troseddol farn 77 o fenywod a fu'n cael eu rheoli gan y Gwasanaeth Prawf neu'n byw mewn adeiladau cymeradwy. Rydym wedi cynnwys enghreifftiau o'r barnau a gasglwyd yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn, ac mae copi o adroddiad llawn User Voice i'w weld [ar ein gwefan](#).

## Nodweddion y prif sampl prawf

Oedran	Nifer	%
18–25	4	7%
26–35	28	47%
36–55	23	39%
56+	4	7%
Hil a chategori ethnig	Nifer	%
Gwyn	43	72%
Du ac ethnig leiafrifol	17	28%
Grwpiau eraill	0	0%
A oes gan yr unigolyn sydd ar brawf anabledd?	Nifer	%
Oes	25	43%
Nac oes	33	57%
Math o achos sy'n cael ei arolygu?	Nifer	%
Trwydded	11	18%
Goruchwyliaeth ar ôl dedfrydu	5	8%
Gorchymyn cymunedol	30	50%
Gorchymyn dedfryd ohiriedig	14	23%

## Atodiad 3: Tablau data

**Tabl 1**

<b>Nodwch effaith y gwaith a wnaethpwyd mewn cysylltiad â'r canlyniadau a ganlyn (lle bo'n berthnasol):</b>		
<b>a) Camddefnyddio sylweddau:</b>	<b>Nifer</b>	<b>%</b>
Sicrhawyd y canlyniad	2	4%
Cynnydd digonol	6	13%
Cynnydd annigonol	29	62%
Dirywiad	10	21%
Amherthnasol	13	-
<b>b) Iechyd meddwl – galluogi mynediad at driniaeth iechyd meddwl:</b>	<b>Nifer</b>	<b>%</b>
Sicrhawyd y canlyniad	0	0%
Cynnydd digonol	16	28%
Cynnydd annigonol	37	64%
Dirywiad	5	9%
Amherthnasol	2	-
<b>c) Rheoli emosiynau:</b>	<b>Nifer</b>	<b>%</b>
Sicrhawyd y canlyniad	0	0%
Cynnydd digonol	11	19%
Cynnydd annigonol	42	74%
Dirywiad	4	7%
Amherthnasol	3	-
<b>d) Hunaniaeth sy'n hybu ymddygiad cymdeithasol cadarnhaol:</b>	<b>Nifer</b>	<b>%</b>
Sicrhawyd y canlyniad	0	0%
Cynnydd digonol	11	24%
Cynnydd annigonol	33	72%
Dirywiad	2	4%
Amherthnasol	14	-
<b>e) Bod â rheolaeth dros fywyd bob dydd a chael nodau:</b>	<b>Nifer</b>	<b>%</b>
Sicrhawyd y canlyniad	1	2%
Cynnydd digonol	16	29%
Cynnydd annigonol	34	61%
Dirywiad	5	9%
Amherthnasol	3	-
<b>f) Gwella cyswllt â theulu:</b>	<b>Nifer</b>	<b>%</b>
Sicrhawyd y canlyniad	1	2%
Cynnydd digonol	12	27%
Cynnydd annigonol	29	66%
Dirywiad	2	5%
Amherthnasol	16	-



<b>g) Ailsefydlu ac adeiladu cyfalaf cymdeithasol:</b>	<b>Nifer</b>	<b>%</b>
Sicrhawyd y canlyniad	0	0%
Cynnydd digonol	12	24%
Cynnydd annigonol	34	67%
Dirywiad	5	10%
Amherthnasol	9	-